Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 76/2025
DYDDIAD CYHOEDDI: 15/07/2025

# Adroddiad Gwerthuso Dyfarniad Grant FareShare Cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-166-6

Adroddiad Gwerthuso Dyfarniad Grant FareShare Cymru

Awduron:
Megan Byrne, Kerry KilBride, Sophie Wheeler, Jessica Mann,
Mariana Fikry, Susannah Lynn

Megan Byrne, Kerry KilBride, Sophie Wheeler, Jessica Mann, Mariana Fikry, Susannah Lynn (2025). Adroddiad Gwerthuso Dyfarniad Grant FareShare Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 76/2025.

Ar gael yn: Gwerthuso dyfarniad grant FareShare Cymru: 2015 i 2024 | LLYW.CYMRU

Barn yr ymchwilwyr ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â
Is-adran Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn:
E-bost: mailto:effeithlonrwyddadnoddauaceconomigylchol@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


**Rhestr o'r tablau** ........ **3**

**Rhestr o'r ffigurau** ........ **4**

**Geirfa** ........ **5**

**1. Cyflwyniad** ........ **8**

Strwythur yr adroddiad ........ 9

**2. Methodoleg** ........ **10**

Trosolwg o'r dull ........ 10

Cyfnod cwmpasu ........ 11

Cyfnod gwaith maes ........ 11

Cyfnod dadansoddi ........ 13

Cyfnod adrodd ........ 14

Cyfyngiadau ........ 15

**3. Rhesymeg dros ariannu** ........ **17**

Tirwedd polisi ........ 17

Gwastraff bwyd ac ailddosbarthu yng Nghymru a'r DU ........ 19

Anghenion ........ 22

Amcanion arian grant ........ 24

**4. Allbynnau gweithrediadau a ariennir gan y dyfarniad grant (ers 2015)** **28**

Priodoliad ........ 28

Targedau a chanlyniadau'r dyfarniad grant ........ 29

Gweithgareddau a hwylusir gan grant FSC ........ 32

Heriau cyflawni a ffactorau allanol ........ 38

Casgliad ........ 40

**5. Canlyniadau gweithrediad FSC** ........ **42**

Canlyniadau i fusnesau ........ 42

Casgliad – effaith gyffredinol FSC ar fusnesau oedd yn cymryd rhan ........ 47

Canlyniadau i aelodau ........ 49

Casgliad ........ 54

Canlyniadau i wirfoddolwyr ........ 54

Casgliad ........ 59

Canlyniadau anfwriadol ........ 62

**6. Gwersi o'r dirwedd ailddosbarthu ehangach** ........ **64**

Sut mae FSC yn ffitio i dirwedd ailddosbarthu Cymru ................................ 64
Modelau ariannu a chefnogaeth .................................................................. 73
**7. Cynaliadwyedd parhaus ailddosbarthu yng Nghymru ac opsiynau ar gyfer y dyfodol ........................................................................... 77**
Cyfleoedd i Lywodraeth Cymru gefnogi ailddosbarthu yng Nghymru ......... 77
Cryfhau effaith amgylcheddol ...................................................................... 79
Cynaliadwyedd model gweithredu FSC yng Nghymru ................................ 81
**8. Casgliadau ac argymhellion ..................................................................... 91**
Perthnasedd: a yw'r ymyrraeth yn gwneud y pethau cywir? ....................... 91
Argymhellion ar gyfer y dyfarniad grant ...................................................... 95
**9. Atodiad A [Atodiad A: model rhesymeg] ................................................. 99**
Atodiad B: tabl ymgysylltu ......................................................................... 107
Atodiad C: cynnydd a adroddwyd yn erbyn targedau perfformiad ar gyfer arian grant (2015 hyd at 2023 i 2024) ...................................................... 108
Atodiad D: dadansoddiad o ffactorau addasu rhanbarthol ........................ 111

## Rhestr o'r tablau

Tabl 3.1: Tunelli o fwyd dro ben wedi'i ailddosbarthu yn y DU, yn ôl sector bwyd.... 20
Tabl 3.2: Amcangyfrifon ar gyfer cyfanswm y tunelli o fwyd dros ben a ailddosbarthwyd yng Nghymru, yn ôl sector bwyd yn 2023 ......................... 21
Tabl 7.1: Dadansoddiad o fathau o sefydliadau rhestr aros ..................................... 85

## Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 4.1: Model gweithredol FSC ........ 26
Ffigur 5.1: Effeithiau amgylcheddol yr arian grant ers 2015 ........ 61
Ffigur 7.1: Cynaliadwyedd ariannol FSC dros amser ........ 84
Ffigur 7.2: Rhestr aros sefydliad fesul pen yn ôl ALI ........ 86

## Geirfa

**AD**

Treuliad Anaerobig

**Buddiolwyr**

Unigolion neu aelwydydd sy'n derbyn cymorth bwyd drwy aelodaeth, gan gynnwys y rhai sy'n profi ansicrwydd bwyd, aelwydydd incwm isel, a grwpiau agored i niwed sy'n dibynnu ar wasanaethau ailddosbarthu bwyd.

**CCC**

Pwyllgor Newid Hinsawdd

**CFM**

Aelod Bwyd Cymunedol

**CO2e**

Cyfwerth â Charbon Deuocsid

**CSR**

Cyfrifoldeb Corfforaethol a Chymdeithasol

**DAERA**

Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig

**DEFRA**

Adran yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig

**FS**

FareShare

**FSC**

FareShare Cymru

**FSGo**

FareShare Go

**FSNI**

FareShare Gogledd Iwerddon

**FSUK**

FareShare Y Deyrnas Unedig

**HaFS**

Lletygarwch a Gwasanaeth Bwyd

**IFAN**

Rhwydwaith Cymorth Bwyd Annibynnol

**All**

Awdurdod Lleol

**LCP**

Pwyntiau Casglu Lleol

**NCVO**

Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Sefydliadau Gwirfoddol

**GIG**

Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**NI**

Gogledd Iwerddon

**OECD**

Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

**PgG**

Rhaglen Lywodraethu

**RECE**

Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol

**RAF**

Resource Action Fund

**SWP**

Bwyd dros Ben ag Amcan

**WBFGA**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**WCVA**

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

**WIMD**

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

**WRAP**

Rhaglen Gweithredu ar Wastraff ac Adnoddau

**ZWS**

Zero Waste Scotland

## 1. Cyflwyniad

Mae gwastraff bwyd yn broblem sylweddol yng Nghymru, gyda goblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol. Yn ôl y Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP), mae gwastraff bwyd "yn disgrifio unrhyw fwyd a rhannau anfwytadwy a anfonir i unrhyw un o'r cyrchfannau canlynol: treulio anaerobig/cyd-dreulio; compostio/prosesau aerobig; llosgi/hylosgi dan reolaeth; rhoi ar dir; tirlenwi; trin carthffosiaeth/dŵr gwastraff; heb ei gynaeafu/ei aredig (ar gyfer cnydau) neu fel arall (gan gynnwys gwaredu heb ei reoli)."[1]

Ers 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu FareShare Cymru (FSC) i ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben i sefydliadau cymunedol yng Nghymru. Pwrpas yr arian yw galluogi FSC i weithio tuag at ymladd tlodi bwyd wrth fynd i'r afael â gwastraff bwyd ar yr un pryd. Mae FSC yn cael ei ariannu'n bennaf gan Is-adran Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol (RECE) Llywodraeth Cymru, gydag arian atodol gan Is-adran Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd Llywodraeth Cymru. At ei gilydd, mae FSC wedi derbyn ychydig dros £3m mewn arian ers 2015, gyda thua £2m ohono wedi dod o RECE a thua £1m o Trechu Tlodi.

Fel gyda phob grant gan Lywodraeth Cymru, mae angen gwerthuso'r arian grant, deall maint ei effaith, a nodi meysydd i'w gwella. Bydd y gwerthusiad hwn yn llywio rhan o'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau yn y dyfodol ar arian grant o fewn y sector ailddosbarthu, er mwyn diwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg ac ymrwymiadau polisi. Mae rhagor o fanylion am y rhesymeg dros yr arian grant a chysylltiadau â pholisïau ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn cael eu trafod yn fanylach ym Mhennod 3.

Mae'r dyfarniad grant presennol wedi'i ymestyn i 31 Mawrth 2026; felly, mae'n hanfodol bod effaith y dyfarniad grant hwn yn cael ei gwerthuso, a bod opsiynau ar gyfer arian yn y dyfodol yn cael eu dadansoddi i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth, a darparu argymhellion i lywio gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r gwerthusiad o'r grant ac yn darparu asesiad o opsiynau yn y dyfodol i gefnogi ailddosbarthu gwastraff bwyd.

[1] WRAP, WRAP Food waste measurement roadmap 2020 Guidelines Medi 2020 (tudalennau 15-16)

**Strwythur yr adroddiad**

Mae cynnwys yr adroddiad hwn wedi'i amlinellu isod.

- Pennod 2 – Methodoleg
- Pennod 3 – Rhesymeg dros ariannu
- Pennod 4 – Allbynnau Gweithrediadau a Ariennir gan y Dyfarniad Grant (ers 2015)
- Pennod 5 – Canlyniadau gweithrediad FSC
- Pennod 6 – Gwersi o’r dirwedd ailddosbarthu ehangach
- Pennod 7 – Cynaliadwyedd parhaus ailddosbarthu yng Nghymru ac opsiynau ar gyfer y dyfodol
- Pennod 8 - Casgliadau ac Argymhellion

## 2. Methodoleg

### Trosolwg o'r dull

Nod y gwerthusiad oedd asesu effaith a chynaliadwyedd Grant FSC o 2015 hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2023 i 2024 a nodi cyfleoedd ac opsiynau yn y dyfodol o amgylch arian Llywodraeth Cymru i gefnogi ailddosbarthu gwastraff bwyd. Roedd amcanion cyffredinol y gwerthusiad yn cynnwys:

- archwilio pa weithgareddau y mae'r arian grant wedi'i alluogi a sut mae wedi cefnogi ymgysylltiad â busnesau ac Aelodau (sefydliadau a darparwyr bwyd cymunedol sy'n talu ffi fach i dderbyn bwyd bwytadwy dros ben) – wedi'i archwilio ym Mhennod 4
- datblygu dealltwriaeth o'r effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol y mae'r arian wedi'u galluogi ac ystyried beth fyddai wedi digwydd yn absenoldeb arian – wedi'i archwilio ym Mhennod 5
- archwilio sut mae gweithrediadau a ariennir gan Grant FSC yn ffitio i'r dirwedd ailddosbarthu ehangach yng Nghymru a thynnu ar wersi a ddysgwyd o'r sector ailddosbarthu a modelau amgen mewn mannau eraill yn y DU – wedi'i archwilio ym Mhennod 6
- ystyried i ba raddau y mae arian grant wedi galluogi FSC i ddatblygu cynaliadwyedd ei weithrediadau ac archwilio cyfleoedd yn y dyfodol i wella cynaliadwyedd y sector ailddosbarthu – wedi'i archwilio ym Mhennod 7

Er mwyn mynd i'r afael â'r amcanion gwerthuso, datblygwyd methodoleg gadarn, wedi'i seilio ar ganllawiau Llyfr Magenta Trysorlys y DU a meini prawf gwerthuso o feini prawf Gwerthuso Gwell OECD.

Tanlinellwyd ein methodoleg gan ddull Damcaniaeth Newid. Roedd y dull hwn yn golygu datblygu model rhesymeg ar gyfer dyfarniad grant FSC[2], a oedd yn amlinellu 'llwybr' damcaniaethol manwl o amcanion y grant hyd at ei ganlyniadau a'i effeithiau disgwyliedig. Yna profwyd y model rhesymeg hwn drwy gyflwyno gweithdy mapio model rhesymeg a rhagdybiaethau, a oedd â'r nod o fapio'r rhagdybiaethau rhwng pob elfen o'r model rhesymeg a'u gwneud yn eglur. Ar ôl ei ddatblygu, bu'r model rhesymeg hwn yn sail i ddatblygiad fframwaith gwerthuso dyfarniad grant FSC. Defnyddiwyd y fframwaith hwn i arwain

[2]Gweler Atodiad A am Fodel Rhesymeg Grant FSC.

datblygiad yr holl offer gwaith maes a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad, gan helpu i sicrhau bod y cwestiynau priodol yn cael eu gofyn i'r rhanddeiliaid cywir. Ei nod hefyd oedd mynd i'r afael â'r bylchau yn y sylfaen dystiolaeth bresennol a darparu strwythur ar gyfer dadansoddi ffynonellau data cynradd ac eilaidd i brofi'r rhagdybiaethau ynghylch sut yr oedd dyfarniad grant FSC yn anelu at gyflawni ei amcanion. Roedd ein dull yn cynnwys y camau allweddol canlynol.

**Cyfnod cwmpasu**

Cynhaliwyd 4 cyfweliad cwmpasu cychwynnol gyda 3 rhanddeiliad allweddol Llywodraeth Cymru ac un rhanddeiliad FSC i ddatblygu dealltwriaeth lefel uchel o hanes y dyfarniad grant a sut y disgwylid iddo fynd i'r afael ag ysgogwyr polisi allweddol ac anghenion, ochr yn ochr ag adolygiad desg o ddogfennaeth berthnasol FSC. Roedd hyn yn cynnwys; adroddiadau chwarterol, data monitro, adroddiadau blynyddol, dogfennau cais am arian, telerau ac amodau grant, a chynnig ac adrodd ar Fwyd dros Ben ag Amcan (SWP) Cymru.

Roedd allbynnau allweddol ar gyfer y cyfnod hwn yn cynnwys model rhesymeg a gweithdy mapio rhagdybiaethau[3], datblygu fframwaith gwerthuso a chynhyrchu offer ymchwil ar gyfer pob llinyn o'r gwaith maes.

Yn ogystal, gwerthuswyd y niferoedd sampl disgwyliedig yn erbyn y boblogaeth gyfan mewn achosion lle'r oedd niferoedd y boblogaeth yn hysbys. Disgwylid i gyfanswm y boblogaeth aelodau fod yn 258, yn seiliedig ar ddata monitro a rannwyd â Llywodraeth Cymru gan FSC. Nid oedd cyfanswm y gwirfoddolwyr a'r busnesau yn hysbys, er bod nifer y busnesau wedi'i amcangyfrif yn seiliedig ar y nifer a oedd wedi'u cynnwys ar restr bostio FSC.

**Cyfnod gwaith maes**

Cynhaliwyd cyfweliadau a gweithdai lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid a buddiolwyr allweddol gan ddefnyddio canllawiau pwnc pwrpasol ar gyfer pob grŵp. Cynhaliwyd yr holl gyfweliadau o bell naill ai drwy feddalwedd Microsoft Teams neu dros y ffôn. Cynhaliwyd y gweithdai gyda gwirfoddolwyr ar y safle yn warws FSC yng Nghaerdydd.

Cafodd nifer o grwpiau, gan gynnwys aelodau, gwirfoddolwyr, busnesau a rhanddeiliaid FSUK eu recriwtio'n uniongyrchol neu eu hannog i gymryd rhan yn

[3] Mynychwyd gan 2 randdeiliad Llywodraeth Cymru ac un randdeiliad FSC.

y gwaith maes gwerthuso gan FSC. Yn ogystal, dosbarthwyd arolwg ar-lein i fusnesau hefyd drwy restr bostio FSC. Ar ddiwedd yr arolwg, gallai busnesau nodi a hoffent gymryd rhan mewn cyfweliad dilynol ynghylch eu profiadau o weithio gydag FSC. Defnyddiwyd yr arolwg hwn fel y brif sianel recriwtio ar gyfer cyfweliadau â busnesau.

At ei gilydd, roedd y gwaith maes gwerthuso yn cynnwys:

- wyth cyfweliad gydag aelod sefydliadau. Canolbwyntiodd y cyfweliadau hyn ar gefndir yr aelodau, yr hyn a wnaethant cyn derbyn bwyd gan FSC, eu profiad o dderbyn bwyd bwytadwy dros ben gan FSC, unrhyw heriau a wynebasant, yn ogystal â manteision i'r aelodau a'u buddiolwyr, a'r hyn a fyddai wedi digwydd pe na baent wedi derbyn bwyd bwytadwy dros ben gan FSC.
- dau weithdy, gyda chyfanswm o 12 o wirfoddolwyr yn mynychu ar draws y sesiynau [4]. Gofynnwyd nifer o gwestiynau i wirfoddolwyr yn ymdrin â'u cymhellion dros wirfoddoli, eu profiadau o wirfoddoli i FSC, unrhyw heriau a wynebwyd neu welliannau y gellid eu gwneud i weithrediadau FSC, yn ogystal â'r canlyniadau a welsant drwy wirfoddoli a'r hyn y byddent wedi'i wneud pe na byddent wedi gwirfoddoli i FSC.
- cyfweliad â 2 randdeiliad FSC. Canolbwyntiodd y cyfweliad ar weithrediadau'r FSC hyd yma a'r graddau y mae hyn wedi'i hwyluso gan y dyfarniad grant, canlyniadau ac effeithiau'r dyfarniad grant, yn ogystal ag edrych ar yr hyn yr oedd FSC wedi'i wneud hyd yma i wella ei gynaliadwyedd hirdymor, a nodi cyfleoedd yn y dyfodol i'r FSC barhau i ddatblygu ei effaith a'i gynaliadwyedd trwy arian grant fel rhan o'i strategaeth weithredol ehangach.
- tri chyfweliad gyda rhanddeiliaid FSUK. Canolbwyntiodd cyfweliadau â rhanddeiliaid FSUK ar sut mae FSC yn ffitio i mewn i rwydwaith ehangach FSUK, i ba raddau y mae'n gweithredu mewn ffordd debyg neu wahanol i ganghennau rhanbarthol eraill FSUK, ac unrhyw wersi a ddysgwyd neu arfer gorau o rwydwaith ehangach FSUK o ran mynd i'r afael â'r heriau a wynebir yng Nghymru.

---

[4] Er na sefydlwyd fframwaith samplu ar gyfer y gweithdai gwirfoddolwyr, ymgysylltwyd â gwirfoddolwyr drwy'r gweithdai a oedd yn cwmpasu ystod o rolau yn FSC fel y nodir yn yr adran 'Canlyniadau i wirfoddolwyr', yn ogystal â rhyw ac oedran.

- chwe chyfweliad gyda rhanddeiliaid ehangach[5] gan gynnwys rhanddeiliaid polisi a rhanddeiliaid ailddosbarthu bwyd ehangach. Canolbwyntiodd cyfweliadau â rhanddeiliaid polisi ar natur ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben, yr heriau sy'n gysylltiedig ag ailddosbarthu, y prif ddulliau polisi ac ariannu a ddefnyddir gan y llywodraethau priodol yn y gwledydd datganoledig, yn ogystal ag unrhyw arfer gorau neu wersi a ddysgwyd y gellid eu cymhwyso i Gymru. Canolbwyntiodd cyfweliadau â rhanddeiliaid ailddosbarthu bwyd ehangach ar y gwahanol fodelau o ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben ledled y DU, cryfderau a gwendidau cymharol y modelau hynny o ran effaith a chynaliadwyedd dros amser, yn ogystal ag arfer gorau a gwersi a ddysgwyd y gellid eu cymhwyso i Gymru.
- arolwg o fusnesau a oedd wedi rhoi rhoddion i FSC yn flaenorol, a dderbyniodd gyfanswm o 6 ymateb gan fusnesau (5 gweithgynhyrchydd ac un ffermwr/tyfwr). Gofynnwyd 23 o gwestiynau i fusnesau yn ymdrin â chefndir eu busnes, eu profiadau o roi i FSC ac unrhyw heriau a wynebwyd, yn ogystal â chanlyniadau/effeithiau i'r busnes a beth fyddai'n digwydd i fwyd bwytadwy dros ben yn absenoldeb eu partneriaeth ag FSC.
- dau gyfweliad dilynol gyda chynrychiolwyr busnesau a oedd wedi rhoi rhoddion o'r blaen i FSC (gweithgynhyrchwyr Cynnyrch Llaeth a Diodydd) ac a oedd eisoes wedi cael eu cynnwys drwy'r arolwg.[6] Roedd y cyfweliadau'n ymdrin â meysydd tebyg i'r arolygon o ran y pynciau a drafodwyd; fodd bynnag, roeddent yn canolbwyntio ar gasglu ymatebion mwy manwl ynghylch eu profiad o roi rhoddion i FSC ac unrhyw ganlyniadau cysylltiedig i'w busnesau.

### Cyfnod dadansoddi

Aseswyd cynnydd yn erbyn targedau a mesurau effaith ehangach heb unrhyw dargedau ynghlwm trwy ddadansoddi ffurflenni monitro gan FSC. Roedd hyn yn cynnwys:

---

[5] Gan gynnwys yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban, Zero Waste Scotland, Feeding Britian a Company Shop.

[6] Gweler Atodiad B am y dadansoddiad llawn o'r ymgysylltu.

- amcangyfrif y tunelli o fwyd bwytadwy dros ben a achubwyd, prydau bwyd a ailddosbarthwyd, aelodau a gefnogwyd, a gwerth ariannol amcangyfrifedig bwyd i aelodau.
- cyfrifwyd dadansoddiad amgylcheddol ynghylch amcangyfrifon o CO2e a $CH_4$ a arbedwyd o ganlyniad i weithrediadau a ariannwyd gan Grant FSC yn seiliedig ar yr amcangyfrif o dunelli o wastraff bwyd a arbedwyd, fel yr adroddwyd yn ffurflenni monitro FSC.
- dadansoddwyd canran yr hunangynhaliaeth a adroddwyd gan FSC a rennir â Llywodraeth Cymru trwy fonitro ffurflenni i asesu tueddiadau o flwyddyn i flwyddyn.
- dadansoddiad o newidiadau data incwm a gwariant FSC o flwyddyn i flwyddyn o 2015 i 2023, sydd ar gael drwy'r Comisiwn Elusennau, i lywio asesiad o gyfraniad y grant at gynaliadwyedd ariannol gweithrediadau FSC.
- data arolwg wedi'i ddadansoddi yn Excel i nodi tueddiadau allweddol.

Yn ogystal, archwiliwyd data rhestr aros aelod sefydliadau FSC i asesu lefelau'r galw heb ei fodloni trwy ddadansoddi dadansoddiad o'r aelod sefydliadau ar restr aros FSC fesul pen yn ôl awdurdod lleol a lefel amddifadedd, yn ogystal â'r math o sefydliad. Galluogodd hyn asesiad o'r ardaloedd â'r nifer uchaf o sefydliadau ar y rhestr aros ac a yw'r rhain yn clystyru mewn ardaloedd o amddifadedd uwch (lle disgwylir i'r angen fod yn uwch).

Darperir rhagor o fanylion am ffynonellau data a chrynodeb o ganfyddiadau'r dadansoddiadau hyn ym Mhennod 5 a Phennod 6.

Ar gyfer data cyfweliadau a gweithdai ac unrhyw gwestiynau arolwg agored, cynhaliwyd dadansoddiad thematig anwythol i nodi themâu allweddol o amgylch y cwestiynau gwerthuso. Nodwyd themâu ar wahân yn gyntaf ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid. Ar gyfer busnesau, dadansoddwyd data o'r arolwg a'r cyfweliadau yn annibynnol, cyn integreiddio canfyddiadau. Sicrhaodd y dull hwn fod mewnwelediadau lefel uchel yn adlewyrchu persbectif cytbwys ar draws gwahanol ddulliau ymgysylltu gan liniaru'r risg o or-gynrychioli barn y rhai a gafodd eu cyfweld, a ddewiswyd o blith ymatebwyr yr arolwg.

**Cyfnod adrodd**

Cyflwynwyd canfyddiadau'r gwerthusiad i randdeiliaid allweddol Llywodraeth Cymru er mwyn gwirio'r canfyddiadau, cyn eu llunio yn yr adroddiad hwn.

### Cyfyngiadau

Roedd y gwerthusiad yn wynebu sawl cyfyngiad o ran ymgysylltu ac argaeledd data, a oedd yn cyfyngu ar y sail dystiolaeth y gellid ei defnyddio i gefnogi canfyddiadau'r gwerthusiad. Roedd y rhain yn cynnwys yr heriau canlynol a amlinellir isod.

- **Nifer isel yn manteisio ar waith maes o ran aelodau a busnesau** – nodir bod yr ymgysylltiad â gwaith maes gan aelodau a busnesau yn sylweddol is na'r disgwyl. Roedd y sampl o aelod sefydliadau a gymerodd ran yn cynnwys 8 allan o gyfanswm o 258 o aelodau yng Nghymru neu 3.1% o gyfanswm y boblogaeth aelodau. Roedd yr ymgysylltiad busnes yn cynnwys 6 ymateb i'r arolwg, ac o'r rhain dewisodd 2 ymatebydd i'r arolwg gymryd rhan mewn cyfweliadau dilynol. Er bod y gyfradd ymateb yn is na'r disgwyl, mae hefyd yn bwysig nodi na ellid asesu'r gymhariaeth rhwng maint y sampl a'r boblogaeth gyfan oherwydd y diffyg data sydd ar gael ar nifer y busnesau a oedd yn rhoddwyr FSC. Roedd FSC yn gweithredu fel y rheolwr data ar gyfer y busnesau, yr aelodau a'r gwirfoddolwyr y maent yn eu cyflogi. Felly, nid oedd y gwerthusiad yn gallu cysylltu â nhw'n uniongyrchol ac roedd yn ddibynnol ar FSC i recriwtio ar gyfer gwaith maes. Yn achos busnesau, roedd hyn yn golygu bod yn rhaid amseru cyfathrebiadau recriwtio ochr yn ochr â chyfathrebiadau ehangach a gynlluniwyd gan FSC er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw effaith andwyol ar lefel y rhoddion a dderbyniwyd gan FSC, yn enwedig yn y cyfnod cyn y Nadolig, sy'n gyfnod prysur o'r flwyddyn i fusnesau bwyd. Effeithiodd hyn ar y momentwm y gellid ei adeiladu o amgylch y cyfnod recriwtio cychwynnol. Yn ogystal, mae'n bosibl bod amseriad rhywfaint o'r recriwtio aelodau yn cyd-daro ag arolwg aelodau FSUK wedi cyfrannu at flinder cyfranogwyr a nifer isel o bobl yn cymryd rhan.
- **Analllu i sefydlu gwerthusiad gwrthffeithiol cadarn** – gofynnwyd i aelodau fel rhan o'r cyfweliadau a gynhaliwyd beth fyddent yn ei wneud pe na byddent yn derbyn cefnogaeth gan FSC,[7] ac er bod hyn yn gallu rhoi rhywfaint o

[7] Yn ogystal â'r hyn yr oeddent wedi'i wneud cyn derbyn bwyd bwytadwy dros ben gan FSC.

fewnwelediad i'r hyn y byddai aelodau wedi'i wneud yn absenoldeb cefnogaeth FSC, o ystyried maint bach y sampl a'r ddibyniaeth ar ganfyddiadau aelodau, nid oedd gwerthusiad gwrthffeithiol cwbl gadarn yn bosibl. Yn ogystal, er bod rhywfaint o ddadansoddiad cychwynnol wedi'i gynnal ar lefel y galw am gymorth yng Nghymru trwy ddadansoddi data rhestr aros FSC[8], ni ellid cynnal dadansoddiad ehangach o union natur y galw hwn y tu hwnt i nifer y darpar ymgeiswyr am aelodaeth, y lleoliad a'r math o sefydliad.

[8] Am fwy o fanylion gweler y dadansoddiad o ddata rhestr aros aelodau ym Mhennod 7.

## 3. Rhesymeg dros ariannu

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y rhesymeg dros ddyfarnu Grant FSC, gan asesu hefyd pam roedd angen cefnogaeth a sut mae amcanion yr arian grant wedi cyd-fynd â'r cyd-destun polisi ehangach.

**Tirwedd polisi**

Mae gan Gymru ddull datganoledig o ymdrin â pholisi gwastraff, a gefnogir gan fframwaith deddfwriaethol cadarn sydd â'r nod o leihau gwastraff bwyd ar draws y gadwyn gyflenwi.

Mae polisi gwastraff yng Nghymru yn dyddio'n ôl i'r strategaeth genedlaethol gyntaf yn 2002, ond yn bwysicach fyth i strategaeth gwastraff 2010; Tuag at Ddyfodol Diwastraff[9], a osododd fap ffordd i leihau gwastraff i derfynau Un Blaned erbyn 2050, gydag ymrwymiad cryf i ailgylchu a lleihau safleoedd tirlenwi.

Yn bennaf, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[10] yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol sylfaenol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol cynaliadwy a lleihau carbon yng Nghymru. Mae'n gorchymyn Polisi Adnoddau Naturiol statudol, gan nodi 4 cyfle allweddol, gan gynnwys hyrwyddo economi sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau.

Gyda'r datganiad o argyfwng hinsawdd yn 2019[11] a chamau parhaus i fynd i'r afael â newid hinsawdd, mae uchelgeisiau fel cynhyrchu dim gwastraff a dim allyriadau carbon net, mae effeithlonrwydd adnoddau ac economi gylchol – yr olaf wedi'i ddiffinio fel cadw adnoddau mewn defnydd cyhyd â phosibl i liniaru gwastraff – yn hanfodol i gyflawni amcanion cenedlaethol.

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 (PfG)[12] yn amlinellu 10 amcan sy'n cyd-fynd â 7 nod llesiant hirdymor Cymru Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFGA)[13]. O dan y PfG, mae Llywodraeth Cymru yn anelu at ymgorffori ei hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnânt. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau i gryfhau mesurau atal gwastraff bwyd, gwella effeithlonrwydd adnoddau drwy fuddsoddi yn yr economi gylchol, blaenoriaethu

[9] Llywodraeth Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff: ein strategaeth gwastraff (2010)
[10] Llywodraeth Cymru, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (2016).
[11] Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Cymru yn gwneud datganiad argyfwng hinsawdd (2019)
[12]Llywodraeth Cymru Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad Llesiant (2021)
[13] Llywodraeth Cymru, 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)' (2015)

atebion carbon isel, a byrhau'r gadwyn gyflenwi wrth fynd i'r afael â thlodi bwyd hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun cychwynnol i leihau allyriadau carbon yng Nghymru drwy Adeiladu ar Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2016–2020)[14] Dilynwyd y cynllun hwn gan Net Sero Cymru: Cyllideb Carbon 2[15] yn 2021 a nododd sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi cynnydd ar ei thargedau allyriadau i gyrraedd sero net erbyn 2050. Roedd y mesurau a nodwyd yn cynnwys cyflwyno rheoliadau ailgylchu newydd i fusnesau i alluogi busnesau i fonitro eu gwastraff yn agosach drwy gyflwyno system olrhain gwastraff orfodol. Mae'r system hon yn cynnwys adrodd penodol ar wastraff bwyd gan fusnesau bwyd.

Yn 2021, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Mwy Nag Ailgylchu[16], sy'n anelu at hyrwyddo economi gylchol yng Nghymru. Mae'n sefydlu targed anstatudol ar gyfer lleihau gwastraff bwyd y gellir ei osgoi 50% erbyn 2025, a 60% erbyn 2030 o'i gymharu â llinell sylfaen 2006 i 2007. Mae'r strategaeth yn cyfrannu at nodau WBFGA, yn benodol, y nodau o greu: 'Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang'', gan annog defnydd cyfrifol a lleihau gwastraff i leihau allyriadau carbon a ''Chymru Iachach'' drwy hyrwyddo system fwyd gwastraff isel, lleihau gwastraff bwyd a chynyddu mynediad at fwyd maethlon, gan helpu i atal gwastraff bwyd drwy ailddosbarthu bwyd.

Mae'r Cynllun Gweithredu Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2021[17] yn gweithredu fel dull penodol i'r sector o gyflawni nodau cynaliadwyedd a lleihau gwastraff ehangach. Mae'n cefnogi arferion busnes cynaliadwy, gan leihau gwastraff mewn cynhyrchu, a gwella effeithlonrwydd adnoddau ar draws y gadwyn gyflenwi bwyd. Mae'n pwysleisio'r symudiad tuag at economi gylchol drwy leihau gwastraff a chadw adnoddau mewn defnydd cyhyd â phosibl, megis lleihau gwastraff pecynnau, ailddefnyddio deunyddiau, a chefnogi ailddosbarthu bwyd. Ar ben hynny, mae'r Cynllun yn ategu'r Strategaeth Mwy Nag Ailgylchu drwy ddatblygu Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio ar gyfer y sector bwyd,

[14] Llywodraeth Cymru (2019) 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel' (2019).
[15] Llywodraeth Cymru, Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2
[16] Llywodraeth Cymru, Mwy Nag Ailgylchu: Strategaeth i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti, 2021
[17] Llywodraeth Cymru, 'Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021', 2021

annog busnesau i leihau eu hôl troed carbon, a chefnogi ymchwil i systemau bwyd cynaliadwy.

Yn 2024, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle[18], a osododd ofyniad i bob busnes, sefydliad sector cyhoeddus ac elusen ddidoli eu gwastraff ar gyfer ailgylchu, gan gynnwys gwastraff bwyd ar gyfer safleoedd sy'n cynhyrchu mwy na 5kg yr wythnos. Roedd y rheoliadau'n cynnwys gwaharddiad ar anfon bwyd i garthffosydd gwastraff.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn llofnodwr Ymrwymiad Courtauld[19],[20], sef cytundeb gwirfoddol y DU sy'n anelu at gyflawni Nod Datblygu Cynaliadwy 12.3 y Cenhedloedd Unedig i haneru gwastraff bwyd ar lefel manwerthu a defnyddwyr erbyn 2030.

Mae Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru 2025[21] yn tynnu sylw at y rôl bwysig y gall mentrau bwyd cymunedol ei chwarae wrth gryfhau gwydnwch bwyd; gan symud i ffwrdd o ddibyniaeth ar fanciau bwyd, trwy gaffael bwyd o ystod fwy amrywiol o ffynonellau. Drwy'r strategaeth, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i annog cymunedau i gaffael bwyd yn fwy lleol drwy ddatblygu perthnasoedd â sefydliadau ailddosbarthu, gan weithio'n uniongyrchol gyda chyflenwyr, a defnyddio platfformau sy'n seiliedig ar apiau ac oergelloedd cymunedol.

### Gwastraff bwyd ac ailddosbarthu yng Nghymru a'r DU

Bob blwyddyn, mae tua 10.7 miliwn tunnell o fwyd yn cael ei golli neu ei wastraffu ledled y DU[22]. Amcangyfrifir bod cartrefi Cymru wedi cynhyrchu cyfanswm o 309,000 tunnell o wastraff bwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2021 i 2022, gyda chyfartaledd o 100 kg y pen neu 230 kg y cartref yn flynyddol.[23]. Gyda ffynonellau masnachol yng Nghymru yn cynhyrchu tua 280,000 tunnell o wastraff bwyd yn flynyddol[24] mae cyfle clir hefyd i ddargyfeirio gwastraff a dylanwadu ar ymddygiadau masnachol yng Nghymru.

---

[18] Llywodraeth Cymru, Rheoliadau ailgylchu yn y gweithle: Canllaw ar gyfer busnesau a mentrau bach a chanolig (SMEs), 2024

[19] WRAP. Ymrwymiad Courtauld 2030: Reducing Food Waste, Water Stress, and Greenhouse Gas Emissions. Waste and Resources Action Programme, 2021

[20] WRAP, ' Introducing the UK Food and Drink Pact from WRAP', 27th Chwefror 2025

[21] Bwyd a Diod Cymru, 'Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru, 2025

[22] Gwastraff Bwyd yn y DU: Briff Ymchwil, Tŷ'r Cyffredin, 2024

[23] WRAP Cymru, 'Gwastraff bwyd a diod o gartrefi yng Nghymru 2021-22', 12fed Mawrth 2024

[24] Navigating the Food Waste Landscape: Food Waste Legislation in Wales, Verigreen, 2023

Nid yw cyfanswm graddfa ailddosbarthu bwyd yn y DU yn hysbys. Mae arolwg blynyddol WRAP[25] yn darparu amcangyfrifon o'r swm a ailddosbarthwyd gan sefydliadau masnachol ac elusennol/cymdeithasol mawr, sef cynrychiolwyr mwyaf y sector. Serch hynny, mae'n eithrio mentrau lleol, llai sy'n derbyn bwyd dros ben yn uniongyrchol gan fusnesau, sy'n debygol o fod yn arwain at danamcangyfrif bach o gyfanswm ymdrechion ailddosbarthu'r DU.

Mae arolwg diweddaraf WRAP yn dangos, yn 2023, fod sefydliadau a gymerodd ran wedi nodi eu bod wedi ailddosbarthu tua 191,000 tunnell o fwyd dros ben – cynnydd o tua 15% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r cyfanswm hwn, dosbarthwyd 73% drwy sianeli elusennol, tra bod 27% wedi'i ailddosbarthu drwy sianeli masnachol[26]. Mae'r arolwg hefyd yn rhoi cipolwg ar ffynonellau bwyd dros ben yn ôl sector, gyda manwerthu yn cyfrannu'r gyfran fwyaf (43%), ac yna gweithgynhyrchu (32%), Cymysg/Arall (17%), Lletygarwch a Gwasanaeth Bwyd (HaFS) (7%) a Fferm (4%). Darperir dadansoddiad o'r ffigurau hyn yn ôl tunelledd yn y tabl isod.

**Tabl 3.1: Tunelli o fwyd dro ben wedi'i ailddosbarthu yn y DU, yn ôl sector bwyd**

| Blwyddyn | Manwerthu | Gweithgynhyrchu | HaFS | Fferm | Cymysg/Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2023 | 82737 | 54097 | 13979 | 7702 | 32952 | 191467 |

Ffynhonnell: Arolwg Ailddosbarthu Blynyddol WRAP 2023

Er nad yw arolwg WRAP yn darparu dadansoddiad penodol fesul cenedl, gellir gwneud amcangyfrif o gyfran Cymru o fwyd dros ben a ailddosbarthwyd gan ddefnyddio ffactorau addasu rhanbarthol sy'n deillio o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar fusnesau'r sector bwyd[27] (gweler Atodiad D am ddadansoddiad manwl). Mae cymhwyso'r ffactorau hyn i ffigurau WRAP ar gyfer 2023 yn arwain at amcangyfrif o 7,779 tunnell o fwyd dros ben wedi'i ailddosbarthu o Gymru y flwyddyn honno (Tabl 3.2). Mewn cymhariaeth, cyfanswm y tunelli bwyd a ailddosbarthwyd gan FSC gan ddefnyddio'r arian

[25] Annual Survey of Redistribution Organisations in the UK - 2023 update
[26] WRAP, 'Annual Survey of Redistribution Organisations in the UK 2023', Hydref 2024
[27] Defra, 'Food waste measurement and reporting for food businesses in England: Impact Assessment', 11eg Mai 2022

grant yn y flwyddyn ariannol 2023 i 2024 oedd 965 tunnell, sy'n golygu eu bod yn cyfrif am oddeutu 12% o'r cyfanswm ailddosbarthu amcangyfrifedig yng Nghymru.

**Tabl 3.2: Amcangyfrifon ar gyfer cyfanswm y tunelli o fwyd dros ben a ailddosbarthwyd yng Nghymru, yn ôl sector bwyd yn 2023**

| Blwyddyn | Manwerthu | Gweithgynhyrchu | HaFS | Fferm | Cymysg Arall | Amcangyfrif Cymru gyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2023 | 3309.48 | 2704.85 | 698.95 | 77.02 | 988.56 | **7779** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o Arolwg Ailddosbarthu Blynyddol WRAP, gan ddefnyddio ffactorau addasu rhanbarthol.

Dylid dehongli'r amcangyfrifon hyn ar gyfer Cymru yn ofalus, gan eu bod yn dibynnu ar ffactorau addasu rhanbarthol yn hytrach na data uniongyrchol sy'n benodol i'r genedl. Nid ydynt yn ystyried yn llawn amrywiadau yn y cyflenwad bwyd, rhwydweithiau ailddosbarthu nac amodau'r farchnad leol, sy'n golygu bod maint gwirioneddol sector ailddosbarthu Cymru yn parhau i fod yn ansicr.

Mae ymchwil WRAP yn awgrymu, er gwaethaf twf mewn ailddosbarthu bwyd, fod potensial sylweddol yn parhau. Yn 2015, nodwyd bod tua 220,000 tunnell o fwyd dros ben o'r sectorau manwerthu a gweithgynhyrchu yn addas i'w ailddosbarthu ond yn lle hynny aeth i fwyd anifeiliaid neu wastraff. Er bod ailddosbarthu wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae WRAP yn amcangyfrif y gellid dargyfeirio 100,000 tunnell arall o'r ddau sector hyn o hyd, gyda chyfleoedd ychwanegol - ond llai sicr - yn y sector lletygarwch a gwasanaeth bwyd.

Ar lefel y fferm, mae ymchwil WRAP yn darparu amcangyfrif dangosol o 3.6 miliwn tunnell o fwyd dro ben a gwastraff, er y byddai llawer o hyn yn anaddas i'w ailddosbarthu heb brosesu sylweddol. Mae amcangyfrif bras yn awgrymu y gallai rhwng 330,000 a 360,000 tunnell o hyn fod yn addas i'w fwyta gan bobl. Gan ystyried pob sector gyda'i gilydd, amcangyfrifir bod cyfanswm y bwyd dros ben y gellid ei ailddosbarthu'n realistig yn y DU rhwng 110,000 a 130,000 tunnell wedi giât y fferm, gan godi i 440,000 i 490,000 tunnell os cynhwysir y bwyd dros

ben o gynhyrchu sylfaenol, er bod rhwystrau ymarferol a masnachol yn golygu efallai na fydd cyfran sylweddol o hyn yn ymarferol.

At ei gilydd, mae cynhyrchu, dosbarthu, storio, defnyddio a gwaredu bwyd gwastraff i gyd yn defnyddio adnoddau ac ynni sylweddol. Yn y flwyddyn ariannol 2021 i 2022, cynhyrchodd gwastraff bwyd a diod yng Nghymru tua 950,000 tunnell o allyriadau Cyfwerth â Charbon Deuocsid ($CO_2e$)[28]. Gall atal gwastraff bwyd drwy weithgareddau ailddosbarthu leihau allyriadau a gwella effeithlonrwydd defnydd. Yn arbennig, mae arbedion carbon o roddion bwyd yn cynnig tua dwywaith y budd hinsawdd o'i gymharu â threuliad anaerobig[29].

Yn economaidd, mae gwastraff bwyd yn achosi costau ariannol sylweddol. Yn 2021, gwelodd y DU gyfanswm o £21.8 biliwn o fwyd bwytadwy yn cael ei wastraffu, ac eithrio gwastraff ar y fferm. Roedd mwy na thri chwarter (78 y cant) o'r gwastraff hwn o gartrefi[30]. Yng Nghymru, cyfanswm y gwastraff hwn oedd £786 miliwn, neu £580 fesul aelwyd gyffredin.

Mae'r heriau hyn yn bodoli o fewn cyd-destun cymdeithasol ac economaidd cymhleth. Ar ddechrau 2024, roedd economi Prydain yn parhau i gael ei heffeithio gan yr argyfwng costau byw parhaus[31]. Parhaodd costau bwyd ac ynni uwch i effeithio'n anghymesur ar aelwydydd incwm isel, sy'n gwario cyfran fwy o'u hincwm ar fwyd ac ynni o'i gymharu â theuluoedd incwm uchel. O ganlyniad, disgwylir i lefelau tlodi ac anghydraddoldeb godi, gan waethygu'r argyfwng iechyd a llesiant parhaus.[32]. Yn y cyd-destun hwn, mae rôl sefydliadau fel FSC wrth fynd i'r afael â gwastraff bwyd a lleddfu tlodi bwyd yn gynyddol hanfodol.

## Anghenion

Mae'r cyd-destun polisi a strategol a amlinellir uchod yn tynnu sylw at yr angen presennol i leihau gwastraff bwyd a mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd yng Nghymru. Er bod polisïau diweddar wedi atgyfnerthu'r blaenoriaethau hyn, dechreuodd Llywodraeth Cymru ariannu FSC yn 2015 yn unol ag ymrwymiadau

[28] Verigreen 'Navigating the Food Waste Landscape: Food Waste Legislation in Wales', 2023
[29] Niina Sundin, Christine Persson Osowski, Ingrid Strid, and Mattias Eriksson, "Surplus food donation: Effectiveness, carbon footprint, and rebound effect," Resources, Conservation and Recycling, vol. 181 (2022): 106271.
[30] Xameerah Malik, Louise Smith, Iona Stewart, Nuala Burnett, 'Food waste in the UK: Research Briefing', 12fed Ebrill 2024
[31] ONS Mynegeion chwyddiant a phrisiau, 2023
[32] Prifysgol Swydd Hertford, 'Waste Britain - An evaluation of the economic and social impact of FareShare's contribution to fighting hunger and tackling food waste', 2023

polisi gwastraff cynharach. Dros amser, mae uchelgais polisi wedi dwysáu, gan adlewyrchu ffocws cynyddol ar yr hinsawdd, a goblygiadau cymdeithasol ac economaidd gwastraff bwyd. Roedd y dystiolaeth yn dangos bod angen sylweddol am ymyriadau polisi i fynd i'r afael â gwastraff bwyd ac ailddosbarthu cynnyrch dros ben, o ganlyniad i fethiant yn y farchnad. Drwy alinio polisi ag amcanion sefydliadol FSC, mae canfyddiadau'n awgrymu bod y grant a ddyfarnwyd i gefnogi FSC, felly, wedi bod yn fecanwaith pwysig ar gyfer mynd i'r afael â methiant y farchnad o ran gwastraff bwyd yng Nghymru drwy ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben i'r rhai mewn angen.

Gyda symiau sylweddol o fwyd yn cael eu taflu'n flynyddol, mae'r allyriadau carbon a'r aneffeithlonrwydd adnoddau cysylltiedig yn tanlinellu'r angen am atebion cynaliadwy. Nodwyd y ffactorau amgylcheddol sy'n sbarduno ymyrraeth hefyd gan randdeiliaid yn Llywodraeth Cymru ac FSC, gan gynnwys yr angen i:

- lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r sector bwyd a diod
- cydlynu rhwng cynhyrchwyr bwyd bwytadwy dros ben a defnyddwyr/defnyddwyr posibl
- sicrhau bod bwyd bwytadwy dros ben yn cael ei ailddosbarthu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â safonau'r diwydiant fel Safonau Diogelwch Bwyd Byd-eang a chanllawiau'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Yn ogystal, mae'r argyfwng costau byw wedi cynyddu ansicrwydd bwyd, gan gynyddu'r galw am fentrau ailddosbarthu sy'n sicrhau bod bwyd bwytadwy dros ben yn cyrraedd y rhai mwyaf agored i niwed. Cydnabuwyd gan randdeiliaid ailddosbarthu bwyd a pholisi fod heriau cymdeithasol ac economaidd sylweddol i sefydlu dull effeithiol o ailddosbarthu bwyd i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Roedd yr heriau hyn yn cynnwys:

- darparu mwy o fynediad at fwyd iach a maethlon i gartrefi incwm isel yng Nghymru
- mynd i'r afael â bylchau yn y capasiti i gefnogi ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben
- cefnogi datblygu sgiliau staff a gwirfoddolwyr FSC h.y. hyfforddiant fforch godi

- cryfhau rhwydweithiau a seilwaith logistaidd i gefnogi ailddosbarthu bwyd, gan sicrhau y gall y system ymateb yn effeithiol i anghenion ac argyfyngau sy'n dod i'r amlwg.

Sefydlwyd dyfarniad grant FSC mewn ymateb i'r anghenion hyn, gan gefnogi ymdrechion seilwaith ac ailddosbarthu, gan gyd-fynd â nodau cynaliadwyedd cenedlaethol a meithrin system fwyd fwy effeithlon a theg.

### Amcanion arian grant

Cynlluniwyd amcanion yr arian grant mewn ymateb i'r anghenion a amlinellwyd uchod. Ers ei sefydlu, mae arian grant Llywodraeth Cymru a ddarparwyd i FSC wedi targedu'r heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y mae'r cymunedau a wasanaethir gan FSC yn eu hwynebu.

Dros y cyfnod ariannu, mae'r amcanion wedi esblygu wrth i arian ychwanegol gael ei gyflwyno gan yr Adran Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd i fynd i'r afael â heriau oedd yn dod i'r amlwg, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â Brexit, COVID-19, a phwysau economaidd-gymdeithasol arall. Sicrhaodd y dull addasol hwn fod adnoddau'n cael eu cyfeirio lle'r oedd eu hangen fwyaf. Amcanion dyfarniad grant FSC yn y flwyddyn ariannol 2023 i 2024 oedd:

- cefnogi FSC i leihau ac ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben yng Nghymru.
- cefnogi FSC i helpu busnesau i ddargyfeirio bwyd bwytadwy dros ben i'w ailddosbarthu.
- cefnogi FSC i gefnogi elusennau, sefydliadau a grwpiau cymunedol yn eu gwaith o ailddyrannu bwyd i'r rhai sydd ei angen.
- galluogi mynediad at fwyd bwytadwy dros ben 'anodd ei gyrraedd' yng nghadwyn gyflenwi Cymru drwy arian SWP Cymru.
- cefnogi FSC i ddatblygu eu model ailddosbarthu a dod yn fwyfwy hunangynhaliol.

## Trosolwg o weithrediadau FSC

Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o weithrediadau FSC, er mwyn rhoi cyd-destun ar gyfer yr adrannau canfyddiadau'r gwerthusiad. Bydd yr adran hon yn amlinellu gweithrediadau FSC, gan gynnwys y ffynonellau, y prosesu a'r logisteg ar gyfer ailddosbarthu bwyd dros ben. Bydd hefyd yn disgrifio'r modelau dosbarthu a ddefnyddir gan aelod sefydliadau. Bydd yn egluro'r arian grant ychwanegol a ddefnyddir gan FSC ac yn archwilio'r ymdrechion cydweithredol o fewn rhwydwaith FSUK i wella ailddosbarthu bwyd ledled Cymru.

Mae FSC yn casglu bwyd bwytadwy dros ben o'r diwydiant bwyd a diod (a fyddai fel arall yn cael ei wastraffu) ac yn ei ailddosbarthu i rwydwaith o 'Aelodau Bwyd Cymunedol' (aelod sefydliadau)[33], sydd naill ai'n dosbarthu'r bwyd yn uniongyrchol i unigolion neu'n paratoi prydau bwyd diogel a fforddiadwy, a chost-effeithiol sy'n bwydo pobl y mae'r aelod sefydliadau yn eu cefnogi. Mae nifer yr aelodau gweithredol yn amrywio dros amser oherwydd newidiadau yn yr aelodaeth, gyda 258 o aelodau wedi'u cefnogi yn ystod y flwyddyn ariannol a adroddwyd yn fwyaf diweddar (2023 i 2024). Fodd bynnag, ers dechrau'r arian grant yn 2015, mae tua 411 o sefydliadau ac elusennau wedi cael eu cefnogi i gyd[34]. Er bod FSC yn cyflwyno ffigurau 'ciplun' chwarterol i Lywodraeth Cymru, mae'r cyfanswm cronnus uwch hwn yn seiliedig ar ddata mewnol nad yw wedi'i gynnwys mewn adroddiadau ffurfiol ar hyn o bryd.

Mae FSC yn rhan o rwydwaith ehangach o 21 o ganolfannau dosbarthu rhanbarthol a redir o dan faner FSUK. Mae gan FSC berthynas gydfuddiannol â chanolfannau rhanbarthol ehangach yn y DU sy'n eu galluogi i rannu bwyd dros ben rhwng canolfannau, er mwyn sicrhau dull cytbwys o ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben ar draws rhwydwaith aelodau'r DU (gan gynnwys aelodau yng Nghymru).

### Trosolwg o'r model cyflwyno

Isod mae cynrychiolaeth weledol lefel uchel o'r model cyflawni a ariennir ar gyfer ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben (wedi'i hwyluso drwy FSC). Mae'n

[33] Aelodau yw sefydliadau sydd wedi cofrestru gyda FSC i dderbyn bwyd bwytadwy dros ben. Mae'r aelodau'n cynnwys amrywiaeth o elusennau a sefydliadau cymunedol ledled Cymru ac yn amrywio'n sylweddol o ran math o sefydliad.
[34] Adroddiadau cynnydd chwarterol i Lywodraeth Cymru

dangos sut mae'r bwyd yn cael ei gaffael, a sut mae'n cyrraedd aelodau a'u buddiolwyr.

**Ffigur 4.1: Model gweithredol FSC**




Ffynhonnell: FareShare Cymru

## Caffael rhoddion

Mae bwyd bwytadwy dros ben sy'n cael ei ailddosbarthu drwy FSC yn cael ei gaffael yn bennaf drwy ddwy sianel; yn gyntaf, caffael bwyd dros ben o fusnesau ar draws y gadwyn gyflenwi bwyd yng Nghymru, ac yn ail drwy dynnu ar fwyd bwytadwy dros ben a geir drwy rwydwaith ehangach FSUK, yn bennaf yn Lloegr.

## Prosesu a logisteg

Unwaith y bydd bwyd bwytadwy dros ben wedi'i gasglu, mae FSC yn ei brosesu yn eu warysau gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr, sy'n didoli, cofnodi a pharatoi dosbarthiadau bwyd ar gyfer aelod sefydliadau. Er mwyn dosbarthu bwyd bwytadwy dros ben yn effeithlon ledled Cymru, mae FSC yn gweithredu rhwydwaith o Bwyntiau Casglu Lleol (LCPs), a gynhelir gan aelodau a all dderbyn dosbarthiadau ar ran eraill yn eu hardal. Mae'r model hwn yn creu arbedion o ran amser a thanwydd, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae aelodau wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol. Mae dull FSC o ymdrin â logisteg yn amrywio yn rhanbarthol:

- yn ne a gorllewin Cymru, defnyddir model LCP haenog, gan gynnwys 'Uwch LCP' yng ngorllewin Cymru sy'n cael ei weithredu mewn partneriaeth â sefydliadau lleol ac a gefnogir gan systemau cyfnewid faniau i ymestyn cyrhaeddiad.
- yng ngogledd Cymru, mae FSC yn gweithio mewn cydweithrediad â FareShare Glannau Mersi i wasanaethu rhwydwaith llai ond sy'n ehangu o aelodau trwy lwybrau dosbarthu a rennir.
- Mae'r model logisteg hyblyg hwn, sy'n seiliedig ar bartneriaeth, yn galluogi FSC i addasu i anghenion rhanbarthol wrth wneud y mwyaf o effeithlonrwydd dosbarthu.

### Modelau dosbarthu aelodau

Caiff bwyd ei ddosbarthu i aelodau ledled Cymru. Mae dosbarthiadau i aelodau yn tueddu i fod yn wythnosol (er bod nifer fach o aelodau'n derbyn dosbarthiadau'n amlach) ac yn amrywio o ran pwysau ac amrywiaeth y bwyd yn dibynnu ar anghenion yr aelodau (er bod pob aelod yn derbyn isafswm pwysau fel rhan o'u haelodaeth) a'r bwyd bwytadwy dros ben sydd ar gael. Mae rhai aelodau'n ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben yn uniongyrchol i'w buddiolwyr yn ei ffurf wreiddiol, heb brosesu na pharatoi ychwanegol (e.e.: creu prydau bwyd). Enghraifft o hyn yw'r model archfarchnad gymdeithasol – a elwir weithiau'n 'bantrïau' – lle mae buddiolwyr yn cael mynediad at fwyd am gost is trwy aelodaeth o glwb sy'n cynnwys rhodd wythnosol fach. Yn wahanol i fanciau bwyd, mae'r modelau hyn yn gweithredu ar sail aelodaeth neu gost isel ac yn galluogi defnyddwyr i ddewis eu heitemau bwyd yn hytrach na derbyn parseli wedi'u dewis ymlaen llaw.

Mae aelodau eraill yn cynnal prosiectau coginio, naill ai ochr yn ochr â model archfarchnad gymdeithasol, neu fel cynnig annibynnol. Mae llawer hefyd yn darparu gwasanaethau cymorth cofleidiol ychwanegol, fel cyngor ariannol, hyfforddiant sgiliau ac ymgysylltu cymunedol, i helpu defnyddwyr gwasanaeth i symud tuag at sefydlogrwydd ariannol hirdymor.

## 4. Allbynnau gweithrediadau a ariennir gan y dyfarniad grant (ers 2015)

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r allbynnau a adroddwyd o'r dyfarniad grant ers 2015. Mae'n cynnwys yr ystod o weithgareddau y deellir eu bod wedi cael eu cefnogi gan y grant, cynnydd yn erbyn targedau allbwn a adroddwyd, a'r heriau allweddol sy'n gysylltiedig â'r model ailddosbarthu a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod hwn. Bwriedir i'r targedau allbwn adlewyrchu sut mae'r arian grant wedi cyfrannu at amcanion ailddosbarthu allweddol, gan gynnwys cryfhau asedau cymunedol, meithrin capasiti, a chefnogaeth fwy cyfartal i seilwaith lleol. Gan mai FSC yw unig dderbynnydd y grant hwn, mae'r gwerthusiad yn archwilio ble mae'r gweithgarwch a wneir gan FSC yn cyflawni amcanion y grant.

Mae'r bennod hon yn diwallu **Nod Ymchwil 1**: archwilio pa weithgareddau y mae'r arian grant wedi'u galluogi a sut mae wedi cefnogi ymgysylltiad â busnesau ac aelodau.

**Priodoliad**

Nodir, er bod y gwerthusiad yn anelu at bennu'r gweithgareddau a'r effeithiau sydd wedi'u galluogi'n benodol gan yr arian grant, fod heriau wrth ystyried yr effaith hon ar wahân i weithgarwch ehangach FSC nad yw'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan y grant ond sy'n cael ei alluogi trwy'r dyfarniad grant. Mae hyn oherwydd bod dyfarniad grant Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at gostau gweithredol cyffredinol FSC yn hytrach nag ariannu pecynnau gweithgarwch ar wahân. Mae gweithgarwch arall (heb ei ariannu gan grant) FSC hefyd yn cefnogi ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben, ond gellir ei ariannu'n llwyr neu ei gyd-ariannu gan ffynonellau incwm amgen a amlinellir yn fanylach yn yr adran o'r enw "asesu cynaliadwyedd ariannol FSC dros amser". Nododd un rhanddeiliad o FSC fod hyd yn oed gweithgareddau nad ydynt yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan y grant wedi elwa'n anuniongyrchol o'r dyfarniad grant. Ym marn y rhanddeiliad hwn, mae'r grant wedi galluogi FSC i fanteisio ar arian a chyfleoedd ychwanegol, gan wneud y gweithgareddau hyn yn bosibl (gweler paragraffau diweddarach yr adran hon am fwy o fanylion).

## Targedau a chanlyniadau'r dyfarniad grant

Fel rhan o amodau dyfarnu’r grant, mae’n ofynnol i’r derbynnydd (FSC) adrodd yn chwarterol i Lywodraeth Cymru ar ei berfformiad yn erbyn cyfres o dargedau allweddol sy’n mesur effaith ac effeithiolrwydd yr arian, gan gynnwys mewn perthynas ag: ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben; graddau'r gefnogaeth a ddarperir trwy ddarparu bwyd; a faint o hunangynhaliaeth a gyflawnir gan dderbynwyr. Mae'r targedau hyn wedi'u hamlinellu isod:

- tunelledd o fwyd a diod wedi'i ddargyfeirio o wastraff i ailddosbarthu
- nifer cyfredol yr aelod sefydliadau a gefnogir (pob blwyddyn ariannol)
- nifer y prydau bwyd y mae'r derbynnydd (FSC) yn cyfrannu tuag atynt
- gwerth ariannol bwyd i aelod sefydliadau
- % hunangynhaliaeth rhagamcanedig / amcangyfrifedig gweithrediadau'r derbynnydd (a gyflwynwyd ym mlwyddyn adrodd 2019 i 2020)

Ochr yn ochr â'r targedau ariannu craidd hyn, mae FSC hefyd yn adrodd ar allbynnau a chanlyniadau ychwanegol, sydd, er nad ydynt yn amodau ffurfiol y grant, yn rhoi cipolwg ar fanteision cymdeithasol ac economaidd ehangach yr arian. Mae'r allbynnau ychwanegol hyn y mae FSC yn adrodd yn eu herbyn wedi'u nodi isod:

- nifer y gwirfoddolwyr / gweithwyr sy'n ennill cymwysterau ffurfiol
- nifer y gwirfoddolwyr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth â thâl
- rhestr o sefydliadau partner sy'n ymwneud â gwaith cydweithredol
- dosbarthiad daearyddol aelodau (trwy fapio data)
- gwerth manwerthu amcangyfrifedig bwyd wedi'i ailddosbarthu (wedi'i gofnodi ers blwyddyn ariannol 2019 i 2020)
- amcangyfrif o arbedion $CO_2$ o ailddosbarthu (a gofnodwyd ers blwyddyn ariannol 2021 i 2022)

Darperir dadansoddiad manwl o berfformiad FSC yn erbyn targedau grant ers 2015 yn Atodiad C. Mae cynnydd wedi'i gategoreiddio i 3 chyfnod ariannu allweddol:

- 2015 i 2016, tan 2017 i 2018
- 2018 i 2019, tan 2020 i 2021
- 2021 i 2022, tan 2023 i 2024

Caiff pob cyfnod ei asesu o ran cyfanswm y cyflawniadau yn erbyn targedau a chanran y targedau a gyflawnwyd. Isod mae crynodeb lefel uchel o gyfanswm yr allbynnau a gyflawnwyd ers 2015, a chrynodeb o'r cynnydd a gyflawnwyd yn ystod pob cylch ariannu.

Mae dadansoddiad o'r data a adroddwyd drwy'r dyfarniad grant (2015 ymlaen) i Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at raddfa'r allbynnau a gyflawnwyd drwy'r arian. Yn ôl ffigurau a adroddwyd gan FSC, rhwng 2015 a 2023 i 2024, mae 5,652 tunnell o fwyd a diod wedi cael eu dargyfeirio o gael eu gwaredu (gan gynnwys ailddosbarthu a gefnogir trwy gronfa SWP Cymru ~ 169.8 tunnell o fwy dros ben). Dros y cyfnod hwn, mae FSC wedi cyfrannu at oddeutu 17.6 miliwn o brydau bwyd, gydag arbediad ariannol amcangyfrifedig i aelodau o £18.6 miliwn. Mae nifer yr aelod sefydliadau gweithredol a gefnogir gan FSC yn amrywio dros amser oherwydd newidiadau yn yr aelodaeth, gyda 258 o aelodau wedi'u cefnogi yn y flwyddyn ariannol a adroddwyd yn fwyaf diweddar (2023 i 2024). Fodd bynnag, ers dechrau'r cyfnod arian grant yn 2015, mae tua 411 o sefydliadau ac elusennau wedi cael eu cefnogi i gyd. Er bod FSC yn cyflwyno ffigurau 'ciplun' chwarterol i Lywodraeth Cymru, mae'r cyfanswm cronnus uwch hwn yn seiliedig ar ddata mewnol nad yw wedi'i gynnwys mewn adroddiadau ffurfiol ar hyn o bryd.

Mae'r anghysondeb hwn yn tynnu sylw at gyfle i wella monitro ac adrodd yn y dyfodol er mwyn rhoi darlun cliriach o nifer gweithredol yr aelodau ar unrhyw adeg benodol, a'r cyfanswm cronnus a gefnogir dros gyfnod y grant.

**Ffigur 4.2: Cyfanswm yr allbynnau a adroddwyd drwy'r arian grant ers 2015**




Ffynhonnell: Miller Research, a grëwyd gan ddefnyddio data monitro ar gyfer y dyfarniad grant

Rhwng 2015 a 2016 a 2017 i 2018, cyrhaeddodd neu ragorodd FSC ar bob un o'i dargedau perfformiad ac eithrio blwyddyn ariannol 2016 i 2017, pan gyflawnodd 92% (55 allan o 60) o'r targed ar gyfer 'nifer yr aelodau a gefnogir'. Rhwng 2018 i 2019 a 2020 i 2021, roedd perfformiad yn amrywio. Yn 2018 i 2019, methodd FSC â chyrraedd yr holl dargedau craidd o drwch blewyn (ac eithrio'r tunelli o fwyd a diod a ddargyfeiriwyd o wastraff i ailddosbarthu), yn bennaf oherwydd heriau wrth recriwtio aelodau ychwanegol. Dangosodd adroddiadau monitro fod hyn wedi'i ddylanwadu gan aelodau tymhorol a oedd yn gweithredu yn ystod gwyliau ysgol yn unig a cholli rhai aelodau oherwydd problemau ariannu.

Erbyn 2019 i 2020, roedd FSC wedi rhagori ar ei darged ar gyfer 'nifer yr aelodau a gefnogir (132 allan o 80)', wedi'i yrru gan alw cynyddol yn ystod pandemig COVID-19. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynwyd targed hunangynhaliaeth newydd hefyd, y rhagorodd FSC arno o 10%. Arweiniodd cyfeintiau is o fwyd ar gael i'w ailddosbarthu, fel yr adroddwyd gan FSC yn eu hadroddiadau monitro chwarterol, at ddiffygion mewn sawl maes targed. Roedd y rhain yn cynnwys 'tunnelledd o fwyd a diod a ddargyfeiriwyd o wastraff', a

fethodd y targed o bedwar pwynt canran, gan gyflawni 574.46 allan o 600. Roedd 'nifer y prydau bwyd y cyfrannwyd tuag atynt' 6 phwynt canran yn is, gan gyrraedd 1,348,737 allan o 1,428,600. Yn ogystal, roedd 'gwerth £ bwyd a gyflenwyd i aelodau' 6 phwynt canran yn is, yn gyfanswm o £1,416,145 allan o £1,500,000. Esboniwyd bod y diffyg hwn i raddau helaeth oherwydd ffactorau allanol yn ystod y cyfnod hwn a effeithiodd ar y cyflenwad o fwyd bwytadwy dros ben.[35]

Rhwng 2021 i 2022 a 2023 i 2024, parhaodd FSC i wneud cynnydd cryf, gan gyrraedd ei dargedau hunangynhaliaeth yn gyson, ac eithrio 2023 i 2024. Ni chyflawnwyd targedau eraill yn ystod y cyfnod hwn o ychydig bach yn unig, yn bennaf oherwydd rhwystrau a heriau gweithredol, a archwilir mewn adrannau diweddarach. Mae'r gwerthusiad hefyd wedi nodi cyfleoedd pellach i wella sicrwydd ansawdd adrodd ar allbynnau'r dyfarniadau grant.

### Gweithgareddau a hwylusir gan grant FSC

Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg lefel uchel o weithgareddau FSC nad ydynt wedi'u cynnwys yn y targedau grant ond sydd wedi'u hwyluso trwy'r arian dyfarniadau grant ers 2015. Nodwyd y gweithgareddau a hwyluswyd gan Grant FSC drwy adolygiad dogfennaeth o adroddiadau cynnydd a gyflwynwyd fel rhan o'r grant, ochr yn ochr â chyfweliadau â rhanddeiliaid FSC.

Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid FSC a gyfwelwyd o'r farn bod y grant wedi galluogi ailddosbarthu mwy o fwyd bwytadwy dros ben i ystod ehangach o aelodau; cefnogir y farn hon gan ddata monitro allbwn FSC, sy'n dangos cynnydd yng nghyfanswm y tunelli o fwyd a ailddosbarthwyd a nifer yr aelodau a oedd yn ymgysylltu dros gyfnod y grant rhwng 2015 a 2023. Pwysleisiodd y staff fod y grant wedi bod yn hanfodol i ddatblygiad FSC, trwy ei alluogi i ehangu ei weithrediadau yn effeithlon drwy sicrhau bod y seilwaith, y bobl a'r setiau sgiliau cywir ar waith. Awgrymodd staff FSC hefyd, heb y gefnogaeth hon: “Ni fyddai FareShare Cymru yn bodoli yn ei ffurf bresennol”, ac ni fyddai llawer o'r mentrau

[35] Amrywiol oedd argaeledd bwyd bwytadwy dros ben yn ystod pandemig Covid-19, gyda rhywfaint o'r bwyd yn cael ei ailddosbarthu yn ystod pandemig Covid-19 o roddion yn hytrach na bwyd dros ben. Yn dilyn pandemig Covid-19, cafodd y gadwyn gyflenwi bwyd ei tharfu ymhellach gan bwysau chwyddiant, problemau cludo nwyddau a'r rhyfel yn Wcráin.

sydd wedi cryfhau ei rwydwaith a gwella cefnogaeth i aelodau wedi bod yn bosibl.

### Caffael bwyd bwytadwy dros ben ychwanegol

Ers derbyn y grant am y tro cyntaf yn 2015, mae'r tunelledd o fwyd bwytadwy dros ben a ailddosbarthwyd gan FSC wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn (gweler yr adran cynnydd yn erbyn targedau allbwn yn ddiweddarach yn y bennod hon am fwy o fanylion). Er na wnaeth FSC gasglu data'n uniongyrchol ar nifer y busnesau a oedd yn ymwneud â'r gwaith yn ystod y cyfnod hwn, roedd staff FSC wedi disgwyl y byddai nifer y busnesau a oedd yn rhoi bwyd bwytadwy dros ben wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn o ganlyniad i arian grant Llywodraeth Cymru. Drwy'r grant, llwyddodd FSC i recriwtio aelodau staff allweddol gan gynnwys 'Cydlynydd / Arweinydd Caffael Bwyd', sydd â'r dasg o nodi a meithrin perthnasoedd â chyflenwyr newydd yn ogystal â chynnal perthnasoedd â'r rhwydwaith presennol o gyflenwyr, er mwyn cynyddu rhoddion o fwyd bwytadwy dros ben i'r eithaf.

### Ehangu cyrhaeddiad CFM

Un o'r gweithgareddau allweddol a alluogwyd gan y dyfarniad grant fu ehangu rhwydwaith yr aelodau. Fel yr amlinellir yn yr adran isod ar gynnydd yn erbyn allbynnau targed, mae nifer yr aelodau y mae FSC wedi'u recriwtio wedi cynyddu bob blwyddyn o'u gweithrediadau ers 2015, gyda chynnydd nodedig yn nifer yr aelodau a ymunodd yn ystod pandemig COVID-19 pan ddyblodd nifer yr aelodau o 67 (yn y flwyddyn ariannol 2018 i 2019) i 125 (yn y flwyddyn ariannol 2019 i 2020) a phan gyflwynwyd rhestr aros ar gyfer darpar aeloddau yn ne Cymru i reoli'r galw.

Hwyluswyd y broses o gyflwyno aelodau ychwanegol gan yr arian grant, a alluogodd FSC i recriwtio staff allweddol i gefnogi datblygiad rhwydwaith yr aelodau gan gynnwys Cydlynydd Aelodau Bwyd Cymunedol a recriwtiodd 11 aelod ychwanegol yn y flwyddyn ariannol 2023 i 2024. Ystyriwyd bod digon o staff yn FSC yn ffactor allweddol wrth gefnogi ehangu rhwydwaith yr aelodau, yn ogystal â chynnal rheoli cyfrifon parhaus ar gyfer aelodau a rhoi cefnogaeth i aelodau i sicrhau diogelwch bwyd a defnydd priodol o'r bwyd dro ben a roddwyd. Yn ôl un rhanddeiliad FSC, mae angen digon o staff i ymgymryd â holl

weithgareddau FSC gan gynnwys y prosesau sy'n gysylltiedig â chofrestru aelodau newydd yn y lle cyntaf, ac archwiliadau blynyddol o aelodau presennol. Dros gyfnod cyfan y grant, amcangyfrifir bod 411 o sefydliadau ac elusennau wedi cael eu cefnogi gan FSC.

### Ehangu rhanbarthol – cefnogi twf wedi'i dargedu yng ngogledd a gorllewin Cymru

Mae arian grant wedi galluogi ehangu aelodaeth FSC. Mae'r rhwydweithiau wedi'u hehangu yng ngogledd a gorllewin Cymru, gan ddefnyddio gwahanol fodelau. Cyn derbyn y grant, roedd gweithrediadau FSC yn canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi nifer lai o aelodau wedi'u clystyru yn ne-ddwyrain Cymru. Ers dechrau'r arian grant, mae rhwydweithiau yn ne Cymru hefyd wedi ehangu.

Yng ngogledd Cymru, cyfrannodd y grant at ystod o gefnogaeth weithredol a logistaidd i hwyluso ehangu'r rhwydwaith. Mae hyn wedi digwydd yn bennaf yn dilyn pandemig COVID-19. Mae twf y rhwydwaith wedi golygu defnyddio LCPs[36], yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â FareShare Glannau Mersi i ddarparu dosbarthiadau i rwydwaith bach ond cynyddol o sefydliadau. Un agwedd benodol ar yr ehangu oedd prynu fan oergell y mae FSC wedi'i is-gontractio i'w defnyddio gan FareShare Glannau Mersi trwy drefniant partneriaeth. Mae'r trefniant hwn wedi cynyddu gallu dosbarthu FareShare Glannau Mersi i ddosbarthu i fwy o aelodau yng ngogledd Cymru ac wedi galluogi FSC i sefydlu mwy o bwyntiau casglu lleol[37] , drwy ariannu'r fan oergell a staff gweithredol allweddol. Mae Gogledd Cymru hefyd yn cael ei gefnogi ymhellach gan 67 o wirfoddolwyr gweithredol FareShare Glannau Mersi sy'n treulio tua 30% o'u hamser gwirfoddoli i gefnogi dosbarthu bwyd bwytadwy dros ben i aelodau yn y rhanbarth. Drwy hyn, mae FSC wedi gallu cyrraedd 55 o aelodau newydd yng ngogledd Cymru mewn partneriaeth â FareShare Glannau Mersi, er bod bylchau'n parhau yn Wrecsam ac ardaloedd mewndirol yng ngogledd Cymru lle mae FSC yn edrych i ehangu eu gweithrediadau ymhellach.

Yng ngorllewin Cymru, mae'r arian grant wedi galluogi datblygu llwybrau dosbarthu ychwanegol a sefydlu LCPs ychwanegol (yn Llanelli a Chaerfyrddin)

---

[36] Fel yr amlinellwyd yn fanylach yn yr adran modelau dosbarthu aelodau.

[37] O flwyddyn ariannol 2022 i 2023 ymlaen, sefydlodd FSC dair man casglu lleol yng ngogledd Cymru gan gynnwys un ym Mhrestatyn a dau ym Mangor.

ac Uwch LCP (yng Nghaerfyrddin), sy'n gwasanaethu'r rhwydwaith cymedrol ond newydd o 12 aelod ychwanegol, yn ôl adroddiad monitro Chwarter 4 2023 i 2024. Nododd un rhanddeiliad o FSC, yn amodol ar ehangu'r aelodaeth ymhellach yng ngorllewin Cymru, y byddai potensial i sefydlu canolfan ddosbarthu ranbarthol fwy parhaol yng ngorllewin Cymru yn y dyfodol.

### Gwelliannau seilwaith a storio

Ariannodd y grant hefyd fuddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau storio oer, gan gynnwys oergelloedd a rhewgelloedd newydd i alluogi storio cynnyrch ffres a rhewedig yn briodol, ac oes silff hirach ar gyfer nwyddau ffres y gellir eu rhewi. Ar ben hynny, cyfrannodd y grant at gost datblygu cyfleusterau ail-labelu, a fydd yn galluogi FSC i ailbecynnu bwyd dros ben sydd wedi'i labelu'n anghywir ac yn ei dro ailddosbarthu ystod a maint ehangach o fwyd bwytadwy dros ben, a fyddai fel arall wedi'i daflu oherwydd labelu anghywir. Yn ogystal, mae'r grant wedi ariannu prynu cerbyd fforch godi, sy'n galluogi FSC i gymryd ac ailddosbarthu cyflenwadau swmp o fwyd bwytadwy dros ben yn fwy effeithlon ac mewn ffordd sy'n cydymffurfio â rheoliadau gweithrediadau trin â llaw.

### Datblygu gwirfoddolwyr

Elfen allweddol o fodel gweithredol FSC y mae'r dyfarniad grant wedi helpu i'w gefnogi oedd recriwtio, cadw a datblygu gwirfoddolwyr. Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi amrywiaeth o weithgareddau o fewn model FSC, gan gynnwys casglu, didoli, trefnu a dosbarthu bwyd bwytadwy dros ben.[38] Drwy'r grant, mae FSC wedi cefnogi 138 o wirfoddolwyr i ymgymryd â hyfforddiant neu ennill cymhwyster ffurfiol, yn ogystal â chefnogi 59 o wirfoddolwyr i symud ymlaen i gyflogaeth.[39]

Mae cadw gwirfoddolwyr yn elfen allweddol o sicrhau bod modd cyflawni gweithrediadau FSC yn effeithiol. Er nad yw data ar nifer y gwirfoddolwyr sydd eu hangen i gynnal gweithrediadau FSC yn cael ei gasglu'n rheolaidd, adroddodd FSC fod gwirfoddolwyr wedi cyfrannu tua 85,239 o oriau gwirfoddol ers 2015.[40]. Cafodd y gefnogaeth y mae FSC wedi'i darparu i'w wirfoddolwyr ei

[38] Am fwy o fanylion gweler yr adran Gwirfoddolwyr ym Mhennod 6.

[39] Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar adroddiadau chwarterol a blynyddol ac nid yw'n cynnwys gwirfoddoli corfforaethol na'r gwirfoddolwyr a ddefnyddir yng ngogledd Cymru trwy FS Glannau Mersi.

[40] Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar adroddiadau chwarterol a blynyddol ac nid yw'n cynnwys gwirfoddoli corfforaethol, na'r gwirfoddolwyr a ddefnyddir yng ngogledd Cymru trwy FS Glannau Mersi.

chydnabod yn ffurfiol hefyd drwy'r Achrediad Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr a gafwyd gan FSC yn y flwyddyn ariannol 2023 i 2024.

### Arian, prosiectau a chynlluniau peilot ehangach

Rhannodd rhanddeiliaid FSC fod y grant hefyd wedi helpu i ddenu ffynonellau ariannu ychwanegol y tu allan i grant Llywodraeth Cymru ers 2015 o ffynonellau gan gynnwys Sefydliad Moondance, Sefydliad Waterloo, Treth Gwarediadau Tirlenwi[41], FareShare UK, Asda, a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Mynegodd rhanddeiliaid o FSC y farn bod yr arian grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi rhoi hygrededd i FSC yng ngolwg darpar arianwyr wrth wneud cais am gyfleoedd ariannu ehangach.  Nododd rhanddeiliaid o FSC fod y grant wedi hwyluso mentrau ailddosbarthu bwyd ehangach yng Nghymru yn anuniongyrchol drwy sicrhau sefydlogrwydd a chynaliadwyedd gweithrediadau FSC.  Heb arian gan Lywodraeth Cymru, nododd FSC na fyddent wedi gallu lansio Prosiect Ailddosbarthu Ceginau Cymru, a ariennir drwy'r Fenter Ymchwil Busnesau Bach a phartneriaid Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Er nad oedd wedi'i ariannu'n uniongyrchol drwy'r dyfarniad grant, roedd rhanddeiliaid o'r farn bod y grant wedi dylanwadu'n anuniongyrchol ar gyflwyniad strategol FareShare GO yng Nghymru. Mae hyn yn awgrymu y gall y seilwaith a ariennir drwy'r dyfarniad grant hwyluso mentrau ehangach i gefnogi ailddosbarthu bwyd. Rhannwyd gan randdeiliad yn FSC fod presenoldeb FSC wedi ei alluogi i ddylanwadu ar y strategaeth weithredu, gan flaenoriaethu ardaloedd yng ngogledd a gorllewin Cymru gyda'r ddarpariaeth leiaf o ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben, yn lle dechrau yng Nghaerdydd fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Sicrhaodd hyn fod rhanbarthau â'r angen mwyaf yn cael eu gwasanaethu yn gyntaf a helpodd i gyfrannu at ailddosbarthu 2,052.91 tunnell ychwanegol o fwyd a diod o wastraff rhwng 2017 a 2023. Yn ogystal, gwnaeth yr arian alluogi’n uniongyrchol cyflwyno cronfa SWP Cymru i ddechrau, a amlinellir yn fanylach isod.

### Cronfa Bwyd dros Ben ag Amcan (SWP) Cymru

Cafodd cronfa SWP Cymru ei threialu gyntaf drwy arian grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2021 a'i nod oedd datgloi 'bwyd dros ben anodd

[41] Sydd hefyd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

ei gyrraedd' drwy fynd i'r afael â rhwystrau a thalu'r costau[42] yr oedd cyflenwyr yn eu hwynebu wrth gyflenwi bwyd bwytadwy dros ben, er mwyn gwneud ailddosbarthu'n fwy niwtral o ran cost. Fe'i lansiwyd ym mis Hydref 2021 yn dilyn oedi oherwydd hysbysiadau ariannu a throsiant staff, ac arweiniodd y gronfa at 3 busnes yn cael mynediad at gymorth ar gyfer rhoddion, gyda pherthnasoedd yn cael eu cynnal drwy gydol y broses. Cyfrannodd dau fusnes ychwanegol roddion heb ddefnyddio'r gronfa ond ymgysylltwyd â hwy yn ystod yr allgymorth. Llwyddodd un o'r 3 busnes a ariannwyd i ailddosbarthu 2.4% o'u bwyd dros ben yng Nghymru, gyda'r gweddill yn cael ei ailddosbarthu'n bennaf drwy rwydwaith FSUK.

Nodwyd yn adroddiad monitro SWP Cymru[43] bod y lansiad ym mis Hydref 2021 yn y cyfnod cyn y Nadolig yn debygol o fod wedi ei gwneud hi'n anodd i fusnesau ymgysylltu, oherwydd cyfyngiadau amser a'r baich gweinyddol yn ystod un o gyfnodau prysuraf y flwyddyn i'r diwydiant bwyd. Serch hynny, fe wnaeth cronfa SWP Cymru alluogi mynediad at ffynonellau newydd o fwyd dros ben, a datblygu perthnasoedd â 2 gyflenwr newydd. Nododd adroddiad SWP[44] hefyd, ers cynnal trafodaethau gyda rhoddwyr posibl am y gronfa, fod deialog wedi'i chynnal gyda phob un o'r 5 busnes sydd wedi cymryd rhan, gyda FSC yn parhau i fod yn 'gyrchfan o ddewis' iddynt pan fydd ganddynt fwyd bwytadwy dros ben y maent am ei roi.

Fodd bynnag, nodwyd bod rhywfaint o'r bwyd dros ben o un busnes wedi'i gynhyrchu mewn meintiau mawr gydag oes silff fer, a oedd yn ei gwneud hi'n heriol gallu derbyn, prosesu ac ailddosbarthu'n effeithiol i aelodau. Mae hyn yn cael ei ddangos gan y ffaith mai dim ond 2.4% (794kg allan o 33,000 kg) o'r cynnyrch dros ben a achubwyd trwy gronfa SWP Cymru, a gafodd ei ailddosbarthu'n llwyddiannus yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod gweddill y bwyd bwytadwy dros ben hwn (97.6% neu 32,206 kg) wedi'i ailddosbarthu'n ehangach ar draws rhwydwaith FSUK. [45].

Yn dilyn y cynllun peilot cychwynnol, roedd bwlch yn arian Llywodraeth Cymru ar gyfer SWP Cymru (yn ystod chwarter cyntaf 2022 i 2023), a gafodd ei gynnwys

[42] Gan gynnwys costau cynaeafu a llafur ar gyfer prosesu/pecynnau, trin yn ddiogel a chludiant.
[43] FSC, 'Adroddiad Monitro Bwyd dros Ben ag Amcan 2021 – 2022', 2022
[44] FSC, 'Adroddiad Monitro Bwyd dros Ben ag Amcan 2021 – 2022', 2022
[45] Am fwy o fanylion am faint o fwyd dros ben a achubwyd drwy'r gronfa gweler yr adran isod ar gynnydd yn erbyn allbynnau a thargedau ariannu.

yn fwriadol i ganiatáu amser i Lywodraeth Cymru adolygu cam peilot arian SWP, cyn ei gynnwys yn y dyfarniad grant a roddwyd dros gyfnod hirach. Yna parhaodd arian Llywodraeth Cymru ar gyfer SWP Cymru o chwarter dau yn 2022 i 2023 hyd at ddiwedd y cyfnod grant ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023 i 2024. Cyfanswm yr arian a ddyfarnwyd yn ystod y cyfnod hwn ar gyfer cronfa SWP Cymru oedd £132,500. Roedd yr arian hwn yn talu cost dyfarnu grantiau SWP Cymru i fusnesau yn ogystal â chost marchnata'r gronfa i roddwyr posibl o fwyd bwytadwy dros ben a allai gael eu hystyried yn "anoddach eu cyrraedd".
Er na osodwyd unrhyw dargedau ffurfiol ar gyfer gweithgarwch SWP Cymru, mae FSC yn adrodd ar gynnydd ar y tunelledd a ddargyfeiriwyd, y rhwystrau a wynebwyd, a'r busnesau a gefnogwyd drwy'r arian. Ers ei lansio yn 2021 i 2022, mae cronfa SWP Cymru wedi helpu i ddargyfeirio 169.8 tunnell ychwanegol o fwyd a diod i'w hailddosbarthu, yn ogystal â ffigurau dargyfeirio craidd FSC. Mae nifer o gynhyrchwyr ar raddfa fawr sy'n gweithredu yng Nghymru wedi rhoi bwyd bwytadwy dros ben fel rhan o gronfa SWP Cymru; fel yr oedd yn wir yn yr un modd gyda'r cynllun peilot, dosbarthwyd 97% o'r bwyd bwytadwy dros ben a gasglwyd drwy rwydwaith y DU, tra arhosodd 3% yng Nghymru. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd hyn hefyd oherwydd y meintiau mawr o nwyddau darfodus a dderbyniwyd gydag oes silff fer. Felly, defnyddiodd FSC y berthynas gydfuddiannol a sefydlwyd gyda rhwydwaith ehangach FSUK i ailddosbarthu'r bwyd dros ben i'r lleoedd gorau i'w dderbyn a'i brosesu, er mwyn osgoi'r bwyd hwn rhag mynd yn wastraff.

### Heriau cyflawni a ffactorau allanol

Mae'r adran hon yn manylu ar yr heriau cyflawni lefel uchel a'r ffactorau allanol sydd wedi effeithio ar weithrediadau FSC dros gyfnod yr arian grant. Mae deall yr heriau hyn yn hanfodol nid yn unig ar gyfer llywio sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi sefydliadau sy'n derbyn arian grant yn effeithiol, ond hefyd ar gyfer nodi ble y gallai fod angen cefnogaeth barhaus ar draws y sector ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben ehangach. Er enghraifft, os mai dim ond mewn swmp y mae bwyd bwytadwy dros ben ar gael yn aml, gall hyn gynyddu'r risg o wastraff pellach os nad oes gan sefydliadau sy'n ei dderbyn y capasiti i'w ailddosbarthu'n effeithlon. Gall rhai o'r rhwystrau hyn fod yn arbennig o ddifrifol i

sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gydag unigolion neu gymunedau ac felly mae angen ffurfiau mwy pwrpasol o ailddosbarthu bwyd drodd ben arnynt.

### Cyflenwadau bwyd

Un o'r materion allweddol a amlygwyd gan randdeiliaid FSC ac a nodwyd mewn adroddiadau monitro mwy diweddar yw argaeledd cyflenwadau bwyd bwytadwy dros ben. Mae wedi bod yn heriol sicrhau digon, a'r math cywir o fwyd i gefnogi anghenion yr aelodau. Mae rhan o'r her hon oherwydd y cynnydd cyflym yn nifer yr aelodau a dderbyniwyd yn ystod pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw dilynol, gan arwain at lefel uwch o angen am gymorth bwyd. Mae adroddiadau monitro, a thrafodaethau gyda FSC yn tynnu sylw at ffactorau byd-eang ehangach sy'n cyfrannu at y materion hyn gan gynnwys materion cadwyn gyflenwi a chludo sy'n gysylltiedig â Brexit a goresgyniad Rwsia o Wcráin, pandemig COVID-19 a digwyddiadau tywydd eithafol. Yn ogystal, nododd un rhanddeiliad FSUK, wrth i fanwerthwyr ddod yn fwy effeithlon yn eu rheolaeth stoc, fod newidiadau wedi bod yn y cyflenwad o fwyd bwytadwy dros ben o'r ffynonellau hyn. Er bod bwyd dros ben yn parhau i fod ar gael, mae'n aml ar wahanol ffurfiau, a all gyflwyno heriau logistaidd ac adnoddau newydd ar gyfer ailddosbarthu. O ganlyniad, mae ailddosbarthwyr fel FSC yn dibynnu fwyfwy ar ffynonellau eraill o fwyd dros ben, gan gynnwys eitemau mwy fel pecynnau arlwyo (e.e., blychau swmp a fwriadwyd ar gyfer allfeydd arlwyo a lletygarwch). Mae'n anoddach rhannu'r bwyd dros ben hwn yn feintiau priodol ar gyfer aelwydydd ac unigolion a dim ond i sefydliadau sydd â chyfleusterau arlwyo y gellir ei ddosbarthu fel arfer, oni bai ei fod wedi'i rannu ymhellach ar gyfer aelwydydd. Yn ogystal â phecynnau arlwyo, bu cynnydd yn argaeledd cynnyrch wedi'i rewi a mathau eraill o fwyd sydd angen eu storio, eu trin a'u hailddosbarthu'n ofalus, er mwyn cynnal diogelwch bwyd. Mae effaith gyfunol yr heriau hyn wedi arwain at nifer gynyddol o aelodau posibl yn cael eu rhoi ar restrau aros[46] sydd wedi cyd-daro â chyfnod o dwf yn yr aelodaeth.

Yn y cyfamser, mae FSC wedi bod yn cymryd nifer o gamau i fynd i'r afael â'r her hon gan gynnwys buddsoddi mewn capasiti warysau, offer a phrosesu ychwanegol. Cefnogir hyn drwy wella cyfathrebu ag aelodau ynghylch y mathau

[46] Yn ôl data a rennir gan FSC ar nifer y sefydliadau ar eu rhestr aros aelodau drwy adroddiadau monitro a rhannu data gyda Llywodraeth Cymru.

o fwyd sydd ar gael, er mwyn eu galluogi i wneud y defnydd gorau o'r bwyd dros ben a gyflenwir. Mae enghreifftiau o hyn wedi cynnwys defnyddio ceginau dros dro ac annog sefydliadau i ddychwelyd i ddatblygu cynnig bwyd wedi'i goginio (a oedd yn fwy cyffredin cyn dechrau pandemig Covid-19 lle effeithiodd cyfyngiadau ar gynulliadau wyneb yn wyneb ar hyfywedd prosiectau o'r fath).

### Cynnydd mewn aelodaeth a'r galw gan fuddiolwyr

Nodwyd mewn gwaith maes gyda rhanddeiliaid ac aelodau'r FSC ac mewn adroddiadau monitro, fod aelodau'n wynebu amgylchedd gweithredu heriol. Priodolir hyn i natur gystadleuol yr amgylchedd ariannu ehangach yn ogystal â galw cynyddol gan fuddiolwyr, a gododd yn sydyn yn ystod pandemig COVID-19. Er bod y galw wedi sefydlogi ers hynny, mae'n parhau ar gyfradd uwch o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig, gan fod pwysau chwyddiant a'r argyfwng costau byw yn effeithio'n anghymesur ar unigolion ac aelwydydd incwm isel yng Nghymru. Cefnogir y canfyddiadau hyn gan arolwg FSUK DU gyfan a gynhaliwyd yn 2022, lle nododd 90% o'r 1,200 o sefydliadau a arolygwyd fod eu gwasanaethau wedi cael eu heffeithio mewn rhyw ffordd gan yr argyfwng costau byw, a nododd mwy na 75% o'r sefydliadau a ymatebodd eu bod wedi gweld cynnydd yn y galw am eu gwasanaethau dros y flwyddyn ddiwethaf.[47] Nid yn unig y mae'r pwysau hyn wedi effeithio ar weithrediadau FSC o ran y galw cynyddol gan aelodau am gefnogaeth, ond mae'r pwysau chwyddiant ehangach hefyd wedi effeithio ar gostau gweithredol FSC yn ôl eu rhanddeiliaid, yn enwedig fel Cyflogwr Cyflog Byw Achrededig.

### Casgliad

Mae'r adran hon wedi archwilio'r gweithgareddau gweithredol a gefnogir drwy'r grant, er mwyn rhoi cipolwg ar sut mae arian gan Lywodraeth Cymru wedi cyfrannu at ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben yn well dros amser. Mae dadansoddiad o weithgareddau a pherfformiad FSC yn erbyn amodau'r gronfa yn cadarnhau bod FSC yn darparu model cyflenwi llwyddiannus i gyflawni amcanion y grant. Mae'r rhain yn cynnwys dargyfeirio bwyd bwytadwy dros ben o fod yn wastraff, defnyddio'r bwyd hwn mewn ffordd i gefnogi eraill ac, ymhen

[47] FareShare UK, 'Running on Empty: FareShare survey highlights dramatic impact cost of living crisis is having on the most vulnerable in society', 30ain Mawrth 2022

amser, cefnogi hunangynhaliaeth sefydliadol y sawl sy'n derbyn y grant. Mae grant Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan allweddol wrth alluogi FSC i ehangu ei weithrediadau'n effeithlon drwy sicrhau bod y seilwaith, y bobl a'r setiau sgiliau cywir ar waith i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Mae hefyd wedi galluogi mwy o fwyd bwytadwy dros ben i gael ei ailddosbarthu i fwy o aelodau, fel y dangosir gan berfformiad FSC yn erbyn targedau allbwn y grant.

Er bod y dadansoddiad hwn yn ein helpu i ddeall effeithiolrwydd gweithgareddau a gefnogir gan grantiau, mae hefyd yn bwysig ystyried y gweithgareddau hyn yng nghyd-destun ehangach ymdrechion ailddosbarthu yng Nghymru. Mae asesu'r fenter a ariennir mewn perthynas â'r dirwedd ehangach yn cynnig dealltwriaeth lawnach o'i chyfraniad, ei chryfderau cymharol, a'r heriau y mae'n eu rhannu â - neu sy'n wahanol i - fodelau a dulliau ailddosbarthu eraill. Archwilir yr ystyriaethau hyn yn fanylach ym Mhenodau 6 a 7.

## 5. Canlyniadau gweithrediad FSC

Mae'r adran hon yn manylu ar ganfyddiadau ymchwil am effeithiau arsylladwy gweithgareddau FSC. Dyma'r effeithiau sy'n digwydd oherwydd yr allbynnau uniongyrchol (mesurau targed) sydd ynghlwm wrth y dyfarniad grant. Cyflwynir y canfyddiadau fesul grŵp rhanddeiliaid, er mwyn rhoi cipolwg ar brofiadau'r rhai a gefnogir gan yr arian. Mae'r mewnwelediadau yn yr adran hon yn seiliedig ar ymchwil sylfaenol gyda busnesau sydd wedi rhoi rhoddion i FSC, aelodau FSC a gwirfoddolwyr FSC.

Mae'r Bennod hon yn diwallu **Nod ymchwil 2**: Datblygu dealltwriaeth o'r effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol y mae'r arian wedi'u galluogi ac ystyried beth fyddai wedi digwydd yn absenoldeb arian.

### Canlyniadau i fusnesau

Mae FSC yn gweithio gydag ystod amrywiol o fusnesau ledled Cymru, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr, tyfwyr, cynhyrchwyr, gwasanaethau bwyd, a chwmnïau lletygarwch, i ddarparu datrysiad ailddosbarthu bwyd dros ben. Mae'r canfyddiadau yn yr adran hon yn seiliedig ar arolwg ar-lein o 6 busnes a chyfweliadau dilynol gyda 2 o'r busnesau hyn. Er bod y mewnwelediadau hyn yn darparu safbwyntiau gwerthfawr, maent wedi'u tynnu o sampl fach ac ni ddylid eu hystyried yn gynrychioliadol o brofiadau pob busnes wnaeth bartneru ag FSC.

#### Cymhellion dros bartneru ag FSC

Ymhlith y 6 busnes a gymerodd ran yn yr ymchwil, roedd y cymhellion dros weithio gydag FSC yn canolbwyntio ar ddau ffactor allweddol: cyfrifoldeb cymdeithasol ac ailddefnyddio bwyd a fyddai fel arall yn cael ei wastraffu.

Cyfeiriodd tri busnes yn benodol at eu hawydd i gefnogi cymunedau sy'n wynebu caledi ariannol, gan gyfeirio at faterion fel tlodi bwyd a'r argyfwng costau byw; cydnabod y ddibyniaeth gynyddol ar fanciau bwyd a phwysigrwydd ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben i'r rhai mewn angen. Soniodd un busnes yn benodol y gallen nhw werthu cynhyrchion a

roddir i FSC i gyfanwerthwyr, ond maen nhw'n dewis partneru ag FSC at ddiben cymdeithasol, gan ddisgrifio hyn fel "rhwymedigaeth foesol". Cyfeiriodd pedwar busnes at leihau gwastraff bwyd fel prif ysgogydd dros bartneru ag FSC. Cysylltodd dau o'r busnesau hyn eu hymgysylltiad yn benodol ag ymrwymiadau cyfrifoldeb corfforaethol mewnol. Rhannodd un busnes:

> “Byddai’n well gennym weld y bwyd yn cael ei ddefnyddio na’i wastraffu – mae’n arfer da ac yn cyd-fynd â’r hyn rydyn ni’n ei gynrychioli.” – Ymatebydd arolwg busnes

Dim ond un busnes a nododd ei fod yn rhoi bwyd dros ben i FSC bob pythefnos, tra bod y busnesau oedd yn weddill yn rhoi bwyd wrth i fwyd dros ben godi. Nododd busnes arall, er bod rhoddion yn bennaf ar sail ad hoc, eu bod yn anelu at roi bob chwarter i gefnogi egwyddorion cyffredinol bod yn gymdeithasol gyfrifol.

### Manteision economaidd a gweithredol

Tynnodd busnesau sylw at y rhwyddineb gweithredol a'r hyblygrwydd a ddarperir gan FSC wrth reoli bwyd dros ben, yn enwedig i'r rhai heb eu galluoedd dosbarthu eu hunain. Nododd y busnesau a arolygwyd fod ailddosbarthu yn aml yn ddewis arall mwy cost-effeithiol yn lle gwaredu gwastraff, gyda 3 busnes yn cyfeirio at arbedion ar gostau gwaredu fel canlyniad ehangach o weithio gydag FSC. Esboniodd y ddau gyfwelai fod proses gasglu FSC yn gweithio o amgylch eu hamserlenni, gan leihau'r aflonyddwch ar weithgareddau dyddiol.

> “Mae’n dda oherwydd maen nhw’n dod pan fydd eu hangen arnom ni, ac nid yw’n tarfu ar ein gweithrediadau.” – Ymatebydd cyfweliad busnes

### Effaith amgylcheddol a chynaliadwyedd

Nododd pump o bob chwe busnes a arolygwyd fod gweithio gydag FSC wedi cyfrannu at effaith amgylcheddol gadarnhaol. Nododd un busnes fod y bartneriaeth hon wedi gwneud cyfraniad 'mawr' at eu hymdrechion amgylcheddol, tra bod y 4 busnes sy'n weddill wedi nodi ei bod wedi

gwneud cyfraniad 'bach'; gydag un busnes yn nodi bod ganddynt fesurau amgylcheddol cadarnhaol ar waith eisoes.

Y tu hwnt i ailddosbarthu bwyd dros ben, disgrifiodd busnesau rôl FSC fel un sy'n ategu eu hymrwymiadau amgylcheddol ehangach, megis lleihau plastig a chaffael cyfrifol ar draws y gadwyn gyflenwi. Esboniodd un cyfwelai fod cynaliadwyedd yn dod yn fwyfwy ymgorfforedig yn eu gweithrediadau, gyda pherfformiad amgylcheddol bellach yn cael ei olrhain trwy ddangosyddion perfformiad allweddol misol. Fe wnaethon nhw rannu:

> “Mae FSC yn ein cefnogi i reoli ein gwastraff bwyd cyffredinol, a chyflawni targedau ESG [Llywodraethu Cymdeithasol Amgylcheddol]” – Ymatebydd cyfweliad busnes

### Gwerth enw da a chymdeithasol

Roedd pob un o’r 6 busnes a gymerodd ran yn cydnabod gwerth cymdeithasol gweithio gydag FSC, gyda phob ymatebydd i’r arolwg yn nodi bod y bartneriaeth hon wedi cyfrannu at effaith gadarnhaol ac wedi cefnogi eu cymunedau lleol. Tynnodd tri busnes sylw at fanteision ychwanegol yn benodol, gydag un busnes yn cyfeirio at foddhad gweithwyr gwell. Disgrifiodd un cyfwelai’r effaith gadarnhaol ar forâl staff, gan ddweud:

> “Mae yna ymdeimlad gwirioneddol o falchder o fewn y tîm o wybod bod ein bwyd dros ben yn helpu’r rhai mewn angen” – Ymatebydd cyfweliad busnes

Tynnodd un busnes a holwyd sylw at y ffaith, er y gellid anfon eu bwyd dros ben i'w dreulio'n anaerobig fel opsiwn rheoli gwastraff sy'n cynhyrchu refeniw, eu bod wedi dewis rhoi i FSC oherwydd gwerth cymdeithasol uwch ailddosbarthu. Dywedodd y busnes:

> “Mae ein gwastraff bwyd yn mynd i gael ei dreulio’n anaerobig ac mae’n ffynhonnell incwm i ni oherwydd gwerth uchel y deunyddiau/cynhwysion i’r broses dreulio. Mae'r arian y mae'r ffynhonnell incwm hon yn ei gynhyrchu yn werth llawer llai i ni na'r gwerth cymdeithasol a'r balchder sydd gennym wrth gyflenwi FSC” – Ymatebydd arolwg busnes

Nododd pedwar o bob 6 busnes fod eu partneriaeth ag FSC wedi gwella enw da’r brand. Tynnodd dau fusnes sylw’n benodol at werth adroddiadau effaith FSC, a oedd yn mesur canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol eu rhoddion. Dangosodd un o'r busnesau hyn y ffigurau hyn ar eu safle fel tystiolaeth o'u cyfraniad i'r gymuned, gan esbonio:

> “Rydym yn arddangos y ffigurau effaith yn ein swyddfa – mae'n destun balchder i'r tîm ac yn dangos i'n cwsmeriaid bod hyn yn bwysig i ni.” – Ymatebydd cyfweliad busnes

Roedd tri busnes yn gwerthfawrogi tryloywder a chyfathrebu dilynol FSC yn arbennig, gan ddweud ei fod yn eu sicrhau bod eu bwyd dros ben yn gwneud gwahaniaeth pendant. Disgrifiodd un busnes yr adborth a dderbyniwyd gan FSC fel un arbennig o bwysig, gan esbonio:

> “Mae’r adborth a gawn gan FSC ar yr hyn sydd wedi’i gyflawni gyda’n rhoddion yn amhrisiadwy – mae’n ein sicrhau bod ein bwyd dros ben yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol” – Ymatebydd cyfweliad busnes

### Heriau a chyfleoedd

Er bod busnesau wedi nodi profiadau cadarnhaol ar y cyfan, daeth rhai heriau ac awgrymiadau ar gyfer gwella i'r amlwg.

Nododd un busnes a gyfwelwyd ddiffyg ymwybyddiaeth ynghylch rhestr lawn FSC o bartneriaid corfforaethol a busnesau eraill sy'n rhoi bwyd bwytadwy dros ben, er gwaethaf y ffaith bod FSC yn rhestru rhai o'r busnesau y maent yn gweithio gyda nhw yn yr adran 'Pwy Rydym yn Gweithio Gyda Hwy' ar eu gwefan. Teimlwyd y gallai cyhoeddi rhestr gyflawn o gyflenwyr hyrwyddo cydweithio pellach o fewn y sector a sicrhau bod hawliadau am roddion yn gywir. Roedd pryder y gallai busnesau eraill orliwio ffigurau rhoddion heb eu gwirio'n briodol. Dywedodd y cynrychiolydd:

> "Byddai'n dda gwybod pwy arall sy'n rhan o'r broses – byddai'n creu mwy o atebolrwydd ac efallai hyd yn oed yn annog cydweithio." – Ymatebydd cyfweliad busnes

Ymhlith yr heriau gweithredol a nodwyd amlaf gan fusnesau roedd:

- trafnidiaeth a logisteg: Tynnodd tri busnes sylw at hyn drwy’r arolwg fel her allweddol, yn enwedig argaeledd trafnidiaeth a chydlynu casgliadau.
- oes silff fer: Nododd dau fusnes a arolygwyd fod cynhyrchion â dyddiad byr yn aml yn cyfyngu ar y ffenestr ar gyfer rhoi.
- cyfyngiadau storio a chyfyngiadau amser: cyfeiriodd un busnes at gapasiti storio oer fel cyfyngiad, tra bod un arall wedi sôn am bwysau amser ar gyfer rhoi bwyd, er na ddarparwyd unrhyw fanylion pellach.

Er gwaethaf yr heriau uchod, roedd ymwybyddiaeth gyfyngedig hefyd ymhlith busnesau oedd yn ymwneud â'r cynllun o gynlluniau cymorth fel cronfa SWP Cymru, sydd wedi'i chynllunio'n benodol i hwyluso ailddosbarthu bwyd dros ben sy'n anoddach cael mynediad iddo o fewn y gadwyn gyflenwi. Dim ond un busnes oedd yn ymwybodol o'r fenter hon. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y gronfa hon wedi'i bwriadu'n bennaf i gefnogi ailddosbarthu bwyd a allai fod yn rhy gostus neu'n rhy gymhleth i'w roi fel arall, yn hytrach na chynnig cymhorthdal i'r holl gostau cludiant sy'n gysylltiedig â rhoddion bwyd dros ben.
Cododd un busnes bryderon hefyd ynghylch eglurder data effaith amgylcheddol, yn benodol yr ystadegau lleihad mewn $CO_2$ sydd wedi'u cynnwys yn adroddiadau FSC. Awgrymon nhw y gellid esbonio'r fethodoleg y tu ôl i'r ffigurau hyn yn well, gan fod y fformat presennol yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau ddehongli'r rhifau eu hunain: Dywedodd y busnes:

> “Efallai fod cyfle i esbonio’r ffigurau gydag adran destun fer pan fydd FSC yn anfon yr adroddiadau hynny allan.” – Ymatebydd cyfweliad busnes

## Barn ar reoli bwyd bwytadwy dros ben heb FSC

Yn yr arolwg, gofynnwyd i fusnesau hefyd beth fyddent wedi'i wneud â'u bwyd dros ben heb FSC. Nododd tri o'r 6 busnes, yn absenoldeb FSC, y byddent wedi gwaredu'r bwyd bwytadwy dros ben hwn fel gwastraff. Rhoddodd y 3 busnes sy'n weddill ymatebion gwahanol, gydag un yn nodi

y byddent wedi anfon y bwyd dros ben i fwydo anifeiliaid, un arall yn nodi y byddent wedi'i ddychwelyd i'r pridd fel compost, a'r trydydd yn nodi y byddent wedi'i roi'n uniongyrchol i sefydliadau/banciau bwyd lleol eraill. Rhoddodd y rhai a gafodd gyfweliad gyd-destun pellach, gydag un busnes yn disgrifio ymyrraeth FSC fel un hollbwysig yn ystod digwyddiad cynhyrchu bwyd dros ben a oedd yn cynnwys dros 2,970 o unedau brand a wrthodwyd gan fanwerthwr. Heb ymyrraeth FSC, rhannwyd y byddai'r cynhyrchion hyn yn debygol o fod wedi mynd i safleoedd tirlenwi, gan nad oedd gan y busnes y modd i ailddosbarthu'r nwyddau'n annibynnol. Fe wnaeth cytundeb sefydledig FSC gyda'r manwerthwr symleiddio'r broses awdurdodi, gan ganiatáu i ailddosbarthu fynd rhagddo heb gymhlethdodau. Dywedodd y cwmni:

> "Roedden ni'n wynebu sefyllfa lle byddai'r bwyd dros ben hwn wedi mynd yn wastraff, ond camodd FSC i mewn a chymryd y cyfan – roedd yn rhyddhad enfawr." – Ymatebydd cyfweliad busnes.

Mae'r canfyddiadau hyn yn atgyfnerthu rôl FSC wrth atal gwastraff, gan eu bod yn awgrymu y byddai busnesau fel arall yn troi at ddulliau gwaredu sy'n is-optimaidd yn amgylcheddol yn absenoldeb FSC.

**Casgliad – effaith gyffredinol FSC ar fusnesau oedd yn cymryd rhan**

Mae'r mewnwelediadau o ganfyddiadau'r arolwg a'r cyfweliadau dilynol yn awgrymu bod FSC yn chwarae rhan allweddol wrth hwyluso ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben ar gyfer busnesau yng Nghymru sy'n ymwneud â'r gwaith maes gwerthuso. Roedd busnesau a arolygwyd yn gwerthfawrogi FSC am ddarparu ateb sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ac yn effeithlon yn weithredol, gan arwain at fanteision o ran lleihau gwastraff bwyd a chefnogi effaith gymdeithasol gadarnhaol.

Un o'r canlyniadau 'anfwriadol' a gafwyd drwy'r ymchwil yw bod rhai busnesau a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn ystyried ailddosbarthu bwyd dros ben nid yn unig fel anghenraid gweithredol neu gynnig amgylcheddol ond fel agwedd graidd ar eu strategaethau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR). Roedd dau fusnes a gymerodd ran yn y gwaith maes gwerthuso yn gwerthfawrogi bod FSC yn eu galluogi i drosi

eu bwyd dros ben yn les cymdeithasol, gan ddangos felly bod cymhelliant i rai busnesau sy'n ymgysylltu ag FSC yn cynnwys aliniad â'u gwerthoedd sefydliadol a diwylliant eu gweithwyr.

Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod busnesau'n ymgysylltu ag FSC yn fwy adweithiol, gan ei ddefnyddio fel ateb i reoli bwyd dros ben sy'n deillio o amrywiadau yn y gadwyn gyflenwi. Canfu'r arolwg fod 5 o'r 6 busnes wedi rhoi arian ar sail ad hoc wrth i fwyd dros ben godi, tra mai dim ond un a gyfrannodd yn rheolaidd, bob pythefnos.

Mae'r dadansoddiad cyffredinol yn tanlinellu bod cyfle i FSC ddyfnhau'r partneriaethau hyn drwy wella gwelededd a thryloywder y broses ailddosbarthu. Roedd y 6 busnes a gymerodd ran yn gwerthfawrogi gwybod i ble mae eu bwyd dros ben yn mynd a'r effaith y mae'n ei chreu. Gallai adrodd effaith cliriach, mwy o eglurder ar fetrigau amgylcheddol (e.e., arbedion $CO2_2$), a mwy o welededd o amgylch rhwydwaith y busnesau partner gryfhau ymddiriedaeth ymhellach ac annog rhoddion parhaus neu gynyddol.

Ar ben hynny, mae'r canfyddiadau'n awgrymu, er bod busnesau'n gwerthfawrogi ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben, fod rhai hefyd yn defnyddio prosesau rheoli gwastraff eraill, fel treulio anaerobig neu anfon bwyd dros ben i'w ddefnyddio ar gyfer bwyd anifeiliaid. Yn y cyd-destun hwn, gallai rôl FSC wrth gyfleu effaith gymdeithasol ailddosbarthu fod yn bwysig mewn ymdrechion i sicrhau rhoddion bwyd dros ben, yn enwedig lle mae angen i fusnesau gydbwyso enillion ariannol sy'n gysylltiedig ag arferion rheoli gwastraff eraill.

At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod gwaith FSC gyda busnesau yn ymestyn y tu hwnt i reoli bwyd dros ben, gan osod y 6 busnes hyn fel cyfranwyr gweithredol i ddarparu bwyd i'r rhai sydd ei angen. Bydd twf yn y dyfodol yn y maes hwn yn dibynnu nid yn unig ar allu FSC i gynnal effeithlonrwydd gweithredol ond hefyd ar ei allu i ddangos effaith a chynnal partneriaethau dwfn, sy'n seiliedig ar werthoedd, gyda busnesau ledled Cymru.

**Canlyniadau i aelodau**

Mae aelodau'n chwarae rhan hanfodol mewn ailddosbarthu bwyd ledled Cymru, gan gefnogi unigolion a theuluoedd sy'n wynebu ansicrwydd bwyd. Gan bartneru â sefydliadau fel FSC, mae aelodau'n darparu mynediad at fwyd bwytadwy dros ben wrth integreiddio ystod o wasanaethau cymorth cymdeithasol. Mae'r is-adran hon yn archwilio'r canfyddiadau allweddol o gyfweliadau ag 8 sefydliad aelod, gan fanylu ar fanteision bwyd a ddarperir gan FSC, heriau sy'n gysylltiedig â chaffael bwyd, ac effeithiau ehangach ymdrechion ailddosbarthu bwyd.

## Rôl aelodau mewn ailddosbarthu bwyd

Mae aelodau a gefnogir gan FSC yn gweithredu mewn amrywiol leoliadau, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) banciau bwyd, archfarchnadoedd cymdeithasol, ysgolion, mentrau ffydd, a chanolfannau cymunedol. Mae'r cymunedau maen nhw'n eu cefnogi hefyd yn amrywiol, yn amrywio o rai daearyddol i rai sy'n cael eu gyrru gan bwrpas; mae aelodau'n darparu ar gyfer cymunedau sydd heb ddigon o wasanaeth ac sydd wedi'u hymylu trwy sefydliadau fel hosteli digartref a llochesi i fenywod. Mynd i'r afael â thlodi a diwallu anghenion uniongyrchol eu cymunedau yw'r prif ysgogwyr i aelodau. Fel y nodwyd gan gyfweliadau'r aelodau, mae llawer o sefydliadau yn ymestyn y tu hwnt i ddarparu bwyd drwy gynnig gwasanaethau ychwanegol fel cwnsela ariannol, cymorth iechyd meddwl, a mentrau a gynlluniwyd i leihau ynysu cymdeithasol. Mae'r ymdrechion hyn yn cyfrannu at gryfhau gwydnwch cymunedol trwy feithrin rhwydwaith cymorth ar gyfer poblogaethau agored i niwed. Dylid nodi, o ran ailddosbarthu bwyd dros ben, mai mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd yw prif rôl aelodau, ac yn aml ystyrir lliniaru gwastraff bwyd fel ystyriaeth eilradd neu fudd (cadarnhaol) anfwriadol o'u gwaith.

Nododd chwe aelod a gyfwelwyd eu bod wedi caffael bwyd ychwanegol er mwyn darparu cymorth bwyd i'w buddiolwyr. Rhoddodd yr aelodau a gyfwelwyd amcangyfrifon yn amrywio o 50% hyd at 80%, wrth drafod cyfran eu ffynonellau bwyd y gellir eu priodoli i FSC. Rhannodd yr aelodau a gyfwelwyd fod angen bwyd ychwanegol yn rheolaidd er mwyn ategu faint o fwyd a dderbyniwyd gan FSC, fodd bynnag mai FSC oedd eu

darparwr mwyaf cyson a dibynadwy. Nododd yr aelodau ffocws penodol ar brynu nwyddau y gellir eu cadw ar dymheredd ystafell, gan yr adroddir bod y rhain yn cynrychioli cyfran lai o'u dosbarthiadau cyffredinol. Roedd ffynonellau darpariaeth eraill a ddefnyddiodd aelodau yn cynnwys bwyd bwytadwy dros ben o apiau fel Olio neu Neighbourly (mewn partneriaeth â'r Co-op ac Aldi) yn ogystal â pherthnasoedd uniongyrchol â manwerthwyr cenedlaethol a lleol. Soniodd yr aelodau hefyd am gasgliadau drwy'r cynllun FareShare Go. Roedd ffynonellau bwyd ehangach aelodau hefyd yn cynnwys bwyd nad oedd dros ben a brynwyd yn uniongyrchol i ategu eu darpariaeth, er enghraifft ar adegau prysurach fel y Nadolig, naill ai trwy gyfanwerthwyr neu fanwerthwyr.

### Manteision allweddol partneru ag FSC

Tynnodd cyfweliadau ag aelodau sylw at sawl mantais o bartneru ag FSC. Un o'r manteision mwyaf arwyddocaol a adroddwyd gan 4 allan o 8 aelod yw arbedion cost. Drwy dalu ffi aelodaeth flynyddol fach, dywedodd aelodau eu bod yn gallu cael mynediad at fwyd am gost llawer is na chostau manwerthu, gan ganiatáu iddynt ddyrannu eu hadnoddau ariannol cyfyngedig i ddarparu mwy o gefnogaeth i'w cymunedau.

Teimlwyd bod dosbarthiadau rheolaidd gan FSC yn darparu cyflenwad bwyd cymharol ddibynadwy a chyson, gan alluogi aelodau i gynllunio'n effeithiol a diwallu anghenion cynyddol eu cymunedau. Ar ben hynny, mae aelodau'n cyfrannu at wydnwch cymunedol yn unol ag amcanion y Strategaeth Bwyd Gymunedol drwy ddarparu diogelwch bwyd i'w haelodau, gwella sefydlogrwydd ariannol, a sicrhau bod gan grwpiau agored i niwed fynediad at brydau maethlon. Roedd y bartneriaeth ag FSC yn caniatáu i aelodau ehangu eu cyrhaeddiad a gwella'r gwasanaethau a gynigiant, gan wneud cyfraniad uniongyrchol at fynd i'r afael â thlodi bwyd yng Nghymru.

Heb FSC, dywedodd dros hanner yr aelodau (5 allan o 8 a gyfwelwyd) y byddai'n rhaid iddynt naill ai leihau nifer y bobl y maent yn eu cefnogi, cyfyngu ar eu gwasanaethau, neu wneud cais am arian grant ychwanegol i barhau i weithredu. Nododd o leiaf 3 allan o 8 aelod, heb FSC, na fyddai eu sefydliadau'n gallu parhau o gwbl.

Fel y dywedodd un aelod:

> "Pe na bai FS o gwmpas, byddai gennym gostau uwch, fel prynu gan gyfanwerthwyr yn lle, a fyddai wedyn yn effeithio ar y mentrau cymunedol y gallwn eu gwneud." – Ymatebydd cyfweliad aelod

Nododd un arall,

> "Mae'n debyg y byddai ein sefydliad wedi rhoi'r gorau i weithredu'n llwyr [heb FSC]." – Ymatebydd cyfweliad aelod.

Yn ogystal, nododd 4 aelod nad oedd ganddynt lawer o sianeli ar gael iddynt ar gyfer cynyddu arian mewn ymateb i gostau gweithredol cynyddol, yn enwedig oherwydd gostyngiad mewn rhoddion cyhoeddus o ganlyniad i'r argyfwng costau byw, a mwy o gystadleuaeth i sicrhau arian grant.

### Heriau a wynebir gan aelodau

Er gwaethaf y manteision hyn, nododd yr aelodau a gyfwelwyd eu bod wedi wynebu sawl her weithredol a logistaidd wrth ailddosbarthu bwyd dros ben. Un mater a adroddwyd yn benodol gan 3 aelod a gyfwelwyd yw natur dyddiadau byr llawer o roddion bwyd, sy'n cyfyngu ar oes silff eitemau sydd ar gael ac weithiau'n arwain at wastraff bwyd. Fel y crynhodd un aelod:

> “Gall dyddiadau ar brydau parod fod yn rhy fyr sy’n ei gwneud hi’n anodd cael gwared arnynt ac yn arwain at fwy o wastraff bwyd.” – Ymatebydd cyfweliad aelod

Adroddwyd hefyd gan 4 o’r rhai a gyfwelwyd fod amrywiaeth gyfyngedig a thymoroldeb rhai eitemau bwyd yn her. Er bod aelodau'n gwerthfawrogi amrywiaeth eang o lysiau yn gyffredinol, mae problemau'n codi pan fydd 'gormodedd' o gynnyrch tymhorol neu lif o lysiau 'anghyffredin' y gall aelodau ei chael hi'n anodd eu hailddosbarthu. Gall hyn gyfyngu ar y gallu i greu prydau cytbwys a chyflawn, yn enwedig pan fo cynhwysion sylfaenol fel proteinau neu garbohydradau yn brin. Nododd un,

> “Mae pwysau bwyd wedi lleihau, gyda llysiau’n cymryd llawer o’r pwysau sy’n ei gwneud hi’n anodd gwneud prydau cyfan weithiau

> a gall llysiau fynd yn ddrwg yn hawdd." – Ymatebydd cyfweliad aelod

Her gysylltiedig arall yw diffyg capasiti storio a chludo digonol ar gyfer sefydliadau. Adroddodd tri aelod am gyfleusterau oergell annigonol, gan gyfyngu ar eu gallu i storio eitemau darfodus. Fel y disgrifiodd un:

> "Mae rhewi cynnyrch yn ateb posibl i hyn ond nid oes digon o gapasiti i gyfleu hyn drwy'r system." – Ymatebydd cyfweliad aelod

Mae'r cyfyngiadau seilwaith a storio yn adlewyrchu patrymau ehangach ledled y DU, fel y nodwyd gan WRAP (2022)[48], mae sefydliadau'n cael trafferth gyda chapasiti storio oer. Nododd un rhanddeiliad FSC, wrth gofrestru aelodau, fod y cyfleusterau storio sydd ar gael i aelodau yn cael eu hasesu, a bod cyfleoedd yn cael eu nodi lle gellir cefnogi aelodau i dderbyn storfa ychwanegol. Yn ogystal, nododd y rhanddeiliad fod arian wedi'i ddarparu yn flaenorol drwy FSC i gefnogi aelodau gyda storfa oer, a bod rhywfaint ohono wedi'i ddarparu gan yr arian a oedd ar gael drwy Is-adran Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru.

Adroddodd yr aelodau a gafodd eu cyfweld drwy'r gwerthusiad fod yr argyfwng costau byw parhaus yn rhoi hyd yn oed mwy o straen ar aelodau, gan ei gwneud hi'n gynyddol anodd iddynt gynnal eu gweithrediadau. Gyda phrisiau bwyd, costau ynni a chwyddiant yn codi, mae rhai aelodau'n ei chael hi'n anodd diwallu'r galw cynyddol am ddarpariaeth bwyd gan gymunedau agored i niwed. Adroddodd rhai o'r aelodau a gyfwelwyd, wrth i fwy o bobl gael trafferth gydag ansicrwydd ariannol, fod nifer yr unigolion sy'n ceisio cymorth gan eu sefydliad wedi cynyddu, gan roi pwysau ychwanegol ar adnoddau sydd eisoes dan bwysau.

Mewn ymateb, dywedodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd fod gofyn iddynt chwilio am adnoddau ac arian ychwanegol, boed drwy grantiau, rhoddion, neu bartneriaethau, er mwyn cadw i fyny â'r galw. Nid yn unig y mae hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd eu gweithrediadau ond mae hefyd yn eu gorfodi i ddargyfeirio amser ac egni gwerthfawr o'u gweithgareddau craidd

[48] WRAP, 'Data Stories:  Annual Survey of Redistribution Organisations in the UK 2023', Hydref 2024

(darparu gwasanaethau) i ganolbwyntio ar sicrhau'r gefnogaeth ariannol angenrheidiol. Adroddodd y rhai a gafodd gyfweliad fod yr angen cyson am arian allanol yn cymhlethu eu gallu i gynllunio a gweithredu'n effeithlon ymhellach, wrth iddynt frwydro i ragweld anghenion y dyfodol ac argaeledd adnoddau yng nghanol tirwedd economaidd ansicr er mwyn canolbwyntio ar sicrhau'r gefnogaeth ariannol angenrheidiol.

### Canlyniadau i gymunedau

Disgrifiodd yr aelodau a gyfwelwyd ystod o fanteision cymdeithasol ac economaidd a ddarparwyd i'w cymunedau, o ganlyniad i'w partneriaeth ag FSC.

Disgrifiodd yr aelodau gefnogi ystod ddemograffig eang o unigolion a theuluoedd sy'n profi ansicrwydd bwyd, gan ganolbwyntio'n aml ar aelodau mwyaf agored i niwed cymdeithas. Mae'r rhain yn cynnwys plant a theuluoedd, yn enwedig drwy glybiau newyn yn ystod y gwyliau sy'n llenwi bylchau pan nad oes prydau ysgol am ddim ar gael.

Mae aelodau hefyd yn darparu cefnogaeth hanfodol i oedolion hŷn, unigolion mewn sefyllfaoedd o argyfwng, unigolion di-waith, a'r rhai sy'n wynebu anawsterau ariannol hirdymor.

### Manteision cymdeithasol cymorth cofleidiol

Y tu hwnt i ddarparu bwyd i fuddiolwyr, canfu'r ymchwil hwn fod aelodau'n cynnig cefnogaeth gyfannol, cofleidiol sy'n gwella llesiant cymdeithasol a gwydnwch cymunedol yn unol ag amcanion y Strategaeth Bwyd Gymunedol a pholisïau eraill. Mae natur aml-asiantaeth yr aelodau a gyfwelwyd drwy'r ymchwil yn cyfrannu at nifer o ganlyniadau bwriadedig Grant FSC. Canfu gwaith maes fod bwyd yn aml yn gweithredu fel pwynt mynediad i wasanaethau hanfodol eraill, megis cyngor ariannol, cymorth iechyd meddwl, ac arweiniad cyflogaeth. Er enghraifft, gellir cyfeirio teuluoedd at wasanaethau cyllidebu neu gymorth â dyled ar ôl cysylltu ag aelod i ddechrau am gymorth bwyd. Fel yr eglurodd un sefydliad, *"Mae bwyd yn fan mynediad i gyfeirio at wasanaethau a chymorth ehangach."* Gwelwyd trwy waith maes y gall aelodau hefyd chwarae rhan wrth leihau ynysu cymdeithasol ac unigrwydd, yn enwedig ymhlith oedolion hŷn,

gofalwyr ac unigolion mewn argyfwng. Mae prosiectau bwyd cymunedol, fel ceginau cymunedol neu archfarchnadoedd cymdeithasol, yn creu mannau lle gall pobl gysylltu, cymdeithasu ac adeiladu rhwydweithiau cymorth. Tynnwyd sylw at hyn gan un darparwr a nododd yr ymdeimlad o gymuned a chefnogaeth sy'n dod i'r amlwg o amgylch eu cynnig bwyd, gan helpu unigolion i deimlo'n llai unig.
Ar ben hynny, mae rhai aelodau'n darparu datblygiad sgiliau bwyd ymarferol, fel dosbarthiadau coginio a chardiau ryseitiau, gyda'r nod o wella llythrennedd a gwydnwch bwyd. Mae'r ymchwil hwn yn awgrymu bod y mentrau hyn yn helpu i roi'r wybodaeth a'r hyder i bobl baratoi prydau bwyd iach a fforddiadwy, gan gryfhau gwydnwch aelwydydd ymhellach. Fel y dywedodd un cyfranogwr, mae aelod sefydliadau yn helpu pobl nid yn unig i "oroesi," ond i "symud ymlaen".

**Casgliad**

Mae darpariaeth FSC yn cynhyrchu ystod o ganlyniadau (a ddangosir drwy brofiadau aelodau), sy'n cyd-fynd yn dda â thargedau allbwn cymdeithasol Grant FSC (a nodir ym Mhennod 4) o'r dyfarniad grant, a'r canlyniadau a'r effeithiau dymunol yn y model rhesymeg a gynhyrchwyd ar gyfer y gwerthusiad. Nododd yr aelodau a gyfwelwyd heriau mwy diweddar megis bwyd â dyddiad byr, amrywiaeth a storio cyfyngedig, a galw cynyddol sy'n awgrymu'r angen am arloesi a chydweithio parhaus gydag FSC a phartneriaid eraill.

**Canlyniadau i wirfoddolwyr**

Daeth canfyddiadau ar brofiadau gwirfoddolwyr i'r amlwg o drafodaethau ar draws dau weithdy. Mae gwirfoddolwyr FSC yn chwarae rhan hanfodol yn ymdrechion ailddosbarthu bwyd y sefydliad, gan ddarparu llafur hanfodol ar gyfer didoli, pecynnu a dosbarthu bwyd i aelodau – gan sicrhau bod bwyd dros ben yn cael ei ddosbarthu'n effeithlon ac yn cyrraedd y rhai mewn angen. Mae'r adran hon yn archwilio cymhellion gwirfoddolwyr, eu barn ar fanteision gwirfoddoli gydag FSC, a chyfleoedd i ddarparu cefnogaeth i wirfoddolwyr yn y sector yn y dyfodol.

## Rolau a chyfrifoldebau gwirfoddolwyr

Cymerodd deuddeg o wirfoddolwyr FSC (a oedd yn ymwneud ag amrywiaeth o dasgau ailddosbarthu) ran mewn 2 weithdy gwerthuso, fel rhan o'r ymchwil hwn. Mae casglu a phacio eitemau bwyd yn rôl sylfaenol i wirfoddolwyr, gan sicrhau bod parseli'n cael eu paratoi'n gywir i'w dosbarthu. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn cynorthwyo gyda logisteg trwy ddosbarthu bwyd i aelodau a sicrhau bod bwyd yn cyrraedd y lleoliadau cywir mewn modd amserol. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau gweithredol hyn, mae gwirfoddolwyr yn aml yn ymwneud ag allgymorth cymunedol, gan ryngweithio â buddiolwyr a darparu cefnogaeth i aelodau (nid i FSC yn unig) lle bo angen.

### Cymhellion dros wirfoddoli

Datgelodd gwirfoddolwyr ystod o gymhellion dros gefnogi FSC. Er enghraifft, rhannodd gwirfoddolwyr eu bod yn cael eu denu at y rôl am resymau cymdeithasol, gan fwynhau'r cyfle i feithrin cyfeillgarwch a rhyngweithio ag unigolion o'r un anian, yn enwedig os ydynt wedi ymddeol, yn ddi-waith, neu'n profi ynysigrwydd cymdeithasol. Mae hyn yn ychwanegol at gael eu gyrru gan ymdeimlad cryf o bwrpas, yr awydd i gyfrannu at ymdrechion sy'n mynd i'r afael â thlodi bwyd ac yn lleihau gwastraff bwyd. Cydnabuwyd hefyd fod gwirfoddoli yn darparu llwybr i ddatblygu gyrfa, gan gynnig sgiliau a phrofiad gwerthfawr a all arwain at gyflogaeth o fewn y sectorau ailddosbarthu bwyd neu elusennol. Roedd yr ymdeimlad o gyflawniad sy'n dod o wneud gwahaniaeth pendant ym mywydau pobl yn thema a gododd dro ar ôl tro ymhlith gwirfoddolwyr a oedd yn cymryd rhan.

### Llwybrau i gyflogaeth a datblygu sgiliau

Un o'r manteision mwyaf pendant a amlygwyd gan wirfoddolwyr yw'r cyfle y mae'n ei ddarparu i unigolion ennill profiad gwaith a datblygu sgiliau trosglwyddadwy. Nododd y gwirfoddolwyr eu bod yn credu y gallai gwirfoddoli yn FSC gefnogi cyfleoedd i sicrhau cyflogaeth â thâl o fewn y sefydliad yn uniongyrchol, neu'r trydydd sector ehangach. Drwy ymgymryd â thasgau ymarferol fel rheoli rhestr eiddo, gyrru faniau dosbarthu,

hyfforddiant fforch godi neu gydlynu dosbarthu bwyd, disgrifiodd gwirfoddolwyr sut mae tasgau'n cefnogi cymwyseddau allweddol fel gwaith tîm, rheoli amser, datrys problemau a chyfathrebu. Gan fod y rhain fel arfer yn sgiliau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr ar draws gwahanol sectorau, i'r rhai a allai fod wedi bod allan o waith – boed oherwydd diswyddiadau, afiechyd, neu heriau bywyd eraill – mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gallai gwirfoddoli helpu i ailadeiladu hyder a pharodrwydd i weithio. Roedd un gwirfoddolwr hefyd yn gweld y rôl fel cyfle cadarnhaol ar gyfer trosglwyddo o addysg, “Mae’n darparu cam da i gyflogaeth o’r brifysgol”.

Rhannodd gwirfoddolwr arall fod ei gyfranogiad yn FSC wedi ei helpu i drawsnewid i rôl â thâl o fewn y sefydliad, gan dynnu sylw at y potensial i wirfoddoli ddarparu llwybr i yrfaoedd yn y trydydd sector.

### Manteision cymdeithasol a llesiant gwirfoddoli

Mae gwaith maes yn awgrymu bod gwirfoddoli gydag FSC hefyd yn dod â manteision cymdeithasol a llesiant sylweddol. Nodwyd bod gweithio ochr yn ochr ag eraill yn meithrin ymdeimlad o 'gyfeillgarwch' (a godwyd yn y ddau weithdy) a pherthyn. Mynegodd gwirfoddolwyr mewn un gweithdy yn benodol yr hwyl a’r mwynhad maen nhw’n ei gael yn y rôl, yn ogystal â gwerthfawrogi’r cysylltiadau cymdeithasol a’r perthnasoedd a ddatblygwyd trwy eu gwaith.

Roedd hyn yn arbennig o amlwg yng nghofnod un gwirfoddolwr:

> “[Doeddwn i] ddim yn colli gwaith, ond roeddwn i'n colli'r bobl, cymdeithasu; roeddwn i bob amser wedi bod yn ymwneud â phethau elusennol, yn wych yn gorfforol ac yn feddyliol ac yn rhoi esgus i chi godi.” – gwirfoddolwr FSC

I'r rhai a allai gael trafferth gyda'u hiechyd meddwl, nodwyd bod strwythur gwirfoddoli yn darparu ymdeimlad o drefn a phwrpas, gan helpu unigolion i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn ymgysylltu â'u cymuned. Yn ogystal, siaradodd nifer o wirfoddolwyr yn gadarnhaol am y gweithgarwch corfforol sydd ei angen wrth gyflawni tasgau, gan awgrymu ei fod yn eu cadw'n actif – a werthfawrogwyd yn arbennig gan weithiwr o bell a oedd

yn gwirfoddoli yn ei amser hamdden. Yn gymdeithasol, roedd gwirfoddolwyr hefyd yn gwerthfawrogi natur llai ffurfiol yr amgylchedd gwaith a sefydlwyd gan FSC. Nodwyd yn benodol y diffyg hierarchaeth rhwng cydweithwyr, wrth i un gwirfoddolwr grynhoi 'does neb yn fwy gwerthfawr nag unrhyw un arall,' wrth drafod y ffordd y mae staff a gwirfoddolwyr yn trin ei gilydd.

### Codi ymwybyddiaeth – agor llygaid i dlodi a gwastraff bwyd

Teimlwyd hefyd bod gwirfoddoli gydag FSC yn ehangu dealltwriaeth unigolion o dlodi bwyd a gwastraff bwyd yn eu cymunedau lleol. Yn y ddau weithdy, rhannodd gwirfoddolwyr eu bod wedi dechrau heb fawr o ymwybyddiaeth o raddfa ansicrwydd bwyd na chyfaint gwastraff bwyd yng Nghymru. Ar y pwnc hwn, eglurodd gwirfoddolwyr ymhellach fod trin bwyd dros ben yn ddyddiol a gweld y galw am gymorth bwyd yn uniongyrchol yn eu hamlygu i'r realiti llym y mae llawer o aelwydydd yn ei wynebu, gan eu herio i ddeall safbwyntiau y tu allan i'w 'swigen gymdeithasol' eu hunain. Nododd tri gwirfoddolwr hefyd eu bod wedi datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o faterion yn ymwneud â gwastraff bwyd a rheoli gwastraff bwyd drwy'r rôl, a ysgogodd ymdeimlad uwch o gyfrifoldeb amgylcheddol, fel y nododd un gwirfoddolwr:

> "Mae wedi rhoi cipolwg go iawn ar wastraff – i ble fyddai'r holl wastraff hwnnw'n mynd fel arall? Mae [gwirfoddoli dros FSC] wedi fy annog i leihau fy ngwastraff bwyd fy hun!" – gwirfoddolwr FSC

Rhannwyd nifer o sylwadau pellach mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth drwy wirfoddoli i FSC. Yn benodol, nododd gwirfoddolwyr eu bod wedi synnu a chael sioc gan faint o fwyd dros ben oedd yn dod i mewn, ond hefyd gan faint yr hyn sydd ei angen ac yn cael ei ddefnyddio gan aelodau, gan nodi bod y cyflenwad 'yn anaml iawn' yn fwy na'r galw, ei bod yn 'fwy cyffredin peidio â chael digon'.

Wrth iddyn nhw weld bwyd dros ben yn cael ei achub rhag cael ei waredu a'i ailgyfeirio i deuluoedd sy'n wynebu tlodi bwyd, disgrifiodd gwirfoddolwyr ddatblygu gwerthfawrogiad dyfnach o werth bwyd, y 'fraint o gael dewis' a roddir i'r rhai sy'n ddiogel o ran bwyd, a phwysigrwydd rhoddion gan

archfarchnadoedd. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag ymchwil o FareShare UK[49] a ganfu y gall gwirfoddoli gyda FareShare helpu i godi ymwybyddiaeth o dlodi bwyd a phwysigrwydd lleihau gwastraff.

### Heriau sy'n wynebu gwirfoddolwyr

Er gwaethaf natur werth chweil eu gwaith, disgrifiodd gwirfoddolwyr hefyd heriau a rhwystrau posibl i wirfoddoli gydag FSC. Gall gofynion corfforol trin parseli bwyd a chodi dosbarthiadau trwm fod yn llafurus, ac awgrymodd cyfranogwyr y gweithdai fod hyn yn arbennig o wir am wirfoddolwyr hŷn. Mae hyfforddiant a chadw staff hefyd yn peri heriau, gyda rhai gwirfoddolwyr yn mynegi gwrthwynebiad i ofynion hyfforddi ar-lein, fel modiwlau iechyd a diogelwch. Yn ogystal, gall natur benodol gwaith FSC fel codi pethau trwm, gweithrediadau warws a gyrru dosbarthiadau lunio eu proffil gwirfoddol. Yn y gweithdai gwirfoddolwyr, nodwyd y gallai'r gofynion corfforol hyn ddigalonni unigolion sy'n hŷn, yn anabl, neu'n llai actif yn gorfforol, gan gyfyngu o bosibl ar y gronfa recriwtio. Sylwodd un cyfranogwr gwirfoddol FSC fod y rhan fwyaf o'u cyfoedion yn hŷn, yn wyn, ac yn wrywaidd, awgrymodd y gwirfoddolwr fod y patrwm demograffig hwn yn amlwg mewn rolau gwirfoddol penodol:

> "Rydym yn cael trafferth gyda demograffig amrywiol y gyrwyr. Bron yn gyfan gwbl, [maen nhw'n] ddynion gwyn, dosbarth canol." – gwirfoddolwr FSC

Esboniodd gwirfoddolwyr a gymerodd ran yn y gweithdai gwerthuso y gallai diffyg gyrwyr benywaidd fod oherwydd y gofynion i wneud dosbarthiadau unigol a all arwain at bryderon diogelwch. Ymddengys bod y farn hon, a rennir gan wirfoddolwyr a gymerodd ran drwy'r gweithdai, yn cyd-fynd â thueddiadau ehangach a nodwyd ar draws y sectorau dosbarthu bwyd a gwirfoddol.[50]

---

[49] Fareshare UK, 'FareShare's Impact Report 2024: Transforming surplus food into support', 2024
[50] NCVO, 'Time Well Spent: A national survey on the volunteer experience' 01 Ionawr 2019

### Datrysiadau a gwelliannau yn y dyfodol

Roedd argymhellion i 'wella' profiad gwirfoddoli gydag FSC yn fach, fodd bynnag, roedd yr awgrymiadau'n cynnwys gweithredu opsiynau hyfforddi mwy hyblyg, gan gynnwys cymysgedd o ddysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb. Byddai hyn yn darparu ar gyfer gwirfoddolwyr â gwahanol ddewisiadau dysgu ac yn cynyddu cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddi. Gallai gwella mesurau diogelwch, fel sicrhau bod gan dimau dosbarthu ddigon o bersonél bob amser i drin llwythi trwm, hefyd helpu i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thasgau sy'n gofyn am ymdrech gorfforol. Yn ogystal, mae mewnwelediadau o'r cyfweliadau gwirfoddolwyr ac Adroddiad Time Well Spent y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Sefydliadau Gwirfoddol (NCVO)[51] yn dangos y gellid datblygu strategaethau recriwtio wedi'u targedu i ddenu sylfaen wirfoddolwyr fwy amrywiol, ac awgrymwyd bod hyn yn her yn seiliedig ar farn y gwirfoddolwyr, gan sicrhau bod gan ystod ehangach o unigolion y cyfle i gyfrannu at ymdrechion ailddosbarthu bwyd.

**Casgliad**

Mae'r rolau a'r gweithgareddau y mae gwirfoddolwyr yn eu gwneud i gefnogi gweithrediadau FSC yn awgrymu pwysigrwydd eu rôl wrth redeg ymdrechion ailddosbarthu bwyd. Mae eu cyfraniadau nid yn unig yn helpu o ran agweddau logistaidd dosbarthu ond hefyd yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned ac undod ymhlith gwirfoddolwyr. Bydd mynd i'r afael â heriau allweddol drwy gynnig hyfforddiant, recriwtio a chymorth logistaidd mwy amrywiol yn hanfodol wrth gryfhau eu heffaith a sicrhau cynaliadwyedd cymorth bwyd.

### Canlyniadau amgylcheddol

Yn ogystal â mewnwelediadau gan bartneriaid, aelodau a gwirfoddolwyr FSC, roedd y gwerthusiad yn ymgorffori dadansoddiad data eilaidd i asesu effaith amgylcheddol yr arian grant.

Mae FSC wedi adrodd amcangyfrif o arbedion $CO2_2e$ o ddargyfeirio bwyd a diod i Lywodraeth Cymru, gan ddefnyddio methodoleg a ddatblygwyd

[51] NCVO, 'Time Well Spent: A national survey on the volunteer experience' 01 Ionawr 2019

gan yr Ymddiriedolaeth Carbon[52]. Yn seiliedig ar ddata monitro a adroddwyd i Lywodraeth Cymru, arbedodd FSC tua 7,510 $tCO_2e$ rhwng blynyddoedd ariannol 2021 i 2022 a 2023 i 2024 trwy'r bwyd a'r ddiod y mae'n eu dargyfeirio o wastraff i ailddosbarthu.

Er na chafodd arbedion CO2e eu hadrodd yn ffurfiol drwy'r dyfarniad grant cyn 2021, gellir cael amcangyfrif rhesymol ar gyfer y cyfnod a ariannwyd rhwng 2015 a 2020 drwy gymhwyso cyfartaledd $CO2_2e$ fesul gwerth tunnell o arbedion a adroddwyd gan FSC (2021 i 2023) i dunelli bwyd hanesyddol a adroddwyd rhwng 2015 a 2020. O ystyried natur amrywiol y bwyd dros ben a ailddosbarthir gan FSC, tybir[53] bod y gwerth cyfartalog hwn yn darparu amcangyfrif rhesymol o effaith dros amser. Mae'r dadansoddiad hefyd yn tybio, er y gallai fod rhai amrywiadau wedi bod yn allyriadau blynyddol FSC o ddefnydd ynni a thanwydd, fod yr amrywiadau hyn yn ddigon bach fel bod y cyfartaledd yn parhau i fod yn amcangyfrif dibynadwy. Yn ogystal ag arbedion carbon, cyfrifwyd amcangyfrif o allyriadau methan ($CH_4$) wedi'u hosgoi yn deillio o weithgareddau ailddosbarthu bwyd FSC hefyd. I gyfrifo'r effaith hon, lluoswyd cyfanswm y tunelledd o fwyd a diod a ailddosbarthwyd gan FSC dros y cyfnod a ariennir â:

- ffactorau allyriadau methan o ymchwil i fesur allyriadau methan o wastraff bwyd a waredir[54]
- y gyfradd tirlenwi amcangyfrifedig yng Nghymru, yn seiliedig ar ddata Ystadegau Cymru[55] ar ganran y gwastraff solet trefol (MSW) a gesglir ac a anfonir i safleoedd tirlenwi, ochr yn ochr â dadansoddiadau WRAP Cymru o MSW a sbwriel yng Nghymru[56].

Mae'r gyfradd tirlenwi hon yn adlewyrchu gwastraff cartrefi yn bennaf, gyda rhywfaint o wastraff masnach wedi'i gynnwys gan fusnesau ac elusennau y mae eu gwastraff yn cael ei gasglu gan ALlau. Fodd bynnag,

[52] Ymddiriedolaeth Carbon, 'Environmental Impact Methodology Report', Awst 2023
[53] Defnyddiwyd y dirprwyon hyn yn absenoldeb data sydd ar gael i'r cyhoedd, ar yr adeg y cynhaliwyd yr ymchwil.
[54] EPA, 'Quantifying Methane Emissions from Landfilled Food Waste', Rhagfyr 30ain 2024
[55] Llywodraeth Cymru, 'Rheolaeth o wastraff blynyddol gan ddull rheoli (tunnell fetrig)', 2024
[56] WRAP Cymru, 'Dadansoddiad Cyfansoddiadol Cenedlaethol o Wastraff Trefol a Sbwriel yng Nghymru', 2024

nid yw'n cipio patrymau gwaredu gwastraff diwydiannol a masnachol yn llawn. Oherwydd diffyg cyfraddau tirlenwi gwastraff bwyd diwydiannol a masnachol sy'n benodol i Gymru sydd ar gael yn gyhoeddus, defnyddiwyd cyfraddau tirlenwi MSW fel dirprwy yn y cyfrifiad hwn.

Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae arbedion $CO_2e$ amcangyfrifedig dros gyfnod llawn yr arian grant (2015 i 2016 hyd at 2023 i 2024, gan gynnwys ffigurau SWP Cymru) yn cyfateb i tua 14,988 $tCO_2e$ – gan gynhyrchu'r pŵer cyfatebol sydd ei angen i redeg hyd at 21 o gartrefi Cymru am flwyddyn, neu i wneud 146,511 o deithiau yn ôl ac ymlaen rhwng Llandudno a Chaerdydd[57]. Gan ddefnyddio ffigurau prisio carbon diweddar[58], mae'r arbedion hyn yn cyfateb i werth ariannol o £554,558.

**Ffigur 5.1: Effeithiau amgylcheddol yr arian grant ers 2015**




Ffynhonnell: Miller Research, dadansoddiad o ddata monitro grantiau a ffynonellau eilaidd

[57] Defra, 'Greenhouse gas reporting: conversion factors 2024', 8fed Gorffennaf 2024.
[58] Defra, 'Traded carbon values used for modelling purposes, 2024' 17eg Rhagfyr, 2024

Er bod y dadansoddiad amgylcheddol yn helpu i sefydlu bod gweithrediad FSC yn llwyddiannus o ran lleihau allyriadau, mae angen rhoi'r canfyddiadau hyn yng nghyd-destun uchelgeisiau ehangach hefyd. Yn absenoldeb targed neu fesur penodol ynghlwm wrth gyfraniad disgwyliedig FSC, nid yw'r dadansoddiad yn gallu dod i gasgliadau ynghylch maint effaith amgylcheddol hirdymor y gweithrediad.

**Canlyniadau anfwriadol**

Oherwydd graddfa gyfyngedig y gwaith maes yn y gwerthusiad hwn, mae'r ymchwil yn cynhyrchu ychydig iawn o fewnwelediadau ynghylch canlyniadau anfwriadol y dyfarniad grant, h.y. yr effeithiau nad yw'r ymyrraeth wedi 'cynllunio' i'w cynhyrchu. Byddai dull gwerth cymdeithasol yn helpu i wella dealltwriaeth o ganlyniadau anfwriadol, y gwrthffeithiol, lefelau dadleoli,[59] a byddai'n sicrhau bod canlyniadau'n cyd-fynd yn fwy dilys â phrif fuddiolwyr yr arian (cymunedau sy'n derbyn bwyd dros ben). Mae FareShare UK wedi comisiynu Prifysgol Swydd Hertford i gynnal dadansoddiad enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad o'u gweithgarwch, sydd wedi awgrymu arbedion sylweddol i'r wladwriaeth ac yn uniongyrchol i fuddiolwyr[60]. Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn gallu amcangyfrif i ba raddau y byddai'r un canlyniadau wedi'u cyflawni yn absenoldeb gweithgarwch FareShare a chynhyrchu casgliadau cryfach ynghylch lefel y priodoliad rhwng gwaith FareShare a'r canlyniadau a brofwyd.

O ystyried natur y dirwedd ailddosbarthu bwyd, a'r ddibyniaeth ar fwyd bwytadwy dros ben mewn cadwyni cyflenwi presennol; mae'n bosibl bod rhywfaint o 'ddadleoli' wedi digwydd trwy ehangu gweithrediadau FSC, lle gallai ailddosbarthu bwyd a ariannwyd trwy'r dyfarniad grant fod wedi dadleoli gweithgarwch ailddosbarthu bwyd presennol.

Ar hyn o bryd mae argaeledd data eilaidd yn rhy wan i ddarparu casgliadau ystyrlon, ynghylch sut mae effaith amgylcheddol mentrau

[59] Mae dadleoli yn gysyniad a ddefnyddir mewn gwerthuso sy'n cyfeirio at y graddau y mae gweithgarwch a ariennir wedi gwthio gweithgarwch presennol a fyddai wedi digwydd beth bynnag allan. Lle mae cynnydd yn yr allbynnau a gyflawnwyd gan yr ymyrraeth a ariennir, h.y. tunelledd o fwyd dros ben a achubwyd, yn cael ei gyfrif drwy ostyngiadau mewn allbynnau mewn mannau eraill (gan sefydliadau eraill) o ganlyniad i'r ymyrraeth.

[60] Prifysgol Swydd Hertford, Social and Economic Evaluation of FareShare UK (2023) Technical Report

ailddosbarthu yng Nghymru yn cymharu'n ehangach â rhannau eraill o'r DU. Mae data cyfyngedig hefyd i allu asesu'r effaith y mae ailddosbarthu bwyd dros ben yng Nghymru (yn ei ffurf bresennol) yn ei chael ar gam olaf y gadwyn gyflenwi, o'i gymharu ag ymyriadau eraill a gynlluniwyd i leihau swm y bwyd dros ben a grëwyd yn gynharach yn y gadwyn gyflenwi. Mae'n bwysig cydnabod, er bod cynyddu ailddosbarthu bwyd yn chwarae rhan wrth leihau gwastraff bwyd, nad yw'n ateb sylfaenol. Mae atal bwyd dros ben a gwastraff rhag digwydd yn y lle cyntaf yn parhau i fod yn flaenoriaeth, sy'n hanfodol ar gyfer effeithlonrwydd busnes a lleihau effaith gwastraff bwyd ar yr hinsawdd. Er mwyn darparu dealltwriaeth fwy gwybodus o ganlyniadau anfwriadol arian grant FSC (gan gynnwys effeithiau 'negyddol' posibl yr ymyrraeth h.y. dadleoli posibl) – cynghorir hefyd yn y dyfodol ddull mwy manwl o werthuso'r partneriaethau rhwng busnesau ac FSC, ac i ddeall y dirwedd ailddosbarthu ar lefel fanylach trwy gasglu data gwell/ymchwil ehangach.

## 6. Gwersi o'r dirwedd ailddosbarthu ehangach

Mae'r adran hon yn archwilio ailddosbarthu bwyd dros ben yng Nghymru ac yn ei gymharu â dulliau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n archwilio modelau ailddosbarthu allweddol, mecanweithiau ariannu, a blaenoriaethau polisi, gan dynnu sylw at wahaniaethau mewn cefnogaeth seilwaith, strategaethau ariannu, a heriau'r sector ledled y DU. Defnyddir y dystiolaeth i ddarparu gwersi ar gyfer y gwerthusiad hwn o fodelau amgen i ailddosbarthu. Mae'r Bennod hon yn diwallu **Nod Ymchwil 3**: Archwilio sut mae gweithrediadau a ariennir gan Grant FSC yn ffitio i'r dirwedd ailddosbarthu ehangach yng Nghymru a thynnu ar wersi a ddysgwyd o'r modelau ailddosbarthu amgen, mewn mannau eraill yn y DU.

**Sut mae FSC yn ffitio i dirwedd ailddosbarthu Cymru**

Er mai FSC yw unig ailddosbarthwr bwyd dros ben canolog Cymru, gan ddarparu model cyrchu dibynadwy i'r rhan fwyaf o ddarparwyr bwyd cymunedol, cefnogir tirwedd ailddosbarthu Cymru trwy sawl sefydliad a rhwydwaith partner arall. At ei gilydd, mae darparwyr bwyd cymunedol yn dibynnu ar FSC am gyfran gyson o'u cynnig bwyd ffres, a ategir gan berthnasoedd lleol â busnesau llai, cynhyrchwyr a rhoddwyr.
Trussell (Ymddiriedolaeth Trussell gynt) yw'r unig sefydliad arall sy'n gweithredu ar raddfa fawr, gan ddarparu parseli bwyd brys mewn 76 o leoliadau ledled Cymru. Mae Trussell yn gweithredu rhwydwaith o 76 o fanciau bwyd yng Nghymru yn seiliedig ar roddion bwyd yn hytrach nag ailddosbarthu bwyd dros ben. Yn y flwyddyn ariannol 2023 i 2024, dosbarthodd Trussell tua 187,500 o barseli bwyd brys, y mwyaf y mae'r rhwydwaith erioed wedi'u dosbarthu yng Nghymru, mewn blwyddyn ariannol[61]. Mae amcanion a chylch gwaith gweithredol Trussell yn wahanol iawn i fodel FareShare, gan fynd i'r afael â newyn trwy roddion bwyd gan fusnesau, aelwydydd ac unigolion yn hytrach nag ailddosbarthu bwyd dros ben. Er bod y sefydliad yn darparu ateb rheng flaen i liniaru tlodi bwyd yng Nghymru ac mae hefyd yn gweithio i ystyried ei gylch gwaith amgylcheddol ymhellach; yn wahanol i FareShare, nid yw'n anelu

[61] Trussell 'End of year food Bank stats', 2024

at ddarparu ateb cylchol i ailddosbarthu bwyd trwy gynnyrch bwytadwy dros ben.

Ar lefel ranbarthol, mae presenoldeb rhwydweithiau bwyd lleol yn dod â phartneriaid o wahanol sectorau ynghyd (gan gynnwys cyrff cyhoeddus, dinasyddion, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, busnesau bwyd a chynhyrchwyr), i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod mynediad at fwyd da yn ehangu. Mae hyn yn cael ei yrru'n rhannol gan nod Llywodraeth Cymru i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu partneriaethau bwyd traws-sector, a'u hymrwymiad estynedig i ddarparu adnoddau ar gyfer partneriaethau bwyd lleol tan 2028.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi arwain ar ddatblygu Rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru[62] (y mae FSC yn aelod ohono), sy'n darparu dull meddwl seiliedig ar systemau ar gyfer cynhyrchu a defnyddio bwyd, a'i groes-toriadau ag iechyd, addysg, yr amgylchedd ac economïau lleol. Yn Aberystwyth, er enghraifft, mae Bwyd Aber Pwy? yn darparu amrywiaeth o weithgareddau system fwyd leol sy'n canolbwyntio ar atal gwastraff bwyd ar draws y gadwyn gyflenwi – gan gysylltu â busnesau lleol ac ailddosbarthu bwyd dros ben ymhlith y gymuned. May dull 'cydgysylltiedig' partneriaethau bwyd lleol yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer ymdrechion ailddosbarthu lleol i gydlynu â dosbarthu ar raddfa fwy fel drwy FSC, e.e. rhwng cyflenwyr lleol a chlybiau bwyd fforddiadwy. Fodd bynnag, mae gwybodaeth gyfanredol gyfyngedig ynghylch maint y gweithgaredd cydlynol hwn, a'i effeithiolrwydd wrth wasanaethu poblogaeth Cymru.

Mae llwyfannau ac apiau digidol DU gyfan hefyd yn chwarae rhan gynyddol yn y dirwedd ailddosbarthu yng Nghymru. Mae Neighbourly yn cysylltu siopau sydd â bwyd dros ben ag elusennau neu brosiectau cymunedol a all ei ddosbarthu i'r rhai mewn angen. Mae FareShare GO yn darparu mynediad uniongyrchol i elusennau a grwpiau at fwyd dros ben o archfarchnadoedd a bwytai lleol. Yn y cyfamser, mae platfformau

[62] Synnwyr Bwyd Cymru, 'Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, 2024

cyfoedion-i-gyfoedion (P2P)[63] fel Olio (elusennol) a Too Good to Go (masnachol) yn dilyn model busnes-i-ddefnyddiwr, gan alluogi busnesau bwyd i gynnig bwyd dros ben yn uniongyrchol i unigolion a chymunedau lleol.

Yn 2024, lansiodd Cymru ei 'Fanc pob Dim' cyntaf, Cwtch Mawr, yn Llansamlet, Abertawe. Gan weithredu o warws 6,000 troedfedd sgwâr, mae'n ailddosbarthu amrywiaeth o nwyddau dros ben - gan gynnwys dillad, cynhyrchion hylendid, gwisgoedd ysgol a dillad gwely - a roddir gan fusnesau fel Amazon.[64]. Er nad ailddosbarthu bwyd yw ei brif ffocws, mae'n ailddosbarthu bwyd dros ben y mae modd ei gadw ar dymheredd ystafell, yn bennaf trwy ei bartneriaethau masnachol, ac mae'n cynnig cwmpas i dderbyn rhoddion eraill. Gan ddefnyddio model hybrid, mae'n cydbwyso ailddosbarthu elusennol a masnachol, gan amlygu symudiad y tu hwnt i fwyd i ystod ehangach o anghenion hanfodol.

Mae'r 'bwlch' mewn ymdrechion i ailddosbarthu bwyd dros ben (ar raddfa fawr) yng ngorllewin a gogledd Cymru yn parhau, yn bennaf oherwydd cyfyngiadau seilwaith. Yng ngorllewin Cymru, mae Rhwydwaith Bwyd Sir Gaerfyrddin (y mae FSC yn aelod ohono) yn weithgar ac yn flaengar, gan gydlynu ystod o fentrau rhannu bwyd, pantrïau bwyd, banciau bwyd a siopau cymunedol. Mae cysylltiadau â chynhyrchwyr a chyflenwyr lleol wedi cyflwyno cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer perthnasoedd uniongyrchol yn rhanbarthol. Yng ngogledd Cymru, mae ymdrechion ailddosbarthu canolog yn dibynnu ar FareShare Glannau Mersi[65], gan gefnogi 55 o sefydliadau ar draws Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, a Wrecsam. Nodwyd bod diffyg cyfleusterau storio sydd ar gael a rhwystrau trafnidiaeth yng Nghymru (mewn cyfweliadau â rhanddeiliaid a gweithgareddau ymchwil eilaidd) wedi atal datblygiad pellach o ran cyfleusterau warws pwrpasol ar gyfer yr ardaloedd hyn.

[63] Mae llwyfannau P2P yn hwyluso cyfnewidiadau uniongyrchol rhwng unigolion neu fusnesau, yn aml trwy gymwysiadau digidol. Yng nghyd-destun ailddosbarthu bwyd, mae llwyfannau P2P yn cysylltu busnesau bwyd â defnyddwyr a all brynu neu gasglu bwyd dros ben yn uniongyrchol.
[64] Llywodraeth Cymru, 'Bydd 'banc pob dim' cyntaf Cymru yn darparu eitemau hanfodol i bobl mewn angen', 5ed Mawrth 2024
[65] FareShare Cymru,'Adroddiad Blynyddol – 2022/23', 2023

Mae partneriaethau bwyd rhanbarthol yn cryfhau cyfleoedd fel y rhai a nodwyd yn y Strategaeth Bwyd Gymunedol[66] ar gyfer perthnasoedd uniongyrchol rhwng ffermydd, cynhyrchwyr a chymunedau; fel y gellir rheoli cynnyrch dros ben yn gynharach yn y gadwyn gyflenwi, gan sefydliadau lleol ac unigolion. Fodd bynnag, mewn ardaloedd gwledig (lle mae crynodiad tir fferm yn uwch), gall fod anghydweddiad yn aml rhwng cyflenwad a galw. Cydnabuwyd hyn yn eang mewn gwaith maes gyda rhanddeiliaid polisi, wrth asesu manteision ac anfanteision cymharol modelau dosbarthu canolog o'i gymharu â modelau dosbarthu mwy lleol, oherwydd gwahaniaethau yn anghenion y boblogaeth. Heb ddigon o le storio i gadw oes y cynnyrch dros ben, neu opsiynau cludo i'w ddosbarthu i grwpiau a all ei ddefnyddio'n effeithlon, y canlyniad terfynol yw gwastraff. Er bod cefnogi mwy o weithgarwch rhanbarthol a lleol yn bwysig, fe wnaeth rhanddeiliaid polisi ac un rhanddeiliad ailddosbarthu ehangach gydnabod pwysigrwydd cefnogi gweithgarwch ailddosbarthu ar bob lefel (cenedlaethol, rhanbarthol, lleol) er mwyn galluogi tirwedd ailddosbarthu bwyd fwy gwydn.

## Cymharu ailddosbarthu bwyd ledled y DU

Diben yr adran hon yw adolygu modelau a rhaglenni ailddosbarthu allweddol sydd ar waith ledled Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Drwy archwilio gyrwyr polisi, ailddosbarthwyr allweddol a'u modelau gweithredol, rydym yn nodi dulliau gwahanol a gymerir ym mhob gwlad ac yn archwilio sut mae'r rhain yn cymharu â'r dirwedd ailddosbarthu yng Nghymru, gan ganiatáu i'r gwerthusiad ddysgu gwersi o'r dulliau

**Cymru**

**Gyrwyr / targedau polisi**

- Llofnodwr Cytundeb Bwyd a Diod y DU
- Strategaeth Mwy Nag Ailgylchu
- Gweledigaeth ar gyfer Cynllun Gweithredu'r Diwydiant Bwyd a Diod (2021)
- Strategaeth Bwyd Cymunedol

[66] Bwyd a Diod Cymru, 'Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru, 2025

**Modelau elusennol a di-elw**

- FSC
- Trussell Cymru – yn gweithredu rhwydwaith o 76 o fanciau bwyd yng Nghymru yn seiliedig ar roddion bwyd yn hytrach nag ailddosbarthu bwyd dros ben
- Rhwydwaith lleoedd bwyd cynaliadwy - Bwyd Caerdydd, Bwyd y Fro, Partneriaeth Bwyd Sir Fynwy, Bwyd RhCT, Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent, Partneriaeth Bwyd Gogledd Powys a Bwyd Sir Gâr yn Sir Gaerfyrddin.
- Er y gall rhai o'r rhwydweithiau hyn gefnogi sefydliadau ailddosbarthu a gweithgarwch ailddosbarthu, nid yw pob rhwydwaith yn ymwneud yn weithredol â chefnogi ailddosbarthu.
- FareShare Go
- Olio (DU gyfan) - platfform cyfoedion i gyfoedion
- Neighbourly (DU gyfan) - platfform cyfoedion i gyfoedion

**Modelau masnachol**

- Too Good to Go (DU gyfan) - platfform cyfoedion i gyfoedion

**Modelau sy'n dod i'r amlwg**

- Banc pob Dim, Cwtch Mawr

**Lloegr**

**Gyrwyr / targedau polisi**

- Llofnodwr Cytundeb Bwyd a Diod y DU, a gyflenwir gan WRAP gan weithio gyda'r diwydiant a'r gweinyddiaethau datganoledig. Nod yr ymrwymiad hwn yw helpu'r DU i gyflawni ei hymrwymiad o dan Nod Datblygu Cynaliadwy 12.3, sef haneru gwastraff bwyd erbyn 2030.[67].
- Strategaeth adnoddau a gwastraff ar gyfer Lloegr[68]

[67] WRI, 'SDG Targed 12.3'
[68] Defra, 'Our waste, our resources: a strategy for England', Rhagfyr 2018

- Hierarchaeth gwastraff bwyd a diod[69]
- Tasglu Economi Gylchol Llywodraeth y DU

**Modelau elusennol a di-elw**

- FareShare (DU gyfan) – ailddosbarthu bwyd dros ben i elusennau lleol drwy 16 o ganolfannau rhanbarthol yn Lloegr, fel rhan o fasnachfraint ehangach y DU.
- Trussell (DU gyfan) – yn gweithredu rhwydwaith cenedlaethol o fanciau bwyd sy'n darparu cymorth bwyd brys.
- His Church (DU gyfan) – yn dosbarthu bwyd, dillad, eitemau cartref a chynhyrchion hylendid dros ben i 3,000 o elusennau ledled y byd.
- The Bread-and-Butter Thing (gogledd-ddwyrain, gogledd-orllewin) – yn ailddosbarthu bwyd dros ben i 131 o glybiau bwyd symudol yn Lloegr.
- Plan Zheroes (Llundain) – yn cysylltu busnesau sydd â bwyd dros ben ac eitemau nad ydynt yn fwyd ag elusennau lleol trwy blatfform ar-lein
- The Felix Project (Llundain) – rhan o Rwydwaith FSUK sy'n gweithredu gweithrediadau FS yn Llundain. Mae'r sefydliad yn achub bwyd dros ben ac yn ei ddosbarthu i dros 600 o elusennau, ysgolion a grwpiau cymunedol. Community Shop (Swydd Efrog, Canolbarth Lloegr, gogledd-ddwyrain, gogledd-orllewin, de-ddwyrain) – yn rhedeg 13 o archfarchnadoedd cymdeithasol am ddim i bobl sy'n byw gerllaw ac sy'n gymwys i gael budd-dal sy'n seiliedig ar brawf modd.
- UK Harvest (De-ddwyrain, De-orllewin, Llundain) – yn achub bwyd darfodus ac yn gweithredu 16 o Hybiau Bwyd Cymunedol sy'n cynnig bwyd fforddiadwy a dosbarthiadau coginio.
- Food Cycle (Llundain, De-orllewin, Gogledd-orllewin, Canolbarth Lloegr Dwyrain Anglia, Gogledd-ddwyrain) - yn cynnal digwyddiadau cymunedol i goginio a gweini bwyd a roddir i'r rhai mewn angen ledled y DU.
- The Real Junk Food Project (Gorllewin Swydd Efrog, Birmingham, De-ddwyrain Lloegr) – yn ailddosbarthu bwyd sydd wedi mynd heibio i'w

[69] Defra, '[Food and drink waste hierarchy: deal with surplus and waste',](#) Ionawr 2024

ddyddiad dod i ben ac yn ei weini mewn caffis 'Talu yn ôl eich dymuniad'.
- Sustainable Food Places – 100 o bartneriaethau bwyd lleol yn Lloegr, yn adleoli bwyd dros ben i fwydo'r rhai mewn angen.
- Fareshare GO (DU gyfan)
- Olio (DU gyfan) - platfform cyfoedion i gyfoedion
- Neighbourly (DU gyfan) - platfform cyfoedion i gyfoedion

**Modelau masnachol**

- The Company Shop Group (Swydd Efrog, gogledd-ddwyrain, gogledd-orllewin, canolbarth Lloegr, de-orllewin) – yn rhedeg rhwydwaith o archfarchnadoedd ailddosbarthu bwyd ledled y DU. Mae'r model aelodaeth am ddim yn caniatáu i'r gwasanaethau brys, gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a'r rhai sy'n gweithio mewn nwyddau defnyddwyr sy'n symud yn gyflym brynu bwyd am hyd at 60% oddi ar bris manwerthu.
- Rogers wholesale foods (gogledd orllewin, de orllewin) – yn prynu bwyd a diod dros ben (heibio'r dyddiadau gorau cyn) gan fanwerthwyr a gweithgynhyrchwyr i'w gwerthu am brisiau gostyngol i'r cyhoedd.
- Waste Knot (DU gyfan) - marchnad i ffermwyr gyflenwi llysiau anffurf a dros ben i gyfanwerthwyr, cogyddion ac arlwywyr yn uniongyrchol.
- Too Good to Go (DU gyfan) - platfform cyfoedion i gyfoedion

**Modelau sy'n dod i'r amlwg**

- Gleaning Network (DU gyfan) – cynaeafu ffrwythau a llysiau dros ben yn uniongyrchol o ffermydd i elusennau
- Yn benodol, mae mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o rwydweithiau casglu fel hyn yn dangos cyfleoedd i gasglu bwyd dros ben yn ystod y cam pacio (sydd hefyd yn darparu llwybr mwy hygyrch i wirfoddolwyr, o'i gymharu ag 'ar y fferm')
- Cyfleoedd i ymyrryd i leihau milltiroedd bwyd drwy fanteisio ar le nas defnyddir mewn rhwydweithiau trafnidiaeth presennol

- Felix's Multibank – yn adeiladu ar waith ailddosbarthu bwyd presennol yr elusen, yn cyflenwi eitemau nad ydynt yn fwyd fel clytiau, pethau ymolchi, nwyddau glanhau a dillad gwely. Cefnogwyd yn flaenorol yng Nghymru gan FSC.

**Yr Alban**

**Gyrwyr / targedau polisi**

- Llofnodwr Cytundeb Bwyd a Diod y DU
- Economi gylchol yr Alban a map llwybr gwastraff hyd at 2030[70]
- Targed i leihau gwastraff bwyd fesul person yn yr Alban i 33% erbyn 2025, o'i gymharu â llinell sylfaen 2013[71]
- National Good Food Nation Plan[72]
- Cash-First - towards ending the need for food banks in Scotland: plan[73]
- Adrodd gorfodol ar wastraff bwyd (ymgynghoriad yn cael ei ystyried)[74]

**Modelau elusennol a di-elw**

- FareShare Scotland – pedair canolfan ddosbarthu ranbarthol yn yr Alban. Yn cefnogi prosiectau gwasanaeth bwyd allweddol fel:
    - Rhwydwaith pantrïau yn yr Alban o 21 aelod bantri ar draws 8 ardal awdurdod lleol.
    - Cynlluniau ailddosbarthu bwyd hyperleol gan gynnwys oergelloedd a phantrïau.
- Trussell Scotland – yn gweithredu rhwydwaith o 43 o fanciau bwyd yng nghymuned Trussell yn yr Alban.
- Olio - Platfform cyfoedion-i-gyfoedion

[70] Llywodraeth yr Alban, 'Scotland's circular economy and waste route map to 2030', 18fed Rhagfyr 2024
[71] Llywodraeth yr Alban, 'Food waste reduction: action plan', 24ain Ebrill 2019
[72] Llywodraeth yr Alban,'National Good Food Nation Plan', 24ain Ionawr 2024
[73] Llywodraeth yr Alban, 'Cash-First - towards ending the need for food banks in Scotland: plan', 5ed Mehefin 2024
[74] Josh Doherty, 'Scotland in plans to mandate food waste reporting and 'modernise' recycling', 19eg Ionawr 2024

- Neighbourly - platfform cyfoedion i gyfoedion Yn yr Alban maen nhw'n partneru â'r Gwasanaeth Gwirfoddoli Gwydnwch Cymunedol i gasglu bwyd dros ben o archfarchnadoedd a'i ddosbarthu i bobl mewn angen ledled yr Alban.

**Modelau masnachol**

- Company Shop – cangen Renfrew
- Too Good to Go - platfform cyfoedion i gyfoedion

**Modelau sy'n dod i'r amlwg**

- Gleaning Network (Dundee) – cynaeafu ffrwythau a llysiau dros ben yn uniongyrchol o ffermydd i elusennau

**Gogledd Iwerddon**

**Gyrwyr / targedau polisi**

- Llofnodwr Cytundeb Bwyd a Diod y DU
- Northern Ireland Food Strategy Framework[75].
- Waste Management Strategy[76]

**Modelau elusennol a di-elw**

- FareShare Gogledd Iwerddon – yn gweithredu fel prosiect Homeless Connect, gan gefnogi 172 o brosiectau elusennol ledled y wlad.
- Cynlluniau ailddosbarthu bwyd hyperleol – yn cynnwys mentrau fel oergell gymunedol Tîm Gweithredu Cymunedol Cloughmills.
- Olio - Platfform cyfoedion i gyfoedion; yng Ngogledd Iwerddon, mae'n partneru â Northern Ireland Screen i ailddosbarthu bwyd dros ben o gynyrchiadau ffilm a theledu i deuluoedd lleol.
- Neighbourly - platfform cyfoedion i gyfoedion

[75] DAERA, 'Northern Ireland Food Strategy Framework', Gorffennaf 2021
[76] DAERA, 'Northern Ireland Waste Management Strategy', 2013

**Modelau masnachol**

- Too Good to Go - platfform cyfoedion i gyfoedion

**Modelau ariannu a chefnogaeth**

Ochr yn ochr ag adolygu modelau dosbarthu allweddol, roedd y gwerthusiad hefyd yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid polisi yn Lloegr ac ar draws y gwledydd datganoledig, er mwyn casglu mewnwelediadau i sut mae'r sector ailddosbarthu wedi cael ei gefnogi yn y gorffennol.

### Lloegr

Yn Lloegr, mae ailddosbarthu bwyd dros ben wedi'i yrru gan y farchnad, gydag arian yn cael ei ddarparu'n bennaf drwy fentrau dan arweiniad WRAP a chynlluniau grant cystadleuol a gefnogir gan Defra. Ers 2017, mae Lloegr wedi cyflwyno amryw o gynlluniau i gryfhau seilwaith trafnidiaeth, storio a logisteg ar gyfer ailddosbarthu gan gynnwys:

- Cronfa Lleihau Gwastraff Bwyd 2017 i 2018 – £500,000 i gynorthwyo sefydliadau dielw yn Lloegr i ailddosbarthu bwyd dros ben o fusnesau i'r rhai mewn angen[77]. Dyfarnwyd grantiau rhwng £20,000 a £75,000 ar gyfer prosiectau peilot a oedd â'r nod o atal gwastraff bwyd[78].
- Resource Action Fund (RAF) 2019 i 2020[79] – £18 miliwn i gefnogi prosiectau effeithlonrwydd adnoddau ar draws gwahanol sectorau, gan gynnwys bwyd, plastigau, tecstilau, a seilwaith ailgylchu. Wedi'i weinyddu gan WRAP, roedd y RAF yn anelu at ddargyfeirio, lleihau a rheoli gwastraff yn well trwy grantiau mawr a bach.[80].
- Grant Bwyd Dros Ben Brys COVID-19 – rhan o'r RAF, cyflwynwyd y grant hwn i helpu ailddosbarthwyr bwyd i ehangu eu gweithrediadau yn ystod y pandemig.

Yn fwyaf diweddar, cyhoeddodd Defra gynllun gwerth £15 miliwn ym mis Rhagfyr 2024, i gynyddu mynediad at fwyd dros ben ar lefel y fferm, lle mae tua 330,000

[77] Defra, 'Action to reduce food waste announced', 1af Hydref 2018
[78] WRAP, 'Food Waste Reduction Fund' 2018
[79] Derbyniodd LIC symiau canlyniadol o'r gronfa hon ond ni chafodd ei ddefnyddio at yr un diben gan nad oedd wedi'i neilltuo.
[80] WRAP, Resource Action Fund Summary Report, 5ed Gorffennaf 2022

tunnell o fwyd dros ben bwytadwy ar gael yn flynyddol.[81]. Datblygwyd y cynllun mewn ymateb i drafodaethau parhaus o fewn y sector, gan dynnu sylw at yr heriau y mae ailddosbarthwyr bwyd yn eu hwynebu wrth gael mynediad at fwyd dros ben o ffermydd. Drwy gryfhau seilwaith a chapasiti ailddosbarthu, nod yr arian yw atal bwyd rhag cael ei ddargyfeirio i fwyd anifeiliaid, treulio anaerobig, neu waredu, gan sicrhau bod mwy yn cyrraedd pobl mewn angen.

Er bod arian gan y llywodraeth yn y gorffennol wedi cefnogi seilwaith a meithrin capasiti, nid yw Defra ar hyn o bryd yn darparu cymorth ariannol uniongyrchol i sefydliadau ailddosbarthu unigol. Yn hytrach, caiff arian ei sianelu drwy'r Grŵp Gwaith Ailddosbarthu dan arweiniad WRAP, sy'n hwyluso cydweithio a datblygu polisïau. Yn ogystal, mae canolfannau ailddosbarthu FSUK yn Lloegr yn derbyn arian ychwanegol ar lefel fwy lleol trwy eu hawdurdod lleol. Mae cyfweliadau â rhanddeiliaid polisi yn Lloegr yn awgrymu y gallai adrodd gorfodol ar wastraff bwyd, sy'n wirfoddol ar hyn o bryd, gynyddu argaeledd gormodol ymhellach drwy annog busnesau i ddilyn yr hierarchaeth gwastraff bwyd. Awgrymodd cyfweliadau â rhanddeiliaid polisi, wrth edrych ymlaen, fod trafodaethau polisi yn parhau i ganolbwyntio ar atal gwastraff fel y flaenoriaeth hirdymor, gydag ailddosbarthu yn chwarae rhan gefnogol wrth reoli bwyd dros ben na ellir ei osgoi.

### Yr Alban

Yn yr Alban, mae arian ar gyfer ailddosbarthu bwyd dros ben wedi canolbwyntio ar adeiladu capasiti, yn enwedig mewn storio a logisteg i fynd i'r afael â heriau wrth drin nwyddau darfodus. Tynnodd rhanddeiliaid polisi yn yr Alban sylw at gyfyngiadau storio oer fel rhwystr allweddol, gan gyfyngu ar allu darparwyr bwyd cymunedol i dderbyn a dosbarthu bwyd dros ben yn effeithiol. O ganlyniad, dim ond tua 5% o'r bwyd dros ben a gynhyrchir yn yr Alban sy'n aros yn y wlad, gyda llawer ohono'n cael ei ailddosbarthu i rywle arall oherwydd cyfyngiadau ar y gadwyn gyflenwi a'r seilwaith.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi darparu arian uniongyrchol drwy FareShare Scotland:

- 2022 i 2023 – £150,000 drwy Gronfa SWP i gefnogi ailddosbarthu bwyd dros ben o ffermydd.

[81] Defra, '£15 million to help charities get spare produce to those in need' 27ain Rhagfyr 2024

- 2024 i 2025 – Hyd at £315,000 i helpu aelodau i ddod o hyd i fwyd dros ben a'i ddosbarthu, gan flaenoriaethu cymunedau incwm isel ac sydd wedi'u hynysu'n ddaearyddol.
- Zero Waste Scotland (ZWS) – drwy Gronfa Oergelloedd Cymunedol gwerth £55,000 i ehangu storfa oer a gwella ailddosbarthu bwyd dros ben, tra hefyd yn darparu canllawiau diogelwch a hylendid bwyd i sefydliadau sy'n trin bwyd dros ben[82].
- Cefnogodd Fair Food Transformation Fund, a gyflwynwyd yn 2019, 34 o fentrau bwyd lleol ymhellach, gyda rhai yn ymgorffori ailddosbarthu bwyd dros ben yn eu gweithrediadau.

Mae'r adolygiad o bolisi ailddosbarthu yn yr Alban yn awgrymu bod yr Alban yn blaenoriaethu ailddosbarthu bwyd fel ymateb i ansicrwydd bwyd, yn hytrach na chyfrannwr at leihau gwastraff bwyd a gwydnwch yn erbyn newid hinsawdd. Mae eu dull o roi arian yn gyntaf[83] yn anelu at roi cymorth ariannol uniongyrchol i unigolion, gan ganiatáu iddynt brynu bwyd yn seiliedig ar eu hanghenion a'u dewisiadau eu hunain, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar ailddosbarthu bwyd dros ben. Mae'r dull hwn yn ceisio gwella urddas, dewis a hyblygrwydd wrth leihau dibyniaeth ar gymorth bwyd. Mae ailddosbarthu bwyd dros ben yn parhau i fod yn fecanwaith cefnogol yn hytrach nag yn ateb sylfaenol.

### Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, mae arian ar gyfer ailddosbarthu bwyd dros ben wedi canolbwyntio'n yr un modd ar adeiladu capasiti, gan gynnwys storio oer, logisteg, a seilwaith warysau. Tynnodd rhanddeiliaid polisi sylw at yr heriau o ran sicrhau bwyd bwytadwy dros ben yn gyson, gyda chyfnodau uchel ac isel o ran argaeledd yn gofyn am reolaeth weithredol. Yn wahanol i wledydd eraill y DU, nid yw ailddosbarthu bwyd dros ben ar ffermydd wedi derbyn arian gan y llywodraeth. Mae'r Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) wedi darparu arian wedi'i dargedu i FareShare Gogledd Iwerddon (FSNI), gan gynnwys:

- 2019 i 2020 – £22,000 i ehangu storfa oer a £27,000 ychwanegol ar gyfer seilwaith warws adferol ar gais iechyd yr amgylchedd.

[82] Zero Waste Scotland, 'Community Fridge Fund', 2024
[83] Public Health Scotland, 'What can community food initiatives do to support cash first approaches to food insecurity?', 20fed Chwefror 2024

- 2021 i 2022 – £20,000 i gefnogi cydlynydd ffynonellau bwyd, er bod heriau recriwtio wedi arwain at ailddyrannu rhywfaint o arian.
- 2022 i 2023 – £6,000 ar gyfer gwelliannau i brosesau warws, gan gynnwys technoleg, offer diogelwch, a chamerâu fan.

Yn ystod COVID-19 (2021 i 2023), darparodd yr Adran Cymunedau arian ychwanegol i FSNI i brynu bwyd i'w ailddosbarthu, gan gefnogi cymunedau agored i niwed y tu hwnt i gynhyrchion dros ben yn unig. Fodd bynnag, yn debyg i Loegr, mae arian Gogledd Iwerddon wedi cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith yn bennaf yn hytrach na chostau gweithredol parhaus ar gyfer FSNI.

### Casgliad

At ei gilydd, mae gweithgareddau ailddosbarthu bwyd dros ben yn y gwledydd datganoledig yn ymddangos yn llai amrywiol nag yn Lloegr – fodd bynnag, mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei ddylanwadu gan feintiau poblogaeth llai a graddfa weithredol lai. Yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, mae ailddosbarthu yn dilyn model mwy canolog, gyda FareShare fel y prif ailddosbarthwr, gyda chefnogaeth sefydliadau lleol a rhwydweithiau partneriaid.

Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae arian y llywodraeth wedi canolbwyntio'n bennaf ar adeiladu capasiti i wella effeithlonrwydd ailddosbarthu. Yn yr un modd, canolbwyntiodd yr arian Trechu Tlodi a ddyrannwyd i FSC ar fuddsoddiadau annibynnol gan gynnwys seilwaith ac offer ar gyfer FSC ac aelodau megis mwy o storfa oer i gefnogi FSC i adeiladu eu capasiti.

Mewn cyferbyniad, mae model ariannu Lloegr yn seiliedig ar heriau, gan ddefnyddio cynlluniau grant cystadleuol i annog atebion sy'n cael eu gyrru gan y farchnad ar gyfer ailddosbarthu bwyd ac atal gwastraff. Mae'r dull hwn yn wahanol i'r gefnogaeth fwy uniongyrchol sy'n canolbwyntio ar seilwaith a welir yn y gwledydd datganoledig.

## 7. Cynaliadwyedd parhaus ailddosbarthu yng Nghymru ac opsiynau ar gyfer y dyfodol

Mae'r bennod hon o'r adroddiad yn archwilio sut mae hunangynhaliaeth FSC wedi esblygu dros amser, rôl grant FSC wrth ddatblygu tirwedd ailddosbarthu cynaliadwy yng Nghymru, yn ogystal â chyfleoedd yn y dyfodol a chefnogaeth ehangach sydd ei hangen i fynd i'r afael â bwyd a wastreffir ac ansicrwydd bwyd. Mae'r bennod yn ystyried effeithiau'r grant ar y sector ailddosbarthu bwyd yn gyntaf, cyn cynaliadwyedd model gweithredol FSC ei hun.

Mae'r bennod hon yn mynd i'r afael â **Nod Ymchwil 4**: 'Ystyried i ba raddau y mae arian grant wedi galluogi FSC i ddatblygu cynaliadwyedd ei weithrediadau ac archwilio cyfleoedd yn y dyfodol i wella cynaliadwyedd y sector ailddosbarthu'.

### Cyfleoedd i Lywodraeth Cymru gefnogi ailddosbarthu yng Nghymru

Mae'r adran hon yn ystyried rôl y grant FSC a'i effaith ar y sector ailddosbarthu yn ei gyfanrwydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dargedau uchelgeisiol o ran lleihau gwastraff bwyd; gan osod targed o 50% erbyn 2025, a 60% erbyn 2030. Ar hyn o bryd, mae targed Llywodraeth Cymru yn berthnasol i wastraff bwyd ym mhob sector ar ôl giât y fferm. Yn y cyfamser, datblygodd WRAP gyfres o gamau gweithredu a argymhellir yn ei Map Llwybr Gwastraff Bwyd Cymru[84] wedi'i gynllunio i herio Llywodraeth Cymru i ystyried ymyriadau i fynd i'r afael â gwastraff bwyd ar draws y gadwyn gyflenwi yn unol â thargedau presennol Llywodraeth Cymru.

Mae tystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu nad yw Cymru 'ar y trywydd iawn' i gyrraedd ei tharged ar gyfer 2025,[85] ac mae WRAP wedi pwysleisio pwysigrwydd defnyddio dulliau rhagweithiol, gan sicrhau bod ymyriadau a gymhwysir yn bellgyrhaeddol ac yn effeithiol. Yn unol â hyn, mae'r adroddiad gwerthuso hwn yn cefnogi argymhelliad WRAP y dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r gofynion adrodd ar wastraff bwyd ac archwilio cymhellion ar gyfer rhoi bwyd dros ben. Byddai'r mesurau hyn yn helpu i sicrhau bod ailddosbarthu yn

[84] WRAP, 'Map Llwybr Gwastraff Bwyd Cymru | WRAP', 2023
[85] WRAP 'Diweddariad Cynnydd y Map Llwybr Lleihau Gwastraff Bwyd 2024' (data 2023), 2024

parhau i fod yn opsiwn a ffefrir dros lwybrau gwaredu gwerth is, gan ddarparu gwell goruchwyliaeth o argaeledd bwyd dros ben. Yn ogystal, mae WRAP yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau y gall modelau ailddosbarthu addasu i newidiadau mewn ymdrechion atal gwastraff bwyd – gan atgyfnerthu'r angen am gynllunio cynaliadwyedd tymor hwy ar gyfer aelodau a sefydliadau ailddosbarthu yng Nghymru.

Mae ymddangosiad a datblygiad partneriaethau bwyd awdurdodau lleol yng Nghymru yn debygol o ehangu cyfleoedd ar gyfer perthnasoedd uniongyrchol rhwng darparwyr bwyd cymunedol a chyflenwyr lleol. Dros amser, gallai hyn leihau'r ddibyniaeth ar fodelau ailddosbarthu canolog, fodd bynnag mae lefelau galw presennol yn awgrymu y byddai hyn yn helpu i wrthbwyso'r diffyg presennol mewn darpariaeth, yn hytrach na lleddfu'r angen am gefnogaeth FSC.[86].

Disgwylir i dirwedd reoleiddio well ar gyfer adrodd ar wastraff bwyd yn seiliedig ar gyflwyno adrodd ar wastraff bwyd gorfodol i fusnesau gynnal tuedd ar i fyny mewn bwyd bwytadwy dros ben yn y tymor byr, gan dynnu sylw at bwysigrwydd sefydliadau ailddosbarthu fel FSC, a all:

- addasu'n gyflym ac ar raddfa fawr i 'achub' bwyd bwytadwy dros ben
- paru'r bwyd dros ben cynyddol â chymunedau a fydd yn elwa fwyaf ohono
- manteisio ar arian o ffynonellau eraill a defnyddio cronfeydd yn effeithiol ac yn effeithlon

O safbwynt diogelwch bwyd a gwydnwch cymunedol, mae dull cyfun o gaffael bwyd (rhwng ailddosbarthu bwyd dros ben yn ganolog a pherthnasoedd uniongyrchol â chyflenwyr lleol) yn parhau i fod yn ffafriol i randdeiliaid polisi a llawer o ddarparwyr bwyd fforddiadwy. Mae hyn yn helpu i sicrhau cysondeb o ran bwyd bwytadwy dros ben a dderbynnir ac yn galluogi darparwyr bwyd cymunedol i gynnig ystod ehangach o gynnyrch i aelodau sy'n fwy addas ar gyfer anghenion maethol. Mae darparwyr bwyd cymunedol sy'n cyrchu eu cynnyrch o ystod o ffrydiau cyflenwi yn debygol o fod yn fwy cynaliadwy ac yn llai agored i fygythiadau diogelwch bwyd, y disgwylir iddynt gynyddu o ganlyniad i newid hinsawdd a gostyngiad mewn diogelwch bwyd rhyngwladol.

[86] Mae FSC yn nodi, er enghraifft, eu rôl weithredol wrth gefnogi partneriaethau bwyd lleol

Tra bod Trussell[87] ac ymgyrchoedd tlodi bwyd eraill yn gobeithio dileu'r angen am fanciau bwyd yn llwyr yn y DU, mae modelau ailddosbarthu yn darparu ateb tymor hwy ar gyfer lefel anochel o gynnyrch dros ben yn y system fwyd ddiwydiannol bresennol. Os bydd lefelau tlodi bwyd yn dechrau gostwng yng Nghymru (yn unol ag uchelgeisiau polisi cenedlaethol a'r DU), gallai modelau cylchol barhau i ddarparu manteision amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd yn y tymor hir, drwy atal gwastraff bwyd a chynnig opsiynau prynu â chymhorthdal i gymunedau.  Er mwyn cefnogi lleihau gwastraff bwyd ac ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben ar lefel strategol, argymhellir ffocws mwy ar yr effaith amgylcheddol, ac effeithiau anfwriadol y dyfarniad grant.

**Cryfhau effaith amgylcheddol**

Y prif gyfraniad amgylcheddol o fodelau ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben yw lleihau'r gwastraff bwyd sy'n mynd i'w waredu, a'r arbedion cysylltiedig mewn allyriadau carbon. Er bod cyfaint y bwyd bwytadwy dros ben sy'n cael ei ailddosbarthu yn y DU wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf[88], mae lefelau gwastraff bwyd cyffredinol yn parhau i fod yn uchel. Er gwaethaf cynyddu ymdrechion ailddosbarthu fel FSC, mae archfarchnadoedd y DU yn dal i gynhyrchu tua 240,000 tunnell o wastraff bwyd bob blwyddyn. Ar ben hynny, mae The Grocer yn adrodd[89] bod archfarchnadoedd yn y DU yn dal i daflu 100,000 tunnell o fwyd bwytadwy bob blwyddyn, gyda dim ond 9% o wastraff bwyd o archfarchnadoedd yn cael ei bodi fel bwyd sy'n cael ei roi i elusennau. Mae ffynonellau o'r fath yn tynnu sylw at y ffaith bod y DU wedi gwneud cynnydd cyfyngedig yn gyffredinol o ran ymdrechion i leihau gwastraff bwyd, yn benodol wrth liniaru gwastraff bwyd archfarchnadoedd.  Os yw ailddosbarthu ar ôl cyrraedd silffoedd archfarchnadoedd yn aneffeithiol, mae hyn yn awgrymu y bydd angen i ymyrraeth ddechrau'n agosach at y ffynhonnell, gan osod bwyd bwytadwy dros ben fel methiant yn y farchnad. Isod rydym yn crynhoi ystyriaethau a allai wella cynaliadwyedd cyffredinol ymdrechion ailddosbarthu bwyd yng Nghymru.

### 'Ailddosbarthu mwy gwyrdd'

[87] Ending hunger together | Trussell
[88] Adroddodd WRAP gynnydd o 27% mewn bwyd dros ben yn 2022, o'i gymharu â 2021.
[89] Business Waste, 'Food Waste 2025 – the facts', 2025

Er mwyn goresgyn diffygion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd hirdymor ymdrechion ailddosbarthu bwyd dros ben, mae lleihau effaith carbon sianeli ailddosbarthu yn opsiwn i'w archwilio ymhellach. Byddai hyn yn gofyn am leihau allyriadau trafnidiaeth drwy roi cymhorthdal i ddefnyddio cerbydau trydan a mynd i'r afael â materion trwyddedu cysylltiedig, prif ffrydio oeri a storio oer sy'n effeithlon o ran ynni, a sefydlu canolfannau dosbarthu rhanbarthol i leihau milltiroedd trafnidiaeth ychwanegol. Fodd bynnag, byddai angen cydbwyso'n ofalus y costau a achosir drwy ailddosbarthu 'mwy gwyrdd' yn erbyn trywydd hirdymor y dirwedd. Mae defnyddio cerbydau trydan yn y cyd-destun hwn, er enghraifft, yn gymhleth, gan fod y cerbydau sy'n debygol o fod yn addas yn wynebu amodau trwyddedu penodol oherwydd eu maint a'u pwysau. Os bydd bwyd bwytadwy dros ben yn lleihau wrth i gynhyrchwyr gyflwyno mesurau ac effeithlonrwydd newydd – efallai na fydd costau cychwynnol uwch datgarboneiddio seilwaith yn rhoi'r enillion dymunol ar fuddsoddiad.
Er bod ymdrechion i leihau gwastraff bwyd wrth y ffynhonnell yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol, maent hefyd yn cyflwyno paradocs i fodelau ailddosbarthu fel FSC, sy'n dibynnu ar argaeledd gormodol. Wrth i fwyd dros ben leihau, rhaid dod o hyd i gydbwysedd rhwng cyflawni effeithlonrwydd yn y gadwyn gyflenwi a sicrhau diogelwch bwyd i'r rhai mewn angen.

## Ehangu'r ffocws y tu hwnt i fwyd dros ben

Ystyrir mai arfer gorau yw nodi pwyntiau ymyrraeth gynharach yn y gadwyn gyflenwi a rhoi cymhellion i ganolbwyntio ar atal yn hytrach nag ailddosbarthu. Byddai cefnogi amrywiaeth o ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i leihau gwastraff ar bob lefel o'r hierarchaeth yn cynnig opsiwn hirdymor mwy cyfannol, er ei bod hi'n bwysig nodi y gallai'r mesurau hyn beryglu effeithiau ar gyfer trechu tlodi. Gellid monitro llwyddiant y rhwydweithiau casglu[90] ledled y DU i ddeall effeithiau'n well, pan gaiff bwyd dros ben ei gynaeafu'n agosach at y ffynhonnell. Ar hyn o bryd mae FSC yn archwilio cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gweithgaredd casglu. Nododd rhanddeiliad polisi fod datblygiadau mewn casglu bwyd bwytadwy wedi rhoi cipolwg newydd ar gyfleoedd i gasglu bwyd bwytadwy dros ben yn fwy effeithlon yn ystod y cam pecynnu (a nodwyd yn y disgrifiad o

[90] Mae casglu yma yn cyfeirio at y weithred o gasglu cnydau dros ben neu gnydau gormodol yn y cae ar ôl y cynhaeaf.

dirwedd ailddosbarthu bwyd Lloegr – tabl isod 6.5), yn ogystal â chyfleoedd i wneud y gorau o le storio mewn rhwydweithiau trafnidiaeth presennol. Byddai meithrin perthynas â busnesau pecynnu a dosbarthu, yn ogystal â rhwydweithiau trafnidiaeth lleol, yn hanfodol yma a gellid ei gefnogi gan ddatblygiad parhaus partneriaethau bwyd.

### Tirwedd reoleiddiol

Yn gysylltiedig â'r uchod, disgwylir i'r dirwedd reoleiddiol sy'n datblygu gyflwyno newidiadau o ran swm ac ansawdd y bwyd bwytadwy dros ben sydd ar gael yn y blynyddoedd i ddod. Bydd angen i ffrydiau ariannu yn y dyfodol sicrhau bod ymdrechion ailddosbarthu yn cyfrannu at ystod ehangach o dargedau cynaliadwyedd, y tu hwnt i dunelledd a ddargyfeirir o wastraff i ailddosbarthu. Er mwyn gwella effaith, gall ymgysylltu parhaus a rhagweithiol â busnesau hefyd helpu i ysgogi rhoddion. Mae gan hyn y potensial i gynnig nifer o fanteision, gan fod busnesau'n cael eu cefnogi i gyrraedd eu targedau gwahanu a lleihau gwastraff, ac mae ansawdd gwell bwyd bwytadwy dros ben yn darparu ystod ehangach o opsiynau defnydd i ddarparwyr bwyd cymunedol (gan liniaru ymhellach y risg o waredu ar y pwynt derbyn, lle na ellir defnyddio cynnyrch).

## Cynaliadwyedd model gweithredu FSC yng Nghymru

Ers 2015, mae data monitro a chyfweliadau gydag FSC yn dangos bod grant FSC wedi chwarae rhan allweddol wrth alluogi FSC i ehangu a chynnal ei gweithrediadau fel elusen ailddosbarthu yng Nghymru. Wrth i weithgareddau FSC dyfu o ran maint a chymhlethdod, mae'r elusen wedi gweithio i gryfhau ei gwydnwch, gan leihau ei dibyniaeth ar arian cyhoeddus wrth arallgyfeirio ffrydiau incwm.

### Effaith arian grant FSC

Mae Grant FSC wedi galluogi datblygiadau sylweddol o ran adeiladu capasiti ar gyfer FSC – fel y manylir ym Mhennod 4. Drwy ddyrannu arian i gefnogi rheolaeth well o'r sefydliad yng Nghymru, yn ogystal â datblygu gwirfoddolwyr a seilwaith i gefnogi cyfeintiau cynyddol o fwyd bwytadwy dros ben, mae FSC wedi gallu ehangu ei gyrhaeddiad a'i aelodaeth. Fodd bynnag, mewn cyfweliadau, mae FSC wedi nodi bod cydbwyso ehangu ag effeithlonrwydd gweithredol wedi

bod yn her barhaus, yn enwedig gan fod graddfa'r galw yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael.

O ran cynaliadwyedd cymdeithasol ac arian gan gyllideb Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, mae defnyddio'r grant ar gyfer meithrin capasiti yn adlewyrchu dull cynaliadwy. Mae gwella strwythur sefydliadol FSC (recriwtio rolau strategol, gwella partneriaethau a datblygu prosesau sefydliadol), yn ogystal â chyflawni eu hachrediad Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr, Achrediad Cyflogwr Cyflog Byw ac achrediad Hanfodion Seiber, i gyd yn fesurau sy'n cynnal model y gweithrediad. Mae hyn yn cryfhau gwydnwch sefydliadol ar gyfer FSC, gan eu galluogi i liniaru heriau sy'n wynebu sefydliadau'r trydydd sector fel arfer, megis cyflog isel endemig a diffyg buddsoddiad mewn seilwaith.

Yn eu tro, mae'r effeithiau cymdeithasol a archwiliwyd yn y gwerthusiad hwn (trwy Benodau 4 – gweithgareddau, a 5 – canlyniadau i aelodau a chymunedau) yn dangos bod FSC yn llwyddiannus yn cefnogi gwasanaethau grwpiau cymunedol ledled Cymru, sy'n defnyddio bwyd bwytadwy dros ben fel sail i'w darpariaeth bwyd elusennol. Fodd bynnag, mae heriau o ran hygyrchedd bwyd a chyfyngiadau ar ddosbarthu'r filltir olaf yn parhau i effeithio ar effeithlonrwydd ailddosbarthu, fel yr amlinellwyd yn flaenorol.

Mae angen ymchwilio ymhellach i gynaliadwyedd amgylcheddol gweithrediad FSC, er mwyn ystyried effeithiau ailddosbarthu ar gam olaf y gadwyn gyflenwi. Mae'r ymchwil hwn yn awgrymu, oherwydd y galw a'r anghenion uchel yng nghymunedau Cymru, y gallai fod yn heriol blaenoriaethu adnoddau ar gyfer dull ailddosbarthu mwy cynaliadwy wrth gyflawni cyfrifoldebau i fuddiolwyr.

Ar yr un pryd, canfu gwaith maes fod dibyniaeth gynyddol ar ailddosbarthu bwyd dros ben ymhlith aelodau, gan greu risg tymor hwy pe bai lefelau gwastraff bwyd yn gostwng yn unol ag uchelgeisiau polisi. Mae cyfweliadau â rhanddeiliaid yn y sector ailddosbarthu bwyd wedi awgrymu, wrth i fanwerthwyr a chyflenwyr weithredu gwell effeithlonrwydd, y gallai cyfaint a chyfansoddiad y bwyd dros ben sydd ar gael i'w ailddosbarthu leihau. Os bydd hyn yn digwydd heb ehangu modelau cymorth bwyd amgen ar yr un pryd, efallai y bydd llawer o aelodau – yn enwedig y rhai heb ffrydiau cyflenwi ychwanegol – yn ei chael hi’n anodd cynnal eu darpariaeth.

### Asesu cynaliadwyedd ariannol FSC dros amser

Mae FSC hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at fodel ariannol mwy gwydn dros y 4 blynedd diwethaf. Yn 2019 i 2020, cynhwyswyd monitro hunangynhaliaeth rhagamcanedig FSC fel amod ffurfiol o arian grant FSC – amcangyfrifir hyn ar hyn o bryd fel cyfran incwm FSC a gynhyrchir yn annibynnol ar grant FSC. Bryd hynny, amcangyfrifwyd bod hunangynhaliaeth FSC yn 44% yn ne-ddwyrain Cymru ac Abertawe. Erbyn 2023 i 2024, roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i 65%, gan adlewyrchu gwelliant o 21% dros 4 blynedd mewn perthynas â de-ddwyrain Cymru ac Abertawe (Ffigur 7.1). Yn 2023 i 2024, adroddodd FSC hefyd eu bod wedi cyflawni hunangynhaliaeth o 30% yng ngogledd Cymru. Adroddodd staff FSC fod y newid hwn wedi'i yrru gan gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys buddsoddiadau strategol yng nghapasiti'r gweithlu, oriau gweithredu estynedig – gan gynnwys agoriadau ychwanegol ar benwythnosau a gwyliau banc – effeithlonrwydd llwybrau gwell, ac uwchraddio seilwaith.

Mae dadansoddiad o ddata ariannol y Comisiwn Elusennau yn dangos ymhellach, rhwng 2019 i 2020 a 2023 i 2024, fod incwm FSC[91] wedi tyfu ar gyfradd twf blynyddol gyfansawdd gadarnhaol o 3.3 y cant. Mae'r ffigur hwn yn ystyried amrywiadau naturiol mewn incwm ar draws blynyddoedd penodol, oherwydd cylchoedd ariannu allanol. Yn 2022 i 2023, er enghraifft, gostyngodd cyfanswm incwm FSC tua 14% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd ychwanegu Grant Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd gwerth £500,000 yn 2021 i 2022. Defnyddiwyd hwn i brynu bwyd ychwanegol yn ystod cyfnod o ansefydlogrwydd yn y gadwyn gyflenwi bwyd bwytadwy dros ben, yn ogystal â rheoli'r galw cynyddol am gymorth o ganlyniad i'r cynnydd mewn costau byw. Er gwaethaf y gostyngiad hwn yng nghyfanswm yr incwm, llwyddodd FSC i gynyddu hunangynhaliaeth 7 pwynt canran y flwyddyn honno, o 58% i 65%.

Er bod dibyniaeth gymharol ar y grant FSC wedi lleihau – gan gyfrif am 9 pwynt canran yn llai o gyfanswm yr incwm yn 2023 i 2024 nag yn y flwyddyn flaenorol – adroddir bod costau gweithredol cynyddol ar gyfer FSC yn cyflwyno heriau parhaus. Yn ôl rhanddeiliaid FSC, mae costau tanwydd wedi codi'n sydyn, mae premiymau yswiriant faniau wedi treblu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae

[91] Yn cynnwys pob ffynhonnell, yn cynnwys grantiau LlC.

costau trydan wedi codi'n sydyn ar ôl i gontract blaenorol y sefydliad ddod i ben. Mae cyflogau staff hefyd wedi cynyddu oherwydd ymrwymiad y sefydliad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a dod yn Gyflogwr Achrededig Cyflog Byw, yn ogystal â recriwtio staff ychwanegol i gefnogi ehangu gweithgareddau. Er gwaethaf y pwysau hyn, gwnaeth y sefydliad benderfyniad strategol i beidio â chynyddu ffioedd aelodaeth, gan amsugno costau cynyddol er mwyn osgoi rhoi straen ychwanegol ar aelodau.

**Ffigur 7.1: Cynaliadwyedd ariannol FSC dros amser**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o ddata monitro grantiau a chyfrifon y Comisiwn Elusennau ar gyfer FSC

### Bodloni'r galw yn y dyfodol

Mae'r galw am wasanaethau FSC yn parhau i gynyddu, fel yr adlewyrchir yn y rhestr aros gyfredol o tua 95 o sefydliadau ledled Cymru. Fel y dangosir yn Nhabl 7.1, mae'r sefydliadau ar y rhestr aros yn cynrychioli ystod amrywiol o wasanaethau, gydag ysgolion yn cyfrif am 28%, ac yna canolfannau cymunedol (14%) a gwasanaethau mewn lleoliadau preswyl (11%). Fodd bynnag, mae'r gyfran fwyaf (29%) o sefydliadau yn anhysbys.

**Tabl 7.1: Dadansoddiad o fathau o sefydliadau rhestr aros**

| Enw'r Sefydliad | Rhestr aros aelodau a gynrychiolir (%) |
|---|---|
| Anhysbys | 29 |
| Ysgol | 28 |
| Canolfan gymunedol | 14 |
| Lleoliad Preswyl | 11 |
| Canolfan Cyngor ac Adnoddau | 4 |
| Gwasanaeth bwyd yn unig | 3 |
| Canolfan ddydd / Galw heibio | 3 |
| Ffydd | 2 |
| Awdurdod Lleol | 2 |
| Canolfan Hyfforddi | 1 |
| Clwb y tu allan i'r ysgol | 1 |
| Arall | 1 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata rhestr aros Aelodau FSC

Ymhlith y grwpiau buddiolwyr a grybwyllir amlaf y mae sefydliadau ar y rhestr aros aelodau yn anelu at eu cefnogi mae teuluoedd â phlant (25%), y gymuned leol (24%), a phlant dan 18 oed (18%). Mae dros 70% o'r sefydliadau hyn yn bwriadu dosbarthu bwyd trwy sianeli lluosog, gan gynnwys parseli bwyd, pantrïau, bwtrïoedd ac oergelloedd cymunedol. Yn arbennig, mae traean o'r sefydliadau hyn wedi bod ar y rhestr aros ers dros 2 flynedd (ers 2022), gan amlygu'r bwlch parhaus rhwng cyflenwad a galw.
Cynhaliwyd dadansoddiad pellach ar leoliad sefydliadau ar y rhestr aros i ddeall y galw o'i gymharu â maint y boblogaeth leol. Mae'r data lleoliad sydd gan FSC

yn dangos bod gan Ferthyr Tudful y galw uchaf y pen[92], ac yna ardaloedd yng ngorllewin Cymru fel Sir Gaerfyrddin (5.79) a Cheredigion (5.48). I'r gwrthwyneb, mae ardaloedd fel Powys (0.7), Castell-nedd Port Talbot (2.10), a Rhondda Cynon Taf (2.9) yn dangos y galw cymharol isaf, a allai adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol o ran bwyd, lefelau is o ansicrwydd bwyd neu ymwybyddiaeth fwy cyfyngedig o gefnogaeth FSC.

**Ffigur 7.2: Rhestr aros sefydliad fesul pen yn ôl ALI**




Ffynhonnell: Miller Research

Yn ôl staff FSC, mae ehangu rhwydwaith yr aelodau yn parhau i fod yn heriol oherwydd sawl ffactor. Un o'r prif heriau yw cyfyngiadau daearyddol, gan fod ehangu cynnar wedi blaenoriaethu ardaloedd ger warws FSC fel Caerffili, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, a Sir Fynwy. Er bod y cyrhaeddiad wedi ehangu ers hynny, roedd ardaloedd fel Abertawe yn wynebu anawsterau o ran

---

[92] Mae galw y pen yn cyfeirio at nifer y sefydliadau ar y rhestr aros wedi'u haddasu ar gyfer maint y boblogaeth. Fe'i cyfrifir drwy rannu nifer y sefydliadau ar y rhestr aros mewn awdurdod lleol â'i gyfanswm poblogaeth a lluosi â 100,000 i ganiatáu cymhariaeth ar draws ardaloedd o wahanol feintiau.

ymgysylltu’n gynnar oherwydd ymwybyddiaeth is gan aelodau a llai o fentrau ailddosbarthu bwyd presennol.

Adroddodd y rhai a gafodd eu cyfweld o'r FSC fod argaeledd bwyd dros ben i'w ailddosbarthu hefyd wedi symud tuag at dderbyn cynhyrchion bwyd maint arlwyo, yn ogystal â chynnyrch ffres ac eitemau wedi'u rhewi fel cyfran o'r cyfanswm o'r bwyd dros ben a dderbynnir, ochr yn ochr ag eitemau dros ben manwerthwyr mwy rheolaidd. Darperir rhai o'r rhoddion hyn mewn dognau llawer mwy nag y gall unigolyn neu aelwyd eu bwyta. Ar hyn o bryd, mae gan FSC gyfleusterau cyfyngedig i brosesu'r bwyd dros ben hwn yn ddognau llai. O ganlyniad, mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i FSC ddatblygu dull mwy dethol o dderbyn aelodau, er mwyn sicrhau bod bwyd bwytadwy dros ben sy'n cael ei gyflenwi mewn meintiau mwy yn cael ei ddefnyddio'n llawn. Nid yw pob sefydliad yn gallu derbyn pob math o fwyd (gan gynnwys ar gyfer storio a safonau diogelwch bwyd), gan bwysleisio pwysigrwydd teilwra'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion aelodau. Er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o fwyd, rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau sy'n gwneud cais i ddod yn aelodau sy'n gweithredu prosiectau coginio a pharatoi prydau bwyd, neu'r rhai sy'n gweithredu modelau deuol (coginio a dosbarthu o bantrïoedd), ar gyfer eu derbyn. Mae hyn hefyd wedi cael ei effeithio gan y newid yn y gefnogaeth bwyd a gynigir gan aelodau dros amser, gan nad yw nifer o aelodau a oedd wedi cynnal prosiectau coginio cyn pandemig Covid-19 wedi ailddechrau gweithgareddau paratoi prydau bwyd. Fodd bynnag, mae FSC wedi chwarae rhan weithredol wrth weithio gydag aelodau i dderbyn mwy o'r math hwn o fwyd dros ben, trwy annog aelodau i gynnig prosiectau coginio.

Nid yn unig y mae'r newid hwn mewn argaeledd bwyd dros ben yn effeithio ar dderbyn aelodau ond mae hefyd yn tynnu sylw at natur esblygol ymdrechion i leihau gwastraff bwyd. Os bydd manwerthwyr yn parhau i wella effeithlonrwydd stoc, gall sicrhau bwyd dros ben y gellir ei ailddosbarthu'n haws ddod yn fwyfwy anodd. Mae hyn wedi golygu bod angen i FSC archwilio atebion rhagweithiol i rannu pecynnau arlwyo mawr (megis prosesu bwyd canolog, cyfleusterau labelu, a sianeli cyflenwi amgen) yn ogystal â gweithio gydag aelodau i allu gwneud defnydd effeithiol o'r math o fwyd dros ben a dderbynnir.

Y tu hwnt i gyfyngiadau ar gyflenwad bwyd, mae ehangu'r rhwydwaith hefyd yn gofyn am gydbwyso'r galw â llwybrau dosbarthu effeithlon. Esboniodd y staff fod

aelodau newydd yn cael blaenoriaeth lle gellir eu hintegreiddio i lwybrau dosbarthu presennol, tra gallai'r rhai mewn ardaloedd mwy anghysbell wynebu oedi oni bai y gellir derbyn mwy o aelodau yn yr ardaloedd hynny i greu llwybrau dosbarthu effeithlon.

Mewn rhai rhanbarthau, mae FSC wedi cyflwyno pwyntiau casglu canolog, gan alluogi nifer o aelodau i gasglu bwyd o un lleoliad, gan wella effeithlonrwydd a lleihau'r angen am nifer o ddosbarthiadau uniongyrchol. Mewn ardaloedd eraill fel gorllewin Cymru, mae dull hybrid wedi'i fabwysiadu hyd yn hyn, lle mae partner lleol yn cynnal fan FSC ac yn cefnogi recriwtio gwirfoddolwyr i hwyluso ailddosbarthu bwyd. Er bod y dull hwn wedi gweithio'n dda, nododd staff FSC, wrth i'r galw gynyddu, y gallai fod pwynt troi lle mae sefydlu depo lloeren[93] yn dod yn angenrheidiol i gynnal gweithrediadau.

### Datblygu cynaliadwy yn y dyfodol

Y tu hwnt i'r manteision amgylcheddol a chymdeithasol y mae'r arian grant wedi helpu i'w galluogi ers 2015, mae gwaith maes wedi canfod bod FSC yn archwilio strategaethau'n rhagweithiol i gryfhau ei wydnwch hirdymor ymhellach, fel y dangosir drwy ei Gynllun Strategol pum mlynedd. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau logistaidd a chost parhaus a amlygwyd yn gynharach yn yr adroddiad.

Fel rhan o'r dull hwn, mae FSC yn archwilio amrywiaeth o gyfleoedd i arallgyfeirio incwm, gan gynnwys cyflwyno model 'FareShare Plus' (system talu a chario sy'n galluogi aelodau i brynu bwyd dros ben ychwanegol am gost is), ac ystyried datblygu canolfan hyfforddi i gynhyrchu refeniw ychwanegol. Yn ogystal, mae cyfweliadau â rhanddeiliaid FSC wedi awgrymu uchelgais i archwilio cyfleoedd i ddarparu hyfforddiant ar ddefnyddio bwyd dros ben a sgiliau coginio, gan gynnwys arddangosiadau o sut y gellir defnyddio cynnyrch dros ben. Drwy arddangos gwerth a photensial bwyd dros ben yn y ffordd hon, mae cyfle i ddenu mwy o bartneriaid corfforaethol a allai fod â diddordeb mewn cefnogi ymdrechion ailddosbarthu, mentrau cyfrifoldeb cymdeithasol neu hyfforddiant i'w gweithwyr. Soniodd staff FSC hefyd am gyfleoedd incwm ar raddfa lai, fel codi tâl am wasanaethau labelu bwyd, a allai gefnogi incwm a enillir.

---

[93] H.y. yn ogystal â Chaerdydd.

Mewn mannau eraill yn y DU, mae sefydliadau tebyg i FSC – fel Eggcup[94] – wedi buddsoddi mewn cyfleusterau paratoi ac ail-labelu bwyd canolog i gynyddu defnyddioldeb bwyd dros ben. Creodd Eggcup ofod prosesu diogel i fwyd, lle mae gwirfoddolwyr:

- yn ail-becynnu eitemau swmp (e.e., wyau a blawd).
- yn torri a dogni llysiau gan ddefnyddio proseswyr bwyd diwydiannol.
- yn paratoi cawliau a phrydau parod i'w bwyta o gynnyrch dros ben, fel troi llysiau gaeaf diangen yn gawliau i'w hailddosbarthu.

Mae'r dull hwn wedi helpu Eggcup i ehangu ei effaith drwy wneud bwyd dros ben yn fwy hygyrch i ystod ehangach o grwpiau cymunedol - yn enwedig y rhai sydd heb gyfleusterau arlwyo i brosesu cynhwysion swmp[95]. Efallai y bydd cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth debyg yng Nghymru, y mae FSC eisoes wedi bod yn gweithio tuag ati, trwy ei gynllun peilot Cegin Ailddosbarthu Cymru.[96]

Mae gwaith maes gyda rhanddeiliaid FSC yn awgrymu bod FSC hefyd yn gweithredu strategaethau'n rhagweithiol i leihau costau gweithredol ymhellach, gan gynnwys gosod paneli solar yn ei brif warws i wrthbwyso prisiau trydan cynyddol. Trafododd staff gynlluniau i wella effeithlonrwydd logistaidd, trwy ychwanegu lori fwy at y fflyd cerbydau fel rhan o logisteg genedlaethol FareShare UK, yn lle defnyddio faniau lluosog. Byddai hyn yn lleihau costau tanwydd a cherbydau yn gyffredinol.

Fodd bynnag, nododd staff FSC y byddai'r cyfleoedd hyn yn gofyn am recriwtio rolau ychwanegol i gefnogi'r newid hwn megis gweithiwr cymwysedig ar gyfer cerbydau nwyddau trwm, hyfforddwr llawn amser i arwain mentrau datblygu sgiliau, cogydd rhan-amser i gefnogi addysg defnyddio bwyd ac ymgysylltiad corfforaethol. Byddai angen rheolwr prosiect a staff gweithredol hefyd i oruchwylio ehangu yn y dyfodol i orllewin Cymru. Ar hyn o bryd cefnogir y ddarpariaeth drwy'r super LPC yng Nghaerfyrddin. Fodd bynnag, mae FSC yn cydnabod y gallai fod angen datblygu Hyb Lloeren yn y tymor hir, er mwyn gallu cefnogi rhwydwaith estynedig o aelodau mewn ardaloedd dan anfantais yng ngorllewin Cymru, yn dibynnu ar lefelau'r galw yn y rhanbarth. At ei gilydd,

---

94 Eggcup

95 Xcess: The independent food redistribution network, 'Repacking for repurpose: case study', 2024

96 FareShare Cymru: Cyflwyno ein Prosiect Cegin Ailddosbarthu Cymru, 2024

teimlwyd y byddai'r cyfleoedd hyn yn helpu i gynyddu mynediad at fwyd bwytadwy dros ben ac yn galluogi FSC i fod yn fwy ymatebol ac i ddiwallu lefelau'r galw yn y rhanbarth.

# 8. Casgliadau ac argymhellion

Mae casgliadau'r gwerthusiad hwn yn seiliedig ar feini prawf Gwerthuso Gwell yr OECD; gan ddefnyddio fframwaith perthnasedd, cydlyniant, effeithiolrwydd, effeithlonrwydd, effaith a chynaliadwyedd i arwain ystyriaethau. Mae'r fframio hwn yn cefnogi asesiad priodol o'r dyfarniad grant, yr amcanion polisi cyffredinol, a'r graddau y mae'r gweithrediad (FSC) wedi cyflawni yn erbyn y meini prawf dymunol. Gan nad yw'r grant wedi bod yn destun gwerthusiad rheolaidd, mae'r ystyriaethau hyn wedi'u cynllunio i roi cipolwg ystyrlon ar effeithiolrwydd ac addasrwydd y dyraniad arian dros amser.

**Perthnasedd: a yw'r ymyrraeth yn gwneud y pethau cywir?**

Mae'r grant yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar leihau gwastraff bwyd a amlinellwyd yn strategaeth Mwy Nag Ailgylchu 2021 a Chyllideb Carbon Sero Net Cymru 2050. Mae'r graddau y mae amcanion a dyluniad yr ymyrraeth yn 'ymateb' i anghenion buddiolwyr yn ystyriaeth allweddol, gan fod gweithrediad FSC wedi addasu'n dda i newidiadau cymdeithasol cythryblus – gan ddarparu gwasanaeth cyson wrth i'r galw dyfu.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael ar lefelau gwastraff bwyd ar hyn o bryd yn awgrymu bod methiant yn y farchnad o ran graddfa'r bwyd bwytadwy dros ben sy'n cael ei gynhyrchu gan fusnesau. Mae'r gwastraff hwn o fwyd bwytadwy dros ben, y gellid ei ddefnyddio i fwydo pobl, yn cael ei sianelu naill ai trwy waredu i safleoedd tirlenwi neu gyfleusterau Treulio Anaerobig. Mae gweithrediadau FSC mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r methiant marchnad hwn drwy ailddosbarthu gorgynhyrchu yn y gadwyn gyflenwi. Drwy atal gwastraff a sicrhau bod ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben yn cefnogi cymunedau a fydd yn elwa fwyaf ohono, mae FSC mewn sefyllfa dda fel sefydliad i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, mae perthnasedd hirdymor gweithgarwch a ariennir gan grant i amcanion cychwynnol y dyfarniad grant yn dibynnu ar gydbwyso ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben sydd ar gael â mynd i'r afael ag atal gwastraff wrth y **ffynhonnell**. Fel yr amlinellwyd mewn man arall yn yr adroddiad hwn; er gwaethaf gweld cynnydd yn nifer y bwyd bwytadwy dros ben sy'n cael ei ailddosbarthu yn y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae lefelau cyffredinol gwastraff bwyd yn y gadwyn gyflenwi yn parhau i fod yn uchel.  Felly, mae

perthnasedd hirdymor yn dibynnu ar sicrhau bod ymdrechion ailddosbarthu yn ategu cynlluniau ar gyfer atal gwastraff yn well wrth y ffynhonnell er mwyn 'dylunio' cael gwared ar fwyd dros ben o'r system.

### Cydlyniant: pa mor dda mae'r ymyrraeth yn 'cyd-fynd' â pholisïau cenedlaethol eraill?

Er bod Grant FSC yn cefnogi lleihau gwastraff bwyd ac yn gwella diogelwch bwyd cartrefi, nid oes gan Gymru strategaeth ailddosbarthu gydlynol ac nid oes digon o ddata ar raddfa'r gweithgareddau ailddosbarthu sy'n cael eu cyflawni ledled Cymru. O ran cydlyniant polisi, mae'r ymyrraeth a ariennir yn cyd-fynd yn dda ag uchelgeisiau ehangach Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a gwydnwch cymunedol.

Gellid cryfhau cydlyniant y gronfa â pholisïau gwastraff ac economi gylchol drwy atodi amodau amgylcheddol wedi'u targedu i'r gronfa – gweler pennod 7 am enghreifftiau. Yn ogystal, gallai cysylltiadau â pholisi bwyd a diod wella'r dirwedd ailddosbarthu bwyd; gan gydnabod ei safle a'i werth fel rhan o system fwyd Cymru.

Mae ymrwymiad ariannu Llywodraeth Cymru i ddarparu adnoddau i bartneriaethau bwyd lleol tan 2028, a lansio'r Strategaeth Bwyd Gymunedol yn arwydd o gyfleoedd ar gyfer datblygiad cenedlaethol y sector bwyd cymunedol. Yn benodol, mae'r ffrwd ariannu hon yn cefnogi ymrwymiadau i atal bwyd bwytadwy rhag cael ei wastraffu, ac yn y dyfodol gall gefnogi gwahanol ddulliau er mwyn amrywio ffynonellau bwyd bwytadwy dros ben.

### Effeithiolrwydd: a yw'r ymyrraeth yn cyflawni ei hamcanion?

Ers 2015, mae FSC wedi cyrraedd targedau grant yn gyson, ac mewn rhai achosion, wedi rhagori arnynt, gan ddangos twf o flwyddyn i flwyddyn mewn cyfeintiau bwyd a ailddosbarthwyd, nifer yr aelodau a gefnogir a lefel yr hunangynhaliaeth a adroddwyd. Mae'r grant hefyd wedi galluogi Llywodraeth Cymru i ymateb yn hyblyg i heriau sy'n dod i'r amlwg. Mewn termau absoliwt, mae'r ymyrraeth wedi cyflawni canlyniadau ac wedi bodloni'r amodau sydd ynghlwm wrth y dyfarniad grant.

Mewn gwerthusiad yn y dyfodol, bydd angen canolbwyntio mwy ar briodoli canlyniadau i dderbyn arian. Gan fod FSC yn derbyn incwm o sawl ffrwd, mae'n

heriol 'ynysu' effeithiau dyfarniad grant FSC. Ar ben hynny, bu dadansoddiad cyfyngedig o'r 'canlyniadau gwahaniaethol' ar draws gwahanol grwpiau rhanddeiliaid; byddai gwell ymgysylltiad ymchwil â busnesau ac aelodau'r gymuned ('buddiolwyr' uniongyrchol) yn cefnogi asesiad gwell o ganlyniadau 'anfwriadol' yr arian.

### Effeithlonrwydd: pa mor dda mae adnoddau'n cael eu defnyddio?

Mae'r gwerthusiad yn dod i'r casgliad bod yr ymyrraeth a ariannwyd drwy'r dyfarniad grant wedi cyflawni canlyniadau mewn modd economaidd ac amserol (yn unol â meini prawf OECD). Mae'r grant wedi galluogi FSC i gynyddu graddfa gweithrediadau'n effeithlon drwy sicrhau bod y seilwaith, y bobl a'r setiau sgiliau cywir ar waith i gynyddu ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben ledled Cymru i ystod ehangach o aelodau.  Wrth i FSC dyfu, mae wedi cyflawni arbedion maint mwy, gan gynnal canlyniadau i'w fuddiolwyr. Lle mae'r ymyrraeth wedi bod mewn perygl o beidio â chyflawni targedau ac amodau, mae targedau wedi'u haddasu'n rhesymol i ddiwallu gofynion y cyd-destun sy'n esblygu; er enghraifft, cynnydd sylweddol mewn costau cyffredinol a threuliau.

### Effaith: i ba raddau mae'r effeithiau'n drawsnewidiol?

Er bod y gwerthusiad wedi ceisio dangos tystiolaeth o effaith (effeithiau tymor hwy'r targedau y mae'r ymyrraeth yn cael ei mesur yn eu herbyn) – mae'n cyflawni casgliadau cyfyngedig ynghylch effeithiau trawsnewidiol lefel uwch. Er mwyn gwella dealltwriaeth o'r effaith a gynhyrchir drwy'r grant, mae angen ymgysylltu mwy dwfn â chanlyniadau dymunol yr ymyrraeth. Yn unol â'r ffrwd ariannu ar gyfer trechu tlodi, byddai dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o sut mae'r buddiolwyr terfynol (h.y. cymunedau a gefnogir gan aelod sefydliadau) yn defnyddio bwyd bwytadwy dros ben a ddosberthir drwy FSC yn cefnogi'r casgliadau hyn. O safbwynt yr Is-adran Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol, byddai gwell dealltwriaeth o ymgysylltiad busnesau ag FSC – yn enwedig i ymchwilio i unrhyw ganlyniadau anfwriadol, yn cefnogi casgliadau ynghylch yr effaith ar ailddosbarthu a lleihau gwastraff bwyd.
Yn ôl telerau ac amodau'r grant, mae tystiolaeth dda o effeithiau cymdeithasol y grant yn gyffredinol ac maent wedi'u hymgorffori yn adroddiadau cynnydd rheolaidd FSC. Mae aelodau a gefnogir gan FSC wedi lleihau costau gweithredol

o ganlyniad i'r bwyd a geir drwy eu haelodaeth, gan ganiatáu iddynt gefnogi mwy o fuddiolwyr, tra hefyd yn gwella amrywiaeth ac argaeledd bwyd. Adroddodd gwirfoddolwyr yr ymgysylltwyd â nhw drwy gydol y gwerthusiad well llesiant, hyder a datblygiad sgiliau.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau yn y galluoedd storio a chludo yng ngogledd a gorllewin Cymru yn dal i gael eu hadrodd fel rhai sy'n cyfyngu ar weithgareddau ailddosbarthu, gan ddangos bod mwy i'w wneud i oresgyn bylchau yn y gefnogaeth i gymunedau yn yr ardaloedd hyn.

Y prif fudd amgylcheddol yw cefnogi dargyfeirio bwyd bwytadwy dros ben rhag dod yn wastraff (mor uchel i fyny'r hierarchaeth gwastraff bwyd â phosibl) a'r arbedion carbon cysylltiedig.

Mae arian SWP Cymru wedi gwella mynediad at fwyd dros ben anodd ei gyrraedd yn ôl y data a adroddwyd gan FSC, a ddangosodd fod arian SWP Cymru wedi helpu i ddargyfeirio 169.8 tunnell ychwanegol o fwyd a diod i gymunedau, yn ogystal â ffigurau allbwn craidd FSC. Fodd bynnag, nodwyd yn adroddiad ariannu SWP Cymru fod y nifer a gymerodd ran yn gyfyngedig i ddechrau, gyda dim ond 3 busnes yn cael eu derbyn allan o gyfanswm o 200 o fusnesau yr ymgysylltwyd â nhw.

Mae asesiad yr adroddiad gwerthuso hwn o effaith amgylcheddol ehangach wedi'i gyfyngu gan ffocws targed y dyfarniad grant ar dunelledd y fwyd a ddargyfeirir fel un mesur, yn hytrach na chanlyniadau amgylcheddol ehangach. Mae data cyfyngedig ar gael ar ffynonellau bwyd bwytadwy dros ben, sut mae'n cael ei ddefnyddio ar ôl ei ailddosbarthu (gan gynnwys y ganran a allai fynd yn wastraff o hyd), neu raddau ymgysylltiad busnesau ag ymdrechion ailddosbarthu yng Nghymru. Er bod y metrig tunelledd yn rhoi arwydd defnyddiol o raddfa, nid yw'n cipio'r manteision amgylcheddol llawn a gyflawnir nac yn ystyried aneffeithlonrwydd presennol o fewn y system.

### Cynaliadwyedd: i ba raddau y bydd y manteision yn para?

Mae'r dyfarniad grant wedi cefnogi model ailddosbarthu cynaliadwy, sydd wedi cynyddu hunangynhaliaeth FSC yn sylweddol ers 2015. Er mai dim ond ers 2019 y mae'n ofynnol i FSC adrodd yn erbyn ei hunangynhaliaeth, roedd y data a adroddwyd yn dangos ei fod wedi gallu cynyddu ei hunangynhaliaeth amcangyfrifedig 21 pwynt canran o 44% yn y flwyddyn 2019 i 2020, i 65% yn

2023 i 2024[97]. Mae cyfraniadau'r grant tuag at gefnogi hunangynhaliaeth FSC wedi cynnwys galluogi adeiladu capasiti trwy ddatblygu seilwaith a buddsoddi mewn staff, a datblygu gwirfoddolwyr. Mae hyn wedi cefnogi FSC i ehangu ei gyrhaeddiad ledled Cymru, cefnogi mwy o aelodau, a chynyddu effeithlonrwydd ei weithrediadau. Mae hyn yn dangos bod presenoldeb y sefydliad yng Nghymru bellach yn fwy tebygol o fod yn gynaliadwy nag y byddai wedi bod, yn absenoldeb arian gan Lywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, rhaid i'r grant FSC hefyd geisio cyflawni'r ateb mwyaf cynaliadwy a pharhaol i fynd i'r afael â gwastraff bwyd. Yn ôl canllawiau'r OECD, dylai asesu cynaliadwyedd ystyried ffactorau fel gwydnwch, risgiau a chyfaddawdau posibl, yn ogystal â sut mae manteision yn newid dros amser. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn tynnu sylw at risg hirdymor bosibl sy'n gysylltiedig â mesurau atal gwastraff bwyd gwell. Mae Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle (2024) Llywodraeth Cymru yn gorchymyn bod rhaid i bob safle annomestig sy'n cynhyrchu mwy na 5kg o wastraff bwyd yr wythnos wahanu eu gwastraff ar gyfer ailgylchu. Gellir rhoi dirwyon i fwytai, caffis, gwestai, ysgolion, ysbytai, a swyddfeydd â ffreuturau, am beidio â chydymffurfio. Nid oes data ar gael eto i asesu effeithiau hyn ar leihau gwastraff bwyd. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid yn y sector ailddosbarthu bwyd yn rhagweld y gallai cynnydd rheoleiddiol, yn ogystal â'r diddordeb cynyddol mewn cyflwyno adrodd gwastraff bwyd gorfodol ar gyfer busnesau (gyda chefnogaeth dros 30 o fanwerthwyr a chynhyrchwyr mawr yn y DU) arwain at gynnydd cychwynnol yng nghyfaint y bwyd bwytadwy dros ben sydd ar gael i'w ailddosbarthu, ac yna dirywiad tymor hwy wrth i fusnesau ddatblygu arferion rheoli rhestr eiddo mwy effeithlon.

Felly, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod strategaethau ailddosbarthu presennol yn parhau i fod yn hyfyw tra hefyd yn cefnogi mesurau diogelwch bwyd amgen.

**Argymhellion ar gyfer y dyfarniad grant**

Bwriad yr argymhellion hyn yw cefnogi gwneud penderfyniadau ac ystyriaethau ynghylch cyfeiriad y gronfa yn y dyfodol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Nodwyd nifer o argymhellion i gefnogi Llywodraeth Cymru wrth feddwl am gefnogaeth yn

[97] Gweler Atodiad C am fwy o fanylion ynghylch y cynnydd a adroddwyd yn erbyn targedau perfformiad.

y dyfodol i'r dirwedd ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben ehangach yng Nghymru.

### Gwella monitro a gwerthuso'r dyfarniad grant:

Mae'r gwerthusiad wedi rhoi cipolwg ar y 'bylchau' sy'n atal ymchwilwyr rhag dod i gasgliadau cryfach ynghylch cynaliadwyedd gweithredol, ariannol ac amgylcheddol hirdymor gweithgareddau a ariennir. O safbwynt yr economi gylchol, gallai asesiad effaith amgylcheddol fod yn fwy addas i gefnogi'r asesiad o gynnydd yn erbyn uchelgeisiau cyffredinol i leihau gwastraff bwyd. Er enghraifft, mesur gostyngiad mewn nwyon tŷ gwydr o fethan neu fiogas wedi'i ddefnyddio (o ganlyniad i fwyd sy'n cael ei atal rhag dod yn wastraff trwy safleoedd tirlenwi neu Dreuliad Anaerobig), arbedion effeithlonrwydd dŵr ac adnoddau (lle mae bwyd dros ben yn cael ei atal wrth y ffynhonnell), a monitro allyriadau carbon yn erbyn targedau wedi'u diffinio'n dda, ar gyfer cludo bwyd wedi'i ailddosbarthu. Yn ogystal, gallai dadansoddiad enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad hefyd helpu i roi cipolwg mwy cyfannol ar effaith gymdeithasol, economaidd *ac* amgylcheddol gweithgareddau a ariennir.
Rhestrir argymhellion i gefnogi gwell monitro a gwerthuso'r dyfarniad grant yn y dyfodol fel a ganlyn:

- Integreiddio targedau amgylcheddol gwell i fonitro'r dyfarniad grant i sicrhau bod effaith amgylcheddol gref, olrheiniadwy y gellir ei phriodoli i'r arian.
- Gwella'r broses adrodd rhwng Llywodraeth Cymru a derbynnydd(ion) y dyfarniad grant i wella cywirdeb a chysondeb y data a adroddir, er mwyn adeiladu sylfaen dystiolaeth gryfach.
- Annog cynnal asesiad effaith amgylcheddol fel rhan o werthusiadau yn y dyfodol.
- Annog gwerthusiadau'r gronfa yn y dyfodol i ddefnyddio dull gwerth cymdeithasol wrth asesu canlyniadau (gyda'r nod o gynhyrchu dadansoddiad enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad). Mae hyn wedi'i gyflawni ar gyfer gweithrediadau FareShare UK ac mae'n helpu i sefydlu dealltwriaeth fwy gwybodus o effaith.

### Gwella dealltwriaeth o'r dirwedd ailddosbarthu ehangach:

Yn ogystal â gwella monitro a gwerthuso'r dyfarniad grant, mae'r ymchwil hon wedi tynnu sylw at ystyriaethau a chyfleoedd pellach i ddeall y dirwedd ailddosbarthu bwyd ehangach. Dylai hyn fod yn gysylltiedig â'r Strategaeth Bwyd Gymunedol a'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i sefydlu partneriaethau bwyd lleol ledled Cymru. Mae argymhellion i gefnogi'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Mynd i'r afael â bylchau tystiolaeth sy'n ymwneud â graddfa'r ecosystem ailddosbarthu yng Nghymru i gefnogi asesiad gwrthffeithiol gwell o'r grant, ac i wella dealltwriaeth o fodelau ailddosbarthu ar raddfa lai sy'n gweithio ledled Cymru. Gallai hyn gynnwys dull mwy uniongyrchol o ymchwilio gydag aelodau (neu'n fwy cyffredinol, clybiau bwyd fforddiadwy ledled Cymru); deall eu dulliau caffael ar lefel fanwl, gan gynnwys meintiau a chyfrannau cymharol y bwyd a gaffaelir, er mwyn cael gwell ymdeimlad o raddfa.
- Archwilio enghreifftiau o arfer gorau o ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben, sy'n ymyrryd yng nghyfnodau cynharach y gadwyn gyflenwi. Bydd hyn yn sicrhau parodrwydd ar gyfer newidiadau disgwyliedig i gaffael ac argaeledd bwyd bwytadwy dros ben, yn unol â mesurau rheoleiddio yn y dyfodol sy'n cael eu hystyried ledled y DU.

### Darparu cefnogaeth hyblyg i helpu ymdrechion ailddosbarthu yng Nghymru i addasu i'r cynnydd tymor byr disgwyliedig a'r dirywiad yn y pen draw mewn bwyd bwytadwy dros ben:

- Ystyried dull sy'n seiliedig ar asedau o gefnogi partneriaethau bwyd lleol drwy wella mynediad at offer a chyfleusterau. Dylai'r dyfarniad grant geisio mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau mwyaf cyffredin a nodwyd gan randdeiliaid ailddosbarthu i sicrhau bod gan fwy o sefydliadau cymunedol y capasiti i gymryd bwyd dros ben. Roedd y rhwystrau parhaus hyn (a nodwyd gan randdeiliaid) yn cynnwys diffyg cyfleusterau storio neu storio oer i allu storio bwyd dros ben a achubwyd, a diffyg cyfleusterau i allu prosesu bwyd dros ben a ailddosbarthwyd mewn dognau sy'n rhy fawr i aelwydydd unigol eu bwyta.
- Gall hyn olygu mabwysiadu dull tebyg i Zero Waste Scotland sydd wedi datblygu'r Community Fridge Fund i gefnogi sefydliadau cymunedol trwy fuddsoddiad wedi'i dargedu, neu drwy fuddsoddi mewn model mwy canolog ar

gyfer prosesu bwyd dros ben fel prosiect Cegin Ailddosbarthu Cymru a dreialwyd gan FSC, ar raddfa fwy.

- Ystyried mentrau a all gefnogi darparwyr bwyd cymunedol i gaffael eu bwyd o ystod fwy amrywiol o ffynonellau, er mwyn cefnogi ymrwymiadau a wnaed yn y Strategaeth Bwyd Gymunedol.
- Darparu cefnogaeth hyblyg ar gyfer ymdrechion ailddosbarthu yng Nghymru, y gellir eu cynyddu neu eu lleihau'n effeithiol mewn ymateb i'r newidiadau yn lefel y bwyd dros ben sydd ar gael, a darparu cefnogaeth i fynd i'r afael â heriau sy'n dod i'r amlwg o ran cael mynediad at fwyd dros ben sy'n anoddach ei gyrraedd. Byddai hyn yn galluogi'r ymdrechion ailddosbarthu i addasu i'r cynnydd cychwynnol a'r dirywiad yn y pen draw mewn bwyd bwytadwy dros ben yn unol â disgwyliadau rhanddeiliaid o dueddiadau'r dyfodol.
- Efallai y bydd hyn yn gofyn am adolygu ac ailstrwythuro’r gronfa yn rheolaidd, er mwyn sicrhau ei bod yn addasu yn unol â newidiadau disgwyliedig yn argaeledd a natur y bwyd dros ben sydd ar gael i'w ailddosbarthu. Byddai hyn yn adlewyrchu model ariannu mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, gan ddarparu mwy o wydnwch i'r sector ailddosbarthu.

## 9. Atodiad A [Atodiad A: model rhesymeg]




Disgrifiad o Ffigur A1: Diagram sy'n dangos gyrwyr lefel uchel y model rhesymeg a'u meysydd dylanwad. Mae'r manylion llawn ar dudalen nesaf y ddogfen.

**Gyrwyr polisi - Pa fentrau polisi a strategol sy'n gyrru'r angen am grant FSC?**

**Deddfwriaeth Ewropeaidd a'r DU**

P.1 – Cynllun Gweithredu'r Economi Gylchol

P.2 – Deddfwriaeth Gwastraff Ddiwygiedig yr UE

P.3 – UNSDG 12.3 a Chytundeb Bwyd a Diod y DU (Courtauld 2030 gynt)

**Deddfwriaeth genedlaethol**

P.4 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

P.5 – Rhaglen Lywodraethu

P.6 – Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

P.7 – Ffyniant i bawb: Cymru Carbon Isel

P.8 – Sero Net Cymru: Cyllideb Carbon 2 (2021-2025)

P.9 – Mwy nag Ailgylchu Ailgylchu: Strategaeth Economi Gylchol Cymru

P.10 – Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle Cymru (2024)

P.11 – Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant bwyd a diod

P.12 – Cynllun sector gweithgynhyrchu, gwasanaeth a manwerthu bwyd.

P13 – Strategaeth Tlodi Plant Cymru (Mawrth 2015)

P.14 – Cynllun Mwyafu Incwm Tlodi Plant 2020-21

P.15 – Pwysau Iach: Cymru Iach

P.16 – Ailadeiladu ar ôl Covid 19: Heriau a Blaenoriaethau

P.17 – Brexit

**Anghenion** – Beth yw'r angen am y grant FSC? Mae angen ...

**Amgylcheddol**

N.1 – Lleihau bwyd bwytadwy dros ben rhag cael ei wastraffu

N.2 – Lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r sector bwyd a diod

N.3 – Diffyg sefydliadau yng Nghymru sy'n gallu ail ddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben ar raddfa fawr

N.4 – Ychydig yn unig o gydlynu rhwng cynhyrchwyr bwyd bwytadwy dros ben a defnyddwyr posibl

N.5 – Sicrhau bod bwyd bwytadwy dros ben yn cael ei ailddosbarthu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â safonau Hylendid Bwyd

**Cymdeithasol**

N.6 – Lliniaru effeithiau lefelau tlodi uchel yng Nghymru

N.7 – Darparu gwell mynediad at fwyd iach a maethlon yng Nghymru i aelwydydd incwm isel, unigolion digartref, a'r rhai sy'n profi unigrwydd/ynysu

N.8 – Mynd i'r afael â bylchau wrth ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben yng Ngogledd, Canolbarth a De-orllewin Cymru

N.9 – Hyrwyddo gwell cydlyniant cymunedol drwy fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â bwyd

N.10 – Cefnogi datblygiad sgiliau staff a gwirfoddolwyr: gan gynnwys sgiliau technegol a sgiliau 'meddal'

N.11 – Addysg a chefnogaeth i CFMs (Aelodau Bwyd Cymunedol) wrth ddefnyddio bwyd dros ben

N.12 – Galluogi rhwydweithiau cymorth ehangach a hwyluso seilwaith o amgylch darpariaeth bwyd

**Economaidd**

N.13 – Annog busnesau i leihau eu gwastraff o fwyd bwytadwy dros ben a dod yn fwy effeithlon

N.14 – Galluogi CFMs i arbed arian trwy gael mynediad at fwyd rhatach drwy FSC

**Amcanion** - Beth mae grant FSC yn ceisio ei gyflawni?

OB.1 – Cefnogi FSC i leihau ac ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben yng Nghymru

OB.2 – Cefnogi FSC i helpu busnesau i ddargyfeirio bwyd bwytadwy dros ben i'w ailddosbarthu

OB.3 – Cefnogi FSC i gefnogi elusennau, sefydliadau a grwpiau cymunedol yn eu gwaith i ailddyrannu bwyd i'r rhai sydd ei angen

OB.4 – Drwy arian SWP, agor mynediad i fwyd bwytadwy dros ben yn y gadwyn gyflenwi yng Nghymru

OB.5 – Cefnogi FSC i ddatblygu eu model ailddosbarthu a dod yn gynyddol hunangynaliadwy

**Mewnbynnau** – Beth yw dyfarniad grant FSC er mwyn cyflawni'r amcanion?

**IN.1 – Cyllid grant**

IN.1.1 - ~£2mil o gyllid RECE

YN. 1.2 - ~£1miliwn arian Trechi Tlodi

IN.1.3 – Ffynonellau arian eraill

**IN.2 – Adnoddau dynol**

IN.2.1 – Staff FSC

IN.2.2 – Gwirfoddolwyr

IN.2.3 – Partneriaid dosbarthu ehangach (megis FSUK / FS Merseyside)

IN.2.4 – Hyfforddiant staff a gwirfoddolwyr

IN.2.5 – Cefnogaeth AD

**IN.3 – Asedau**

IN.3.1 – Canolfan ailddosbarthu Caerdydd

IN.3.2 – Offer (oergelloedd, faniau ac ati...)

IN.3.3 – Seilwaith TG

IN.3.4 – Bwyd bwytadwy dros ben i'w ailddosbarthu

IN.3.5 - Cludiant a logisteg

IN.3.6 – Ynni a thanwydd

**IN.4 – Buddiolwyr arfaethedig**

YN.4.1 - CFMs

IN.4.2 - Buddiolwyr CFM

IN.4.3 - Gwirfoddolwyr

IN.4.4 – Busnesau

IN.4.5 – Ynni a phrosesau gweithredol

IN.4.6 - Perthynas gilyddol gyda FSUK

IN.4.7 – Ymgysylltiad ac ymdrech busnes i neilltuo bwyd bwytadwy dros ben ar gyfer ailddosbarthu

IN.4.8 – Perthynas â rhanddeiliaid/partneriaethau polisi ehangach
IN.4.9 – Cynaliadwyedd a chynllunio busnes FSC

**IN.5 – Cyfathrebu a marchnata**

**IN.6 – Prosesau monitro a gwerthuso**

**Gweithgareddau** – Beth mae'r dyfarniad grant FSC yn ei wneud gyda'r mewnbynnau er mwyn cyflawni'r amcanion
A.1 – Ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben o fusnesau i CFMs
A.2 – Adeiladu perthnasoedd â sefydliadau'r trydydd sector a CFMs
A.3 – Rheoli a chefnogaeth aelodaeth CFM
A.4 – Datblygu perthnasoedd â busnesau yn y gadwyn gyflenwi bwyd
A.5 – Logisteg (e.e. cludo bwyd) a storio
A.6 – Prosesau sicrhau ansawdd a chynnal safonau
A.7 – Recriwtio a hyfforddi staff a gwirfoddolwyr
A.8 – Adeiladu pethnasoedd lefel uchel gyda phartneriaeth yn gweithio â rhanddeiliaid ehangach
A.9 – Gwaith polisi ac ymgyrchu ar ran FSC a CFMs/sefydliadau llai
A.10 – Marchnata a chyfathrebu
A.11 – Bwyd Dros Ben ag Amcan
A.12 – Cymryd rhan mewn fforymau a digwyddiadau
A.13 – Hwyluso grantiau ac offer i aelodau
A.14 – Hyfforddiant a digwyddiadau

**Allbynnau –** Beth sy'n cael ei gynhyrchu'n uniongyrchol o weithgareddau dyfarnu grant FSC?

**Targedau blynyddol**
OP.1 – Tunnelledd o fwyd a diod bwytadwy dros ben wedi'i ailddosbarthu er mwyn osgoi gwastraff
OP.2 – Nifer y CFMs a gefnogir yn ystod pob blwyddyn ariannol
OP.3 – Nifer y prydau y mae FareShare yn cyfrannu atynt
OP.4 - £oedd o fwyd i CFMs

OP.5 – % hunangynhaliaeth rhagamcaniad / amcangyfrif

**OP.6 – Gwarged gyda Phwrpas**

OP.6.1 – Nifer a math y busnesau sy'n cael mynediad at gyllid

OP.6.2 – Tunnelledd o fwyd bwytadwy dros ben a gipiwyd (nodi unrhyw ormodedd o gynnyrch ffres)

OP.6.3 – Amcangyfrif o brydau bwyd

OP.6.4 – CO2e wedi'i ddargyfeirio

**Allbynnau tystiolaeth eraill**

OP.7 – Nifer y gwirfoddolwyr/gweithwyr wedi ennill cymhwyster

OP.8 – Nifer o wirfoddolwyr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth â thal

OP.9 – Argaeledd rhaglenni hyfforddi cymunedol; Hyfforddiant rhaeadru Love Food Hate Waste ac Nutrition Skills for Life ac unrhyw gyrsiau maeth/bwyd presennol eraill a ddarperir gan sefydliadau partner

OP.10 – Arbedion CO2e

OP.11 – Ailddosbarthu bwyd nad yw dros ben yn ogystal â bwyd dros ben (yn enwedig o amgylch y pandemig a chostau byw)

**Canlyniadau** - Beth yw'r canlyniadau tymor byr a chanolig o ddyfarniad grant FSC?

**Amgylcheddol**

OC.1 – Lleihau yn lefel y bwyd bwytadwy dros ben sy'n cael ei wastraffu yng Nghymru

OC.2 – Lleihau mewn allyriadau CO2 ac arbedion dŵr o fwyd sy'n cael ei ddargyfeirio o dirlenwi

**Cymdeithasol**

OC.3 – Ailddosbarthu bwyd dros ben (wedi'i fesur mewn 'prydau') i bobl mewn angen

OC.4 – Gwirfoddolwyr yn ennill profiad gwaith, hyfforddiant a chymwysterau

OC.5 – Gwirfoddolwyr yn ennill buddion cymdeithasol fel cyfeillgarwch, boddhad o roi yn ôl

OC.6 – Cyfleoedd cyflogaeth wedi’u creu yn FSC
OC.7 – Mynediad parhaus i wasanaethau cymunedol hanfodol a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector
OC.8 – Cynnydd yn natblygiad sgiliau gan wirfoddolwyr
OC.9 – Cynnydd yn y sgiliau a'r wybodaeth sydd gan CFMs er mwyn gallu defnyddio SEF
OC.10 – Mae CFMs yn gallu cael mynediad at SEF a pharhau i redeg eu gwasanaethau

**Economaidd**
OC.11 - Mwy o gapasiti ac adeiladu gallu gan FSC a'i aelodau
OC.12 – Cymorth i fusnesau i leihau gwastraff a chostau cysylltiedig
OC.13 – Lleihau costau ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector (CFMs)

**Ffactorau allanol** - Pa ffactorau allanol all effeithio ar FSC delivery / realization of expected impacts?
Ex.1 – Gwaddol Covid-19
Ex.2 – Cynydd mewn costau byw
Ex.3 – Argaeledd gwirfoddolwyr a throsiant gwirfoddolwyr
Ex.4 – Digwyddiadau tywydd eithafol
Ex.5 – Materion cadwyn gyflenwi a chludo
Ex.6 – Prisiau ynni/tanwydd
Ex.7 – Rhyfel byd-eang
Ex.8 – Brexit
Ex.9 – Amgylchedd ariannu CFM ehangach
Ex.10 – Newid yn y math o SEF sydd ar gael

**Effeithiau** - Beth yw'r canlyniadau hirdymor o ddyfarniad grant FSC?

**Amgylcheddol**
IM.1 – Lleihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (a lleihau effaith hinsawdd o ganlyniad)
IM.2 – Gwell effeithlonrwydd o ran adnoddau a hyrwyddo economi gylchol
IM.3 – Gwell gwytnwch yn yr hinsawdd yng Nghymru

IM.4 – Cyfraniad at dargedau lleihau hinsawdd a gwastraff Llywodraeth Cymru
IM.5 – Diogelu bioamrywiaeth a chyfalaf naturiol drwy leihau gwastraff bwyd
IM.6 – Lleihau llygredd byd-eang (e.e. morol), llai o wastraff sy'n cael ei allforio
IM.7 – Gwell ansawdd amgylcheddol lleol (yn cynnwys ansawdd dŵr) yng Nghymru drwy atal sbwriel a llygredd

**Cymdeithasol**

IM.8 – Gwell diogelwch bwyd, maeth a lles i bobl agored i niwed yng Nghymru
IM.9 – Cynyddu mewn hyder a sgiliau gwirfoddolwyr
IM.10 – Gwell llesiant gwirfoddolwyr a lleihad mewn ynysu cymdeithasol
IM.11 – Datblygu cymunedau cryfach, mwy cysylltiedig, cydlynus a gwydn
IM.12 –Sefydliadau'r trydydd sector yn cael cefnogaeth i fynd i'r afael â materion cymdeithasol sylweddol fel digartrefedd, trais domestig, allgáu, ynysu a thlodi
IM.13 – Mae cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn deall, yn gwerthfawrogi, ac yn cymryd rhan mewn economi gylchol (dod yn ddinasyddion cylchol)
IM.14 – Gwell mynediad i fwyd maethlon ar draws Cymru

**Economaidd**

IM.15 – Mwy o sefydlogrwydd ariannol a llai o ddibyniaeth ar arian grant ar gyfer FSC
IM.16 – Mwy o gyfraniadau economaidd gan sefydliadau a gefnogir (CFMs a busnesau)
IM.17 – Arbedion cost i'r sector cyhoeddus
IM.18 – Cystadleurwydd Cymru mewn swyddi gwyrdd a chynnydd yn yr economi gylchol

**Trawsbynciol**

IM.19 – Mwy o wydnwch yn wyneb materion y gadwyn gyflenwi byd-eang a phwysau cymdeithasol ac economaidd allanol eraill

## Atodiad B: tabl ymgysylltu

| Math o Randdeiliad | Niferoedd wedi'u hymgysylltu |
|---|---|
| **Polisi a rhanddeiliaid ehangach** | FSC (2),<br>FSUK (3)<br>Rhanddeiliaid tirwedd ailddosbarthu ehangach (3)<br>Polisi (3) |
| **Aelodau** | 8 |
| **Gwirfoddolwyr** | 12 o wirfoddolwyr, ar draws 2 weithdy |
| **Busnesau** | • 6 ymateb i'r arolwg (5 gweithgynhyrchydd, 1 ffermwr/tyfwr)<br>• 2 Gyfweliad (Gwneuthurwyr Cynnyrch Llaeth a Diodydd) |

## Atodiad C: cynnydd a adroddwyd yn erbyn targedau perfformiad ar gyfer arian grant (2015 hyd at 2023 i 2024)[98]

### Targedau a chyflawniadau lefel Cymru (2015 i 2017)

| Blwyddyn | Cyfanswm 2015 i 2016 (hanner blwyddyn) | Cyfanswm a adroddwyd i LIC | % o'r targed a gyflawnwyd | 2016 i 2017 | Cyfanswm a adroddwyd i LIC | % o'r targed a gyflawnwyd | 2017 i 2018 | Cyfanswm a adroddwyd i LIC | % o'r targed a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tunelledd o fwyd a diod wedi'i ddargyfeirio o wastraff i ailddosbarthu** | 200 | 282.94 | 141% | 460 | 467.73 | 102% | 460 | 504.04 | 110% |
| **Nifer cyfredol yr Aelodau Bwyd Cymunedol a gefnogir (y flwyddyn ariannol hon)** | 40 | 46 | 115% | 60 | 55 | 92% | 60 | 60 | 100% |
| **Nifer y prydau bwyd y mae FareShare yn cyfrannu atynt** | 476,200 | 673,680 | 141% | 1,095,260 | 1,113,665 | 102% | 1,095,260 | 1,194,857 | 102% |
| **£oedd o fwyd i Aelodau Bwyd Cymunedol*** | £500,000 | £707,350 | 141% | £1,150,000 | £1,169,325 | 102% | £1,150,000 | £1,254,575 | 109% |
| **% hunangynhaliaeth rhagamcanedig/amcan gyfrifedig** | Dim targed | Amh | Amh | Dim targed | Amh | Amh | Dim targed | Amh | Amh |

[98] Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yma o'r data monitro a rannwyd â Llywodraeth Cymru fel rhan o'r Dyfarniad Grant rhwng blwyddyn ariannol 2015 i 2016 a blwyddyn ariannol 2023 i 2024.

## Targedau a chyflawniad lefel Cymru (2018 hyd at 2020 i 2021)

| Blwyddyn | 2018 i 2019 | Cyfanswm a adroddwyd i LIC | % o'r targed a gyflawnwyd | 2019 i 2020 | Cyfanswm a adroddwyd i LIC | % o'r targed a gyflawnwyd | 2020 i 2021 | Cyfanswm a gyflawnwyd | % o'r targed a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tunelledd o fwyd a diod wedi'i ddargyfeirio o wastraff i ailddosbarthu** | 540 | 511.05 | 95% | 600 | 574.46 | 96% | 625 | 734.15 | 117% |
| **Nifer cyfredol yr Aelodau Bwyd Cymunedol a gefnogir (y flwyddyn ariannol hon)** | 70 | 67 | 96% | 80 | 132 | 165% | 80 | 188 | 235% |
| **Nifer y prydau bwyd y mae FareShare yn cyfrannu atynt** | 1,285,740 | 1,216,846 | 95% | 1,428,600 | 1,348,737 | 94% | 1,488,125 | 2,813,787 | 189% |
| **£oedd o fwyd i Aelodau Bwyd Cymunedol*** | £1,350,000 | £1,277,664 | 95% | 1,500,000 | £1,416,145 | 94% | 1,500,000 | £2,954,417.00 | 197% |
| **% hunangynhaliaeth rhagamcanedig/amcangyfrifedig** | Dim targed | Amh | Amh | 40% | 44% | 110% | 45% | 65% | 144% |

## Targedau a chyflawniad lefel Cymru (2021 hyd at 2023 i 2024)

| **Blwyddyn** | **2021 i 2022** | **Cyfanswm a gyflawnwyd** | **% o'r targed a gyflawnwyd** | **2022 i 2023** | **Cyfanswm a gyflawnwyd** | **% o'r targed a gyflawnwyd** | **2023 i 2024** | **Cyfanswm a gyflawnwyd** | **% o'r targed a gyflawnwyd** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tunelledd o fwyd a diod wedi'i ddargyfeirio o wastraff i ailddosbarthu** | 890 | 882.38 | 99% | 1050 | 815.67 | 78% | 1200 | 879.33 | 73% |
| **Nifer cyfredol yr Aelodau Bwyd Cymunedol a gefnogir (y flwyddyn ariannol hon)** | 230 | 192 | 83% | 265 | 252 | 95% | 265 | 258 | 97% |
| **Nifer y prydau bwyd y mae FareShare yn cyfrannu atynt** | Adrodd ar gynnydd - dim targed. Yn ymwneud â'r tunelledd a gasglwyd | 3,511,407 | Amh | Adrodd ar gynnydd - dim targed. Yn ymwneud â'r tunelledd a gasglwyd | 3,288,780 | Amh | Adrodd ar gynnydd - dim targed. Yn ymwneud â'r tunelledd a gasglwyd | 2,457,581 | Amh |
| **£oedd o fwyd i Aelodau Bwyd Cymunedol*** | Adrodd ar gynnydd - dim targed. Yn ymwneud â'r tunelledd a gasglwyd | £3,125,517.50 | Amh | Adrodd ar gynnydd - dim targed. Yn ymwneud â'r tunelledd a gasglwyd | £3,453,150 | Amh | Adrodd ar gynnydd - dim targed. Yn ymwneud â'r tunelledd a gasglwyd | £3,249,381.00 | Amh |
| **% hunangynhaliaeth rhagamcanedig/amcangyfrifedig** | 50% | 58% | 116% | 59% | 65% | 110% | 68% | 65% | 96% |

**Atodiad D: dadansoddiad o ffactorau addasu rhanbarthol**

| Secto | Cymru |
|---|---|
| Manwerthu | 0.04 |
| Gweithgynhyrchu | 0.05 |
| HaFS | 0.05 |
| Fferm* | 0.01 |
| Cymysg/Arall** | 0.03 |

* Cyfrifiad MR yn seiliedig ar ddata ONS ar nifer y mentrau yn ôl dosbarth SIC a rhanbarth, 2024
**Yn cyfeirio at fwyd o ffynonellau sy'n dod o sectorau eraill (e.e., marchnad gyfanwerthu, logisteg ac ati).